Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru (2025 – 2035) – Ymgynghoriad

## Tudalen gynnwys


| **Adran** | **Rhif tudalen** |
| --- | --- |
| Rhagair y Gweinidog | 3 |
| Diffiniadau | 4 |
| Adran 1: Cyflwyniad a chyd-destun | 6 |
| Adran 2: Pam mae angen strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol? | 28 |
| Adran 3: Amcanion Strategol a Chamau Blaenoriaeth | 59 |
| Adran 4: Cyflwyno'r strategaeth: dull system gyfan | 72 |
| Atodiad 1: Y gydberthynas rhwng y strategaeth hon a strategaethau, cynlluniau a ffrydiau gwaith eraill y Llywodraeth | 89 |
| Atodiad 2: Y strwythur cyflawni arfaethedig ar gyfer y strategaeth | 91 |
| Atodiad 3: Cwestiynau i'w gofyn wrth ystyried ymddygiad rhywiol | 92 |

## Rhagair y Gweinidog

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn drosedd ofnadwy. Mae'n cael effaith ddifrifol ar ddioddefwyr-oroeswyr, gan effeithio ar eu hiechyd, eu perthnasoedd, eu haddysg, eu cyflogaeth a'u llesiant cyffredinol. Mae effeithiau cam-drin plant yn rhywiol yn atseinio drwy deuluoedd, cymunedau a chymdeithas.

Mae lleisiau pobl y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt yn ganolog i'r strategaeth hon, ac i'r broses o'i rhoi ar waith. Clywodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol gan dros 6,000 o unigolion a oedd yn ddigon dewr i rannu eu straeon. Rwy'n gwybod y bydd llawer mwy o blant ac oedolion wedi rhannu eu profiadau, ac fe hoffwn i ddiolch iddyn nhw i gyd am wneud hynny. Byddwn yn anrhydeddu'r dewrder hwn drwy barhau i wrando a dysgu a thrwy ddefnyddio'r dysgu hwn i lywio polisi ac ymarfer sy'n adlewyrchu profiadau bywyd pobl.

Mae ymchwil yn dangos bod 25,000 o blant yng Nghymru yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol bob blwyddyn, ond dim ond cyfran fach o'r plant hyn sy'n dod i sylw gwasanaethau fel yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae graddfa a natur y cam-drin plant yn rhywiol rydym yn ei weld wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar-lein. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fath cymhleth o gam-drin a all gael ei gyflawni gan unigolion neu grwpiau, plant ac oedolion.

Er mwyn atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn effeithiol a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt, rhaid inni 'ddychmygu'r annychmygadwy'. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd, ac mae'n digwydd o fewn teuluoedd, grwpiau, cymunedau, ar-lein ac mewn sefydliadau. Mae cam-drin yn ffynnu mewn cyfrinachedd: felly, rhaid inni chwalu tabŵs, mythau a rhwystrau sy'n ymwneud â'r pwnc hwn; gan daflu goleuni arno fel y gallwn ni amddiffyn plant a phobl ifanc yn fwy effeithiol.

Oherwydd cymhlethdod y math hwn o gam-drin a'r niwed sylweddol y mae'n ei achosi, mae'n amlwg bod angen dull cynhwysfawr, trawslywodraethol, system gyfan i fynd i'r afael â cham-drin rhywiol. Mae'r strategaeth hon yn egluro sut y byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt, i atal cam-drin rhywiol; ymateb yn effeithiol i blant pan fo pryderon; a chefnogi pawb yr effeithir arnynt yng Nghymru.

Hoffwn i ddiolch i bawb a gyfrannodd at ddatblygu'r strategaeth ddrafft hon, yn enwedig oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. Byddwn yn darparu strategaeth a fydd yn sicrhau y bydd pobl yng Nghymru y mae cam-drin rhywiol ar blant yn effeithio arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi'n effeithiol, nawr ac yn y dyfodol.



## Diffiniadau

Rydym yn defnyddio'r term 'cam-drin plant yn rhywiol' i gyfeirio at bob math o gamdriniaeth, fel y nodir yn niffiniad Llywodraeth Cymru o gam-drin plant yn rhywiol:

"…gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddgar neu weithrediadau nad ydynt yn dreiddgar; gweithgareddau heb gyswllt, fel ymhél plant i edrych ar, neu gymryd rhan mewn, cynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbyniol." (Llywodraeth Cymru, 2019:4)

Mae 'camfanteisio'n rhywiol ar blant' wedi'i ddiffinio fel math o gam-drin plant yn rhywiol sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn; creu delweddau anweddus, a/neu unrhyw ddeunyddiau anweddus eraill sy'n ymwneud â phlant. Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed. Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid: gall y cyfnewid gynnwys rhoi rhywbeth neu dynnu rhywbeth yn ôl, er enghraifft atal trais, neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Mae'n bosibl y bydd hwylusydd hefyd a fydd yn derbyn rhywbeth, yn ogystal â neu yn lle'r plentyn y camfanteisir arno. Efallai na fydd plant yn adnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfathrebu ac efallai y byddant yn teimlo eu bod wedi rhoi eu caniatâd. (Llywodraeth Cymru, 2019:4, Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol | LLYW.CYMRU

Rydym yn defnyddio'r term 'ymddygiad rhywiol niweidiol' hefyd, fel y'i disgrifir yn niffiniad Llywodraeth Cymru: "… ymddygiadau rhywiol sy'n cael eu harddangos gan blant o dan 18 mlwydd oed sy'n anaddas yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol iddyn nhw neu bobl eraill, neu sy'n gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall. Mae'r diffiniad hwn o ymddygiadau rhywiol niweidiol yn cynnwys ymddygiadau â chyswllt â'r rheini heb gyswllt (magu perthynas amhriodol, arddangosiaeth, llygadu a secstio, neu gadw delweddau o weithrediadau rhywiol ar ffonau clyfar neu gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol." (Llywodraeth Cymru, 2019:4) Er mwyn cadw pethau'n syml, ac yn unol â'r diffiniad uchod, rydym yn defnyddio'r term 'plentyn' i gyfeirio at unrhyw un o dan 18 oed; fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y gall pobl ifanc, yn ogystal â phlant ifanc, gael eu cam-drin yn rhywiol. Daw eithriad lle rydym yn trafod cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, lle rydym yn cyfeirio at 'bobl ifanc'.

Wrth gyfeirio at bobl a gafodd eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant, rydym yn defnyddio'r term 'dioddefwyr-oroeswyr' i gydnabod y gall pob unigolyn ystyried ei hun yn ddioddefwr, yn oroeswr neu gyfuniad o'r ddau.

Rydym yn defnyddio'r term 'rhiant/gofalwr' i gwmpasu unrhyw riant neu ofalwr sydd â rôl rhiant neu brif ofalwr i blentyn; gall hyn fod, er enghraifft, yn rhiant biolegol, llys-riant, rhiant mabwysiadol, rhiant maeth y plentyn neu berthynas arall yn y rôl honno.

Diffiniodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) rwydweithiau cyfundrefnol o droseddu rhywiol fel a ganlyn:

"An organised network is characterised by two or more individuals (whether identified or not) who are known to (or associated with) one another and are known to be involved in or to facilitate the sexual exploitation of children. Being involved in the sexual exploitation of children includes introducing them to other individuals for the purpose of exploitation, trafficking a child for the purpose of sexual exploitation, taking payment for sexual activities with a child or allowing their property to be used for sexual activities with a child."

# Adran 1: Cyflwyniad a chyd-destun

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn torri hawliau plentyn yn ddifrifol, ac mae'r canlyniadau hirdymor i ddioddefwyr-oroeswyr, i'w teuluoedd ac i gymdeithas yn rhai hirdymor. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn gofyn am ddull cynhwysfawr a chydgysylltiedig sy'n cwmpasu atal, adnabod, ymateb a chymorth.

Mae Gweledigaeth Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw eu bywydau'n rhydd rhag cam-drin rhywiol ac mae pawb y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes.

Mae diogelu plant a phobl ifanc yn gyfrifoldeb i bawb. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu dull system gyfan sydd â'r nod o atal cam-drin plant yn rhywiol, i sicrhau ymatebion amserol ac effeithiol pan fydd pryderon am gam-drin plant yn rhywiol, ac i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddioddefwyr a'u teuluoedd er mwyn iddynt wella'n dda pan fyddant wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol.

Mae dull system gyfan yn cynnwys cydlynu ymdrechion ar draws gwahanol sectorau a gwasanaethau ac mae'n cynnwys:

1. Atal: Addysgu cymunedau a gweithredu polisïau i leihau'r risg o gam-drin.
2. Adnabod: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion o gam-drin a'i riportio.
3. Ymateb: Darparu cymorth a thriniaeth i ddioddefwyr/goroeswyr a sicrhau camau cyfreithiol yn erbyn cyflawnwyr.
4. Cydweithredu: Sicrhau bod asiantaethau fel ysgolion, iechyd, yr heddlu, llysoedd, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.
5. Monitro a gwerthuso: Asesu effeithiolrwydd ymyriadau yn barhaus a gwneud addasiadau angenrheidiol.

Mae gweddill yr adran hon o'r strategaeth yn esbonio'r canlynol:

- Cwmpas y strategaeth
- Sbardunau allweddol
- Gwerthoedd allweddol sy'n sail i'r strategaeth
- Sut y datblygwyd y strategaeth
- Camau blaenoriaeth rydym wedi'u nodi ar gyfer tair blynedd gyntaf y strategaeth.

Yn **Adran 2** o'r strategaeth hon, rydym wedi esbonio'r hyn rydym yn ei wybod am raddfa a chyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol ac wedi nodi negeseuon allweddol o ymchwil ac ymarfer a lywiodd ddatblygiad y strategaeth ddrafft hon.

Yn **Adran 3**, rydym yn nodi'r amcanion strategol sydd wedi'u cyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr a'r camau blaenoriaeth y credwn sydd angen inni eu cymryd o dan bob un o'r amcanion.

Yr amcanion strategol yw:

1. Atal cam-drin plant yn rhywiol
2. Diogelu plant sydd wedi dioddef cam-drin plant yn rhywiol
3. Cefnogi plant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol
4. Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol

Mae **Adran 4** y strategaeth hon yn esbonio'r polisïau, strategaethau, cynlluniau a rhaglenni sy'n gorgyffwrdd o fewn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a fydd yn cyfrannu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at gyflawni ein gweledigaeth. Mae adran 4 yn nodi'r strwythur a'r trefniadau llywodraethiant rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith hefyd i'n cynorthwyo i gyflawni'r strategaeth hon.

## 1.1 Cwmpas y strategaeth hon

Mae'r strategaeth hon yn cwmpasu cam-drin rhywiol gydol oes a'i nod yw mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, ym mhob lleoliad y gall ddigwydd, gan gynnwys cam-drin rhywiol ar-lein ac all-lein, cam-drin sy'n digwydd o fewn sefydliadau, grwpiau, teuluoedd, grwpiau cymdeithasol a chymunedau ac a yw'r cam-drin yn cael ei gyflawni gan unigolion neu grwpiau o unigolion, oedolion neu blant eraill.

Mae'r strategaeth yn cwmpasu pob math o gam-drin rhywiol. Dangosir teipoleg cam-drin rhywiol orau yn 'A new typology of child sexual abuse offending published by the Centre of Expertise on child sexual abuse in collaboration with the Centre for Abuse and Trauma Studies, Middlesex University in 2020'[1].

**Cam-drin plant yn rhywiol o fewn yr amgylchedd teuluol** – yn canolbwyntio ar gam-drin plentyn neu berson ifanc yn rhywiol gan oedolyn yn y teulu, neu gan oedolyn sy'n gysylltiedig â'r teulu neu ag un o aelodau'r teulu.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy berthnasoedd yr ymddiriedir ynddynt y tu allan i'r amgylchedd teuluol –** yn canolbwyntio ar gam-drin plentyn neu berson ifanc yn rhywiol gan rywun sydd ag awdurdod drostynt oherwydd rôl broffesiynol neu

[1] A new typology of child sexual abuse offending, y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn cydweithrediad â'r Centre for Abuse and Trauma Studies, Prifysgol Middlesex yn 2020

alwedigaethol. Mae'n cynnwys cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau ond hefyd yn y gymuned, yn y DU a thramor, lle gall y cyflawnwr sefydlu sefyllfa o rym (mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc, ei deulu a/neu'r gymuned leol) drwy'r ymddiriedaeth a awgrymir gan ei rôl.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy gyfryngwr** – yn canolbwyntio ar gam-drin plentyn neu berson ifanc yn rhywiol gan fwy nag un cyflawnwr; mae'r cyflawnwr sy'n cychwyn y cam-drin (y cyflawnwr cychwynnol) yn ceisio cael mynediad at y plentyn, neu at ddelweddau o'r plentyn, drwy gyflawnwr arall (y cyflawnwr cyfryngol). Mae'n bosibl y bydd y cyflawnwr cyfryngol yn credu ei fod mewn perthynas agos â'r cyflawnwr cychwynnol, neu mae'n bosibl y bydd yn cael ei orfodi i hwyluso a/neu gyflawni'r cam-drin.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy ryngweithio ar-lein** – yn canolbwyntio'n benodol ar sefyllfaoedd lle mae cyflawnwr, sy'n gweithredu ar-lein, yn annog/twyllo/gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn sgyrsiau rhywiol neu weithredoedd rhywiol ar-lein, a/neu gynhyrchu delweddau (lluniau neu fideos) ohonyn nhw'u hunain y maent yn eu rhannu gyda'r cyflawnwr ar-lein.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy wylio, rhannu neu feddu ar ddelweddau –** gwylio delweddau o gam-drin plant yn rhywiol sydd eisoes wedi'u creu. Gall hyn gynnwys gwylio, meddu ar a rhannu delweddau (lluniau neu fideos) gydag eraill, ar-lein fel arfer (ond nid bob amser). Cam-drin plant yn rhywiol drwy grwpiau a rhwydweithiau. Mae'r math hwn yn canolbwyntio ar gam-drin rhywiol a gyflawnir gan gyflawnwyr sy'n rhan o grŵp neu rwydwaith. Gall hwn fod yn grŵp cymdeithasol, gang neu rwydwaith sy'n cyfarfod yn y cnawd, neu grŵp neu rwydwaith lle mae aelodau'n rhyngweithio ar-lein ac yn aros yn ddienw. Gall y cam-drin gynnwys cam-drin cyswllt a/neu greu/rhannu delweddau o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n cael ei hwyluso a'i annog drwy aelodaeth y cyflawnwyr o'r grŵp/rhwydwaith h.y. gall yr aelodau gynllunio ar y cyd a/neu annog ei gilydd i gyflawni camdriniaeth neu gynyddu'r gamdriniaeth.

**Cam-drin plant yn rhywiol a drefnir ac a gyflawnir am daliad –** yn golygu cam-drin plentyn neu berson ifanc yn rhywiol gan un neu fwy o gyflawnwyr lle, yn gyfnewid am daliad (naill ai taliad ariannol neu fath arall o daliad), mae cyflawnwr ('y gwerthwr') yn cynnig mynediad i gyflawnwyr eraill ('prynwyr') at y plentyn neu'r person ifanc ar gyfer cam-drin cyswllt a/neu'n creu a gwerthu delweddau (lluniau neu fideos) o gamdriniaeth e.e. drwy ffrydio byw.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy gysylltiad personol** – cam-drin a gyflawnir gan gyflawnwr sy'n sefydlu cysylltiad personol â phlentyn neu berson ifanc ac yn meithrin perthynas amhriodol â nhw neu'n eu gorfodi i ddioddef cam-drin rhywiol. Cam-drin plant yn rhywiol drwy ymosodiad gan berson anhysbys. Mae'r math hwn o gam-drin

yn disgrifio sefyllfaoedd lle mae cyflawnwr, sy’n anhysbys i’r plentyn neu’r person ifanc, yn ymosod yn rhywiol arno.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy ymosodiad gan berson anhysbys –** yn disgrifio sefyllfaoedd lle mae cyflawnwr, sy’n anhysbys i’r plentyn neu’r person ifanc, yn ymosod yn rhywiol arno.

**Gall camfanteisio’n rhywiol ar sail grŵp ddigwydd ar-lein ac all-lein.** Mae cam-drin rhywiol ar sail grŵp yn cael ei ddiffinio gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol fel a ganlyn:

“An organised network is characterised by two or more individuals (whether identified or not) who are known to (or associated with) one another and are known to be involved in or to facilitate the sexual exploitation of children. Being involved in the sexual exploitation of children includes introducing them to other individuals for the purpose of exploitation, trafficking a child for the purpose of sexual exploitation, taking payment for sexual activities with a child or allowing their property to be used for sexual activities with a child.”

Fe wnaeth Archwiliad y Farwnes Casey o gamfanteisio'n rhywiol ar sail grŵp (cyhoeddwyd 16 Mehefin 2025) nodi bod gan grwpiau sy'n camfanteisio'n rhywiol y nodweddion canlynol:

- Yn aml mae rhyng-gysylltiad llac rhwng rhwydweithiau troseddwyr ac maent wedi'u seilio ar gysylltiadau cymdeithasol sy'n bodoli'n barod. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml yn eithaf homogenaidd o ran oedran, cefndir ethnig a statws economaidd-gymdeithasol. Effaith gweithredu o fewn grŵp yw bod y cyflawnwyr yn debygol o fod yn fwy diymatal.
- Mewn papur gan y Swyddfa Gartref yn 2020, nodwyd bod sawl achos a archwiliwyd ganddynt yn dangos bod y troseddwyr a'r dioddefwyr yn dod o gymunedau gwahanol, ac awgrymodd swyddogion y gallai diystyrwch o ddioddefwyr o'r tu allan i gymuned y cyflawnwyr eu hunain fod yn ffactor galluogi iddynt.
- Nododd yr adroddiad hefyd fod empathi â dioddefwyr yn debygol o rwystro ymddygiad troseddol, ac felly bod agwedd ddiystyriol at ddioddefwyr – boed hynny drwy fisogynedd neu drwy 'aralledd' fel y'i gelwir – yn galluogi troseddwyr i oresgyn y rhwystr hwn. Mae Operation Stovewood o'r farn fod hyn wedi bod yn ffactor yn Rotherham, lle'r oedd bron i ddwy ran o dair o'r troseddwyr o gefndir ethnig Pacistanaidd a'r mwyafrif o'r merched yn Wyn.
- Ceir enghreifftiau hefyd o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan grwpiau mewn cymunedau.
- Mae ymchwiliadau wedi datgelu achosion lle mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gysylltiedig â gweithgareddau rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol ac yn gorgyffwrdd â nhw.

- Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw rhwydweithiau yn cael eu hystyried yn rhai cyfundrefnol, er enghraifft o ran bod ag arweinydd neu hierarchaeth, ac eithrio mewn perthynas â gweithgareddau eraill y gallai troseddwyr fod ynghlwm wrthynt megis y drosedd ddifrifol a chyfundrefnol o gyflenwi cyffuriau.

## 1.2 Sbardunau allweddol

Mae'r sbardunau allweddol ar gyfer y strategaeth hon yn cynnwys:

- Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol 2019-2022
- Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)
- Yr Archwiliad Cenedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar sail Grŵp, y Farwnes Casey o Blackstock DBE CB, Mehefin 2025

Yr Amcanion Llesiant canlynol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026:

  - Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
  - Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
  - Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.

- Cymru Iachach: Cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

- Mae'r strategaeth yn cefnogi'n uniongyrchol y saith nod llesiant cysylltiedig yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys Cymru gydnerth; Cymru iachach; a Chymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r strategaeth wedi'i datblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, sy'n dweud bod rhaid i ni:

  - Ystyried y tymor hir.
  - Helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
  - Defnyddio dull gweithredu integredig.
  - Defnyddio dull gweithredu cydweithredol.
  - Ystyried a chynnwys pobl o bob oed a phobl â nodweddion ac anghenion amrywiol.

**Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol**

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: cynllun gweithredu cenedlaethol | LLYW.CYMRU ym mis Gorffennaf 2019 a daeth i ben ar 30 Mehefin 2022. Cyhoeddwyd adroddiad sy'n adolygu cynnydd o dan y Cynllun, gan gynnwys Adroddiad Cyflawni, ym mis Tachwedd 2022.

Cyflawnodd y cynllun cyntaf lawer o nodau:

- Sefydlu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) o dan y Cwricwlwm newydd fel arlwy addysg orfodol.
- Codi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o gam-drin plant yn rhywiol.
- Datblygwyd amrywiaeth o adnoddau gan Barnardos, y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Sefydliad Lucy Faithfull Cymru a'r adran Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) yn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac eraill. Mae'r adnoddau hyn ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ac maent yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol. Er enghraifft, comisiynwyd Sefydliad Lucy Faithfull i ddarparu hyfforddiant i rieni a gofalwyr ynghylch atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Bydd y gwaith hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau tan fis Mawrth 2026.
- Cafodd y gwaith o gyflwyno hyfforddiant amlasiantaethol ar gam-drin plant yn rhywiol ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn 2023.
- Cyhoeddwyd y Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, Diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant, Diogelu plant rhag ymddygiad rhywiol niweidiol a Diogelu plant rhag niwed ar-lein, yn 2021.
- Comisiynwyd Prifysgol Caerdydd i ddatblygu adnoddau a sesiynau dysgu ar-lein i weithwyr proffesiynol, yn ymwneud â diogelu pobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol a materion diogelu cysylltiedig, megis camfanteisio'n droseddol ar blant, masnachu plant, a phlant yn mynd ar goll.
- Cyhoeddwyd Canllawiau Arfer Da Corfforaethol ar Ddiogelu yn 2022.

Roedd yr Adroddiad Cyflawni yn cydnabod y ffaith bod cyd-destun cam-drin plant yn rhywiol yn newid drwy'r amser; wyneb yn wyneb, cam-drin ar-lein a'r angen inni adolygu ac addasu ein hymateb ar y cyd yn barhaus i ateb yr heriau hyn.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r meysydd lle'r oedd angen gwneud gwaith pellach y tu hwnt i oes y cynllun cyntaf. Roedd hyn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth a newid agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol.
- Datblygu llwybrau o ymatebion cymesur i blant sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol.
- Cefnogi dulliau diogelu cyson ledled Cymru.

- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn mannau hygyrch, gan gynnwys ar-lein.
- Darparu dysgu parhaus i'r gweithlu amlasiantaethol.
- Monitro effaith offer ymarfer ar adnabod a deall cam-drin plant yn rhywiol.
- Mapio gwasanaethau therapiwtig ledled Cymru.
- Hyrwyddo gwybodaeth i oedolion sy'n oroeswyr a phlant sy'n agosáu at 18 oed.
- Datblygu dulliau casglu data cyson a chywir ar gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r meysydd ar gyfer gwaith pellach wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon a'u hymestyn i gynnwys cymorth i oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.

Ers i'r cynllun cyntaf ddod i ben ym mis Tachwedd 2022, mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol (y corff sydd â'r rôl arweiniol o ran diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn eu rhanbarthau) wedi parhau i weithio ar flaenoriaethau'r cynllun hwnnw. Mae'r blaenoriaethau'n parhau i gael eu hadlewyrchu yn y nodau strategol a nodwyd gan y broses theori newid a fabwysiadwyd i lywio datblygiad y strategaeth hon.

**Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)**

Sefydlwyd yr Ymchwiliad yn 2015 yn dilyn galwadau gan y cyhoedd am ymchwiliad cenedlaethol i ymateb i'r datgeliadau parhaus am bobl proffil uchel yn cam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig o Operation Yewtree, yr ymchwiliadau i Jimmy Saville.

Rhwng 2015 a 2022, cynhaliodd yr Ymchwiliad 15 ymchwiliad, 4,205 o sesiynau Gwirionedd a chyhoeddodd 19 adroddiad. Roedd yr adroddiadau'n cynnwys:

- The Internet Investigation Report a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020
- The Anglican Church Investigation Report a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020
- The Roman Catholic Church Investigation Report a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020
- Child protection in religious organisations and settings investigation report a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021
- Child sexual exploitation by organised networks investigation report a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022
- The residential schools investigation report a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022

Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022. Gwnaeth yr adroddiad terfynol argymhellion i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru[2].

[2] Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol | Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)

Cafodd yr holl argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor. Cyhoeddwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 20 Ebrill 2023[3].

Gellir crynhoi'r argymhellion fel a ganlyn:

- Argymhelliad 1: Datblygu set ddata graidd unigol (derbyn).
- Argymhelliad 2: Sefydlu awdurdodau amddiffyn plant yng Nghymru a Lloegr (derbyn mewn egwyddor).
- Argymhelliad 3. Sefydlu Gweinidog Cabinet dros Blant (derbyn).
- Argymhelliad 4. Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd (derbyn).
- Argymhelliad 13: Cyflwyno adrodd gorfodol (derbyn mewn egwyddor).
- Argymhelliad 16: Darparu cymorth therapiwtig arbenigol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (derbyn mewn egwyddor).

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i:

a) Gryfhau a gwella cydymffurfiaeth â'n fframweithiau rheoleiddio ar draws meysydd gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.
b) Adeiladu ar gyhoeddi ein Cod Ymarfer Diogelu, i ymgysylltu'n eang ac archwilio safbwyntiau ar sicrhau bod gan eraill sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg, drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith.
c) Ceisio safbwyntiau pellach ac archwilio goblygiadau gosod dyletswyddau ar unigolion i adrodd am blant ac oedolion sy'n wynebu risg, fel rhan o'r drafodaeth ynglŷn â'r camau nesaf.
d) Cyfuno hyn â mesurau pellach i hyrwyddo mynediad at hyfforddiant ac adnoddau effeithiol ar gyfer ymarferwyr; ac er mwyn codi a chynnal ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â cham-drin, esgeulustod a niwed, a'r camau hanfodol y dylid eu cymryd pan fo hynny'n digwydd neu pan amheuir ei fod yn digwydd.
e) Cael ei llywio gan well dealltwriaeth o'r pethau sy'n atal pobl rhag crybwyll ac adrodd am bryderon, a cheisio grymuso unigolion gyda'r hyder i geisio'r cymorth angenrheidiol neu eu helpu i wybod sut gallant ymateb i eraill, er mwyn helpu i leihau'r peryglon a sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael cymorth.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion IICSA wedi'i ategu gan y credoau canlynol:

[3] Datganiad Ysgrifenedig: Yr wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad terfynol IICSA (20 Ebrill 2023) | LLYW.CYMRU

- Cynnal ac ymestyn y dull sefydliadol yn y lle cyntaf, gydag ystyriaeth barhaus i greu dyletswyddau gorfodol unigol i riportio.
- Cynnal ein dull pobl: plant *ac* oedolion sy'n wynebu risg.
- Gan gynnwys pob math o gamdriniaeth, esgeulustod ac, yn achos plant, niwed.
- Dewis sancsiynau heblaw rhai troseddol (e.e. proffesiynol, disgyblu).

**Datblygu set ddata graidd**

Mae Fframwaith Perfformiad a Gwella Llywodraeth Cymru yn cynnwys set fanwl o ddangosyddion ar ddiogelu plant, gan gynnwys manylion am nifer y plant sy'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, eu hoedran a'u categorïau cam-drin, a yw camfanteisio ar blant yn honedig neu'n hysbys, nifer y cyfarfodydd ac ymholiadau, a chanlyniadau'r cyfarfodydd hynny. Mae'r data'n cael ei adolygu a'i fireinio'n barhaus gydag awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd gan asiantaethau eraill ddata diogelu pwysig hefyd.

Byddwn yn sefydlu grŵp rhanddeiliaid amlasiantaethol cenedlaethol fel rhan o'r strategaeth hon a fydd yn canolbwyntio ar ddod â data diogelu amlasiantaethol at ei gilydd i ganoli ac adeiladu ar y gwaith pwysig mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac asiantaethau partner wedi'i wneud hyd yma. Bydd datblygu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol yn flaenoriaeth i'r strategaeth hon. Dylai hyn gynnwys data sy'n dweud mwy wrthym am blant sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol, pobl sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol yn erbyn plant a phobl sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol.

**Sefydlu Awdurdodau Amddiffyn Plant yng Nghymru a Lloegr**

Fel y nodir yn ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru (Ebrill 2023) i argymhellion IICSA, yng Nghymru, mae swyddogaethau cenedlaethol gwella ymarfer ym maes amddiffyn plant a rhoi cyngor a gwneud argymhellion i'r llywodraeth ar bolisi a diwygio yn y materion hyn wedi'u dynodi'n bennaf i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB), o dan adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mewn perthynas â'r swyddogaeth arolygu a gynigir yn yr argymhelliad hwn, mae gan nifer o wahanol gyrff bwerau i arolygu sefydliadau neu leoliadau perthnasol eisoes e.e. Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal plant, gofal cymdeithasol rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; Estyn ar gyfer ysgolion, colegau, addysg uwch ac addysg oedolion; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol a deintyddiaeth breifat; yn ogystal ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac Arolygiaeth Carchardai a Phrawf EF.

### Gweinidog ar gyfer Plant

Ar y pryd, ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn drwy esbonio bod pedwar Gweinidog â chyfrifoldeb dros blant, a bod dau ohonynt yn mynychu'r Cabinet. Y rhain oedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

Yn 2024, daeth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Dawn Bowden AS) yn Weinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ac yn weinidog arweiniol dros ddiogelu. Mae portffolio'r Gweinidog yn cynnwys Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yn awr, yn ogystal â gofal cymdeithasol.

### Ymgyrchoedd Codi Ymwybyddiaeth Cenedlaethol

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023, fe wnaethom lansio'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth 'Making the Call'. Nod yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o'r angen i riportio pryderon ac roedd yn targedu pobl sy'n byw mewn cymunedau a allai fod yn poeni am blentyn; dyma gam cyntaf bodloni gofynion ehangach yr argymhelliad hwn.

Mae'r ymgyrch yn adeiladu ar godi ymwybyddiaeth gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygiad ymgyrch codi ymwybyddiaeth yr NSPCC hefyd, Listen Up, Speak Out, a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg mewn ymateb i Adolygiad Ymarfer Plant drwy ariannu cyfieithu'r holl ddeunyddiau marchnata i'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio ffyrdd y gellid ehangu'r ymgyrch hon yn genedlaethol ac mae'r strategaeth yn cynnwys cam gweithredu ar gyfer cyflwyno ymgyrch sy'n codi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol yn benodol.

### Gorfodi dyletswyddau i adrodd ar unigolion

Yng Nghymru, rydym yn credu'n gryf bod cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu a bod diogelwch a llesiant unigolion yn hollbwysig. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswyddau presennol i roi gwybod am oedolion a phlant sy'n wynebu risg drwy adrannau 128 a 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r rhain yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar 'bartneriaid perthnasol' awdurdodau lleol (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, yr Heddlu,

Gwasanaethau Prawf, Timau Troseddau Ieuenctid) i hysbysu'r awdurdod pan fo ganddynt achos rhesymol dros amau bod oedolyn sy'n wynebu risg neu blentyn yn dioddef neu'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu, yn achos plant, niwed.

Dyletswyddau sefydliadol yw'r rhain, a gefnogir gan ganllawiau statudol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n rhoi cyngor clir ar yr hyn y dylai ymarferwyr a sefydliadau ei wneud pan fyddant yn credu bod person wedi dioddef niwed neu'n debygol o wneud hynny.

Er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol hyn, mae angen i'r 'partneriaid perthnasol' wneud yn siŵr bod polisïau, gweithdrefnau a chymorth corfforaethol priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n arfer swyddogaethau ar eu rhan (h.y. staff, contractwyr, gwirfoddolwyr) yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau ac yn deall y dyletswyddau'n ddigonol ac yn gallu gweithredu'n unol â'r dyletswyddau hynny.

Mae llawer o unigolion sy'n gweithio i bartneriaid perthnasol, megis athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr gofal cymdeithasol, yr heddlu a swyddogion prawf, wedi'u cofrestru gyda chyrff proffesiynol ac yn gorfod cadw at godau ymddygiad. Mae ganddynt rwymedigaethau cytundebol a phroffesiynol i adrodd pryderon, gyda chamau disgyblu yn bosibl.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno'n llwyr â'r egwyddor, lle bu datgelu (gan blentyn neu gyflawnwr); tystio; neu arsylwi ar ymddygiad, neu dystiolaeth arall bod plentyn yn profi neu wynebu risg o brofi cam-drin rhywiol, bod rheidrwydd i hysbysu am y rhain yn ddi-oed.

Mae ein dyletswydd sefydliadol bresennol i hysbysu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn berthnasol i awdurdodau lleol a 'phartneriaid perthnasol' fel yr heddlu ac iechyd.

Ym mis Awst 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol i archwilio safbwyntiau ar orfodi dyletswydd i adrodd ar unigolion; nid oedd consensws cyffredinol. Cafwyd galwadau am archwilio ac ymgynghori pellach i ystyried manylion, ehangder ac effeithiau unrhyw ddyletswyddau newydd. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arolwg a chyfres o ddigwyddiadau bord gron sydd ar y gweill, i lywio unrhyw gamau nesaf.

Y strategaeth hon fydd y cyfrwng y byddwn yn ei ddefnyddio parhau i weithredu'r argymhellion a wnaed gan IICSA.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i adolygu a gwella'r prosesau diogelu presennol yn unol â'n hymrwymiad. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Cryfhau gofynion diogelu ar gyfer Ysgolion Annibynnol drwy Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, a ddaeth i rym ar 14 Chwefror 2024.
- Deddfu i reoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig mewn modd tebyg i gartrefi gofal i blant, drwy Reoliadau a ddaeth i rym yn llawn ar 31 Mawrth 2024.
- Cyhoeddi Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig sy'n cryfhau'r safon o ran diogelu.
- Cyhoeddi fframwaith ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n cynnwys safon ansawdd ar gyfer diogelu babanod a phlant ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.
- Ymgysylltu'n barhaus ag arweinwyr polisi ar gyfer Chwarae a Gofal Plant sy'n adolygu'r Gorchymyn Eithriadau ar hyn o bryd. Y Gorchymyn Eithriadau yw'r meini prawf ar gyfer pennu a yw lleoliadau chwarae a gofal plant yn dod o fewn y fframwaith rheoleiddio ac arolygu.
- Cryfhau elfennau diogelu'r daflen Dewis Gofal Plant ar gyfer rhieni a gofalwyr a ddatblygwyd gan Cwlwm[4]
- Ymgysylltu â chydweithwyr chwaraeon i archwilio camau pellach i gryfhau systemau diogelu presennol mewn chwaraeon.

**Gwasanaethau therapiwtig arbenigol i'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn cael cynnig cymorth therapiwtig arbenigol pan fyddant ei angen. Derbyniwyd yr argymhelliad mewn egwyddor ar y sail bod angen inni ystyried, gyda phartneriaid, yr opsiynau ar gyfer comisiynu a darparu'r cymorth hwn a chymorth arall i blant ac oedolion yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol. Mae partneriaid allweddol yn hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, iechyd, yr heddlu, asiantaethau'r trydydd sector a darparwyr preifat.

Mae gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr preifat a darparwyr trydydd sector yn darparu cymorth i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Oherwydd natur anghyfartal gwasanaethau cymorth, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn 2023 i ddarparu dadansoddiad o'r ddarpariaeth arbenigol ac anarbenigol sydd ar gael ar gyfer plant ac oedolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwnnw wedi'i gwblhau ac mae'n sail i gamau gweithredu pellach a fydd yn cael eu cymryd fel rhan o'r strategaeth hon (mae canfyddiadau ac

[4] Adnoddau | cwlwm

argymhellion yr adroddiad hwn yn Adran 2 o'r ddogfen hon). Mae Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCS) yn cynnal adolygiad o'r cwnsela therapiwtig a ddarperir sy'n cael ei arwain gan Uned Gomisiynu Gydweithredol y GIG. Bydd yr adolygiad yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n amserol ac yn hygyrch. Mae'r gwaith hwn yn rhan o adolygiad ehangach o elfennau iechyd SARCs i gryfhau comisiynu yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol newydd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 yn nodi camau gweithredu yn y dyfodol i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn ystyriol o drawma, yn canolbwyntio ar unigolion ac yn cael eu harwain gan anghenion.

**Gweithredu a monitro argymhellion IICSA**

Ysgwyddodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) y rôl o fonitro gweithrediad argymhellion IICSA yn 2024 gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael adroddiadau diweddaru chwarterol[5].

**Yr Archwiliad Cenedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar sail Grŵp, y Farwnes Casey o Blackstock DBE CB, Mehefin 2025**

Nododd yr archwiliad cenedlaethol:

- Fod bylchau o hyd yn y data ac yn y gwaith i wir ddeall camfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail grŵp, yr hyn sy'n cymell ac yn gyrru troseddwyr, a'r effeithiau ar ddioddefwyr.

- Nad yw gwelliannau wedi cael eu rhoi ar waith mewn modd digon trylwyr na phenderfynol; gadawyd iddynt lithro neu ni weithredwyd arnynt.

Mae'r archwiliad yn gwneud 12 o argymhellion.

Er bod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn ymwneud â'r heddlu neu â materion eraill a gedwir yn ôl, mae'r ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn berthnasol i wasanaethau datganoledig fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

## 1.2 Y Rhaglen Lywodraethu/cysylltiadau â'r strategaeth

Mae'r strategaeth hon yn cysylltu â'r Amcanion Llesiant canlynol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026:

[5] Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Bwrdd Diogelu Cymru

- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.

Cyhoeddwyd 'Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol[6]', yn 2021 ac mae'n gonglfaen i'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cynllun yn egluro gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch.

Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddwn yn datblygu a chyflwyno dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r gwasanaethau yn un elfen yn unig wrth gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Mae'n system 'iachusrwydd' sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael. Bydd y dull system gyfan yn deg. Bydd gwasanaethau a chymorth yn darparu'r un gofal o ansawdd uchel, ac yn cyflawni canlyniadau iechyd mwy cyfartal, i bawb yng Nghymru.

Mae'r gwerthoedd canlynol a rennir yn sail i'r cynllun:

- Cydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor o amgylch anghenion a dewisiadau'r unigolyn, fel nad oes gwahaniaeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau unigol.
- Mesur y canlyniadau iechyd a llesiant sy'n bwysig i bobl a defnyddio'r wybodaeth honno i geisio gwella a gwneud gwell penderfyniadau ar y cyd.
- Helpu pobl yn rhagweithiol drwy gydol eu bywydau, ledled Cymru gyfan, gan wneud ymdrech arbennig i gyrraedd y rhai mwyaf anghenus er mwyn helpu i leihau'r anghydraddoldebau iechyd a llesiant sy'n bodoli.
- Ysgogi trawsnewid drwy arweinyddiaeth gadarn a phenderfyniadau clir, mabwysiadu arfer da a modelau newydd yn genedlaethol, cysylltiad mwy agored a hyderus â phartneriaid allanol.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant neilltuol dull system gyfan Cymru gyda balchder, gan ddangos sut mae gwahanol ddewisiadau yn arwain at ganlyniadau teg ac yn gwneud Cymru'n well lle i fyw a gweithio.

## 1.3 Gwerthoedd allweddol sy'n sail i'r strategaeth

Mae dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cynnwys rhoi'r plentyn yng nghanol popeth a wnawn. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu ei anghenion, ei safbwyntiau a'i lesiant ym mhob penderfyniad a cham gweithredu. Mae sicrhau bod plant yn teimlo

[6] Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn gwbl allweddol i'r dull hwn.

Rydym yn esbonio yn ddiweddarach yn y strategaeth hon ein bod wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth i sefydlu beth all ymchwil ei ddweud wrthym am yr hyn mae plant a phobl ifanc yn meddwl sy'n gweithio'n dda i'w diogelu rhag cam-drin plant yn rhywiol, neu i'w helpu i ymateb iddo. Rydym wedi cynnal yr adolygiad llenyddiaeth i'n cynorthwyo i deilwra ymgynghoriad pellach â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol o ystyried sensitifrwydd y pwnc a'r risg o achosi rhagor o drawma i'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan.

Rydym yn bwriadu sefydlu grŵp cynghori plant a phobl ifanc i'n cynorthwyo i gyflwyno'r strategaeth. Bydd y grŵp yn ein cynorthwyo i nodi adnoddau sy'n gweithio'n dda i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, nodi bylchau yn yr wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw a'u teuluoedd a datblygu adnoddau newydd i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Bydd y grŵp yn darparu man cyswllt/gwiriad synnwyr parhaus hefyd ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud o dan y strategaeth.

Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a chynnal hawliau pobl drwy eu haddysgu am eu hawliau, eirioli dros eu hawliau a sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu egwyddorion hawliau dynol.

Mae gwaith y strategaeth hon yn cael ei ategu gan ddull hawliau plant fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[7]. Mae'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon yn ymwneud â'r canlynol:

- Gwreiddio camau gweithredu cydweithredol i atal cam-drin rhywiol a diogelu plant a phobl ifanc pan fydd cam-drin rhywiol wedi digwydd
- Grymuso plant a phobl ifanc i wybod am eu hawliau i fod yn ddiogel rhag niwed, a theimlo eu bod yn gallu hawlio'r hawliau hynny
- Gwrando ar anghenion plant a phobl ifanc er mwyn llywio a hysbysu'r gwasanaethau a'r gofal y maent yn eu derbyn
- Rhoi systemau ar waith sy'n galluogi mynediad, profiad a chanlyniadau teg i bawb, yn ddieithriad
- Cynyddu gallu ac atebolrwydd unigolion a sefydliadau sy'n gyfrifol am barchu, diogelu a chyflawni hawliau pobl.

Bydd y strategaeth yn cefnogi hawliau dynol a hawliau plant, gan alinio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a CCUHP. Bydd hyn yn cynnwys cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion perthnasol o adroddiad Arsylwadau Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig 2023. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA), a fydd yn cael eu cyhoeddi law yn llaw â fersiwn derfynol y strategaeth, yn esbonio'r Erthyglau perthnasol yn fanylach.

---

[7] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - UNICEF UK

Mae mynediad, profiad a chanlyniadau teg yn golygu sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, cefndir neu nodweddion gwarchodedig eraill, yn gallu cael mynediad at wasanaethau, cael y profiad gorau o'r gwasanaethau hynny a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae'r dull hwn yn ceisio dileu rhwystrau a gwahaniaethau, gan hyrwyddo tegwch a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau a chymorth.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Dros y degawd nesaf, bydd ein strategaeth yn sicrhau bod problemau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried yn llawn ym mhob ffrwd waith ac fel rhan o ddull cynhwysfawr o ymdrin â newid.

Mae adran 4 y strategaeth hon yn esbonio'r berthynas rhwng y strategaeth hon a'r canlynol:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Y Cynllun Gweithredu LHDTC
- Y Cynllun Hawliau Pobl Anabl
- Y Model Cymdeithasol o Anabledd
- Y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol

Dros gyfnod deng mlynedd y strategaeth hon, byddwn yn cydweithio o fewn Llywodraeth Cymru, gyda Llywodraeth y DU, a phartneriaid allweddol eraill i wella dulliau casglu data sy'n ein galluogi i nodi nodweddion gwarchodedig, gan ein cefnogi i dargedu ein hadnoddau yn fwyaf effeithiol.

Roedd **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau hiliol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn sy'n wynebu pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar realiti hiliaeth sefydliadol a strwythurol, gan bwysleisio bod pobl o leiafrifoedd ethnig dan anfantais anghymesur ar bron pob lefel o bob system. Drwy gydnabod y gwirionedd anghyfforddus hwn, mae'r Cynllun yn annog Sector Cyhoeddus, Sector Preifat a Thrydydd Sector Cymru i wynebu natur helaeth anghydraddoldebau hiliol a chydnabod y manteision anfwriadol yn aml sy'n cael eu profi gan rai grwpiau. Mae'n galw am y dewrder, fel cenedl, i wynebu anghyfiawnderau systemig a gweithio ar y cyd tuag at newid ystyrlon.

Yng Nghymru, mae nifer y plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n derbyn gofal wedi bod yn cynyddu ers 2017. Mae'r nifer bron wedi dyblu o 455 i 830. Erbyn hyn, plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yw 11.6% o'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, cynnydd o 3.3 pwynt canran o gymharu â'r data a adroddwyd yn iteriad cychwynnol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) (**Stats Cymru, 2023**). Mewn cymhariaeth, ar gyfer y boblogaeth ehangach, mae tua 9.5% o blant 0-15 oed

yn dweud eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol (**Arolwg Poblogaeth Blynyddol**). Mae 7.1% o'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant a 2.4% o oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, mae bylchau sylweddol mewn data o hyd, gyda gwybodaeth am ethnigrwydd ar goll ar gyfer 25.9% o'r oedolion sy'n wynebu risg ac 18.4% o'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma bod nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal yn cynyddu, bod data anghyflawn ynghylch ethnigrwydd ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a bod pobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol yn dal i brofi hiliaeth. Er bod dealltwriaeth ddyfnach o'r problemau yn hanfodol er mwyn cymryd camau priodol, mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd ar frys. Mae'r **Swyddfa Genedlaethol newydd ar gyfer Gofal a Chymorth (Swyddfa Genedlaethol)** yn darparu'r modd y gellir cydlynu ymateb ar y cyd ar draws y sector.

Sefydlwyd Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru i helpu i gydlynu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth gyffredinol i wella bywydau a chanlyniadau i bobl LHDTC+. Mae'n cynnwys ystod eang o gamau gweithredu penodol i bolisi sy'n ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i amddiffyn a hyrwyddo hawliau ac urddas pobl draws ac anneuaidd, ac i wneud i'r cymunedau hynny deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys yng nghymdeithas Cymru.

Ar gyfer pob person LHDTC+, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol (**Llywodraeth Cymru 2022a**)
- gwneud Cymru'n lle mwy diogel
- gwneud Cymru'n Genedl Noddfa i ymfudwyr LHDTC+
- gwella canlyniadau gofal iechyd
- sicrhau bod addysg yng Nghymru yn gynhwysol
- gwella cynhwysiant a chyfranogiad ym mhob rhan o fywyd
- gwrando ar ein cymunedau LHDTC+ a gweithio gyda nhw
- amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl draws ac anneuaidd

Mae'r Cynllun yn gosod meincnod ar gyfer sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflawni'r nodau heriol ac uchelgeisiol hyn ac yn adeiladu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn cael eu cynnwys a'u dathlu.

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng '*amhariad*' ac '*anabledd'*. Mae'n cydnabod bod pobl ag amhariadau[8] yn cael eu

[8] Mae amhariadau yn nodweddion person. Efallai y byddant neu na fyddant yn nodweddion gydol oes, ac efallai y byddant neu na fyddant yn deillio o salwch neu anaf. Gallant effeithio ar ymddangosiad person

hanablu gan rwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.

Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, **amhariad** yw'r hyn y cyfeiriwyd ato'n hanesyddol fel "anabledd" neu gyflwr iechyd. I lawer o bobl anabl (ond nid pob un), mae eu hamhariad yn rhan arwyddocaol o'u bywyd a gall fod yn rhan o'u hunaniaeth bersonol. I rai pobl, efallai y bydd eu hamhariad yn gofyn am reolaeth sylweddol ac efallai y bydd angen cymorth meddygol parhaus arnynt. Mae profiad o amhariad yn bersonol. Mae profiad pawb yn wahanol. Mae'r profiad hwnnw'n ddilys bob amser ac yn bwysig bob amser.

**Anabledd** ar y llaw arall yw'r anghydraddoldeb, yr anfantais, y dirymuso neu'r gwahaniaethu sy'n gallu effeithio ar bobl ag amhariadau oherwydd rhwystrau i fynediad a chynhwysiant. Er enghraifft, mae grisiau'n rhwystr i ddefnyddiwr cadair olwyn; byddai darparu lifft yn dileu'r rhwystr hwnnw. Ambell i enghraifft arall o rwystrau yw diffyg Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu system dolen sain, dim gwybodaeth mewn braille, print bras neu ar ffurf sain, diffyg cyfleoedd gweithio hyblyg a rhan-amser, diffyg gofal cymdeithasol priodol neu ddiffyg dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Felly, mae anabledd yn rhywbeth sy'n effeithio ar bobl ag amhariad ond mae'n wahanol i amhariad. Mae anabledd yn rhywbeth sy'n anablu rhywun sydd â nam. Gellir dileu rhwystrau. Os byddwch yn cael gwared ar y rhwystr yna byddwch yn cael gwared ar yr anabledd.

Datblygwyd yr ymagwedd hon at anabledd gan bobl anabl ac fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Mae'r dull hwn wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, y mae'r DU yn llofnodwr iddo. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn nodi'r canlynol: "disability results from the interaction between persons with impairments and attitudinal and environmental barriers that hinders their full and effective participation in society on an equal basis with others". O'i wireddu'n llawn, byddai'r Model Cymdeithasol yn trawsnewid cymdeithas, gan ddileu rhwystrau sy'n golygu y byddai pobl anabl yn gallu cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Byddwn yn creu deunyddiau ymwybyddiaeth ar gyfer teuluoedd, dioddefwyr-oroeswyr a gweithwyr proffesiynol gan ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol. Bydd mynediad ar-lein ac all-lein yn cael ei sicrhau, a bydd fersiynau Addas i Ieuenctid, Hawdd eu Darllen ac Iaith Arwyddion Prydain yn cael eu creu. Bydd dogfennau'n cael eu cyfieithu i sicrhau cynhwysiant ar draws pob rhan o'n cymunedau.

---

a/neu'r ffordd y mae'n gweithredu neu'n cyfathrebu a/neu gallant achosi amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys poen a blinder.

Mae’r Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd yn diffinio croestoriadedd fel cydnabod y ffordd mae strwythurau pŵer yn seiliedig ar ffactorau megis rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio â’i gilydd i greu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gormes. Mae’n hanfodol deall sut y gall y nodweddion hyn ryngweithio ac arwain at brofiadau unigryw o anfantais mewn sefyllfaoedd penodol.

Mae dull gwirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad oes un math o wahaniaethu yn cael ei ddeall ar wahân i eraill. Rydym yn cydnabod y gall cael mwy nag un nodwedd warchodedig waethygu effaith cam-drin plant yn rhywiol ar blant, teuluoedd ac oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr.

Ym Mlwyddyn un, byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu a fydd yn manylu ar sut rydym yn bwriadu ymgysylltu ag unigolion â nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod eu cyfraniadau’n dylanwadu ac yn llywio polisi ac ymarfer. Yn ogystal, byddwn yn blaenoriaethu gwella ein dulliau ar gyfer casglu data ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a nodweddion gwarchodedig y rhai sy’n cael eu heffeithio. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu gwell dealltwriaeth o raddfa a chyffredinrwydd cam-drin a’r ffordd orau o dargedu adnoddau.

**Y Gymraeg**

Mae cael cymorth yn eu hiaith gyntaf yn hanfodol i oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i’r Gymraeg yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn cael ei thrin yn gyfartal â’r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i Gymru fod yn genedl groesawgar, ddwyieithog, amrywiol a chynhwysol. Nod "Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg" yw cyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg, gan gefnogi "Cynllun Pum Mlynedd Mwy na Geiriau (2022-2027)," sy’n hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Y weledigaeth yw i’r Gymraeg gael ei hintegreiddio’n ddi-dor mewn gwasanaethau, fel bod unigolion yn cael gofal priodol heb fod angen gofyn amdano, gan arwain at ganlyniadau gwell.

Nod y Fframwaith Mwy na Geiriau yw hyrwyddo cynllunio a pholisïau iaith Gymraeg drwy ganolbwyntio ar gasglu data, datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu a rhannu arferion gorau.

Fel rhan o’r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cynnwys cwestiynau penodol ynglŷn â’r Gymraeg. Mae fersiwn Gymraeg o’r strategaeth ddrafft a’r holiadur ymgynghori hefyd ar gael.

## 1.5 Sut y datblygwyd y strategaeth ddrafft

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol rhwng Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024. Defnyddiodd yr hwyluswyr y model theori newid, gan ganolbwyntio ar y canlyniad cyffredinol a ddymunir a gweithio i'r gwrthwyneb i sefydlu sut i gyflawni hyn. Daeth dros 150 o bobl i'r pedwar gweithdy a gynhaliwyd gennym.

Ers i'r gweithdai gael eu cynnal, mae grŵp craidd llai o bobl sy'n gweithredu fel cyfeillion beirniadol wedi gweithio gyda'i gilydd i gyd-gynhyrchu'r strategaeth, gan gynnwys y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Barnardos, yr NSPCC a Sefydliad Lucy Faithfull.

Y partneriaid a'r rhanddeiliaid allweddol sydd wedi ein helpu ni i ddatblygu'r strategaeth hon yw:

- Oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol
- Sefydliadau'r trydydd sector megis yr NSPCC, Barnardos, Sefydliad Lucy Faithfull a'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'u hasiantaethau cyfansoddol megis awdurdodau lleol, yr heddlu ac iechyd
- Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB)
- Arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer caethwasiaeth fodern, diogelu mewn addysg, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), plismona a diogelwch cymunedol, fframwaith sy'n ystyriol o drawma ac iechyd meddwl.
- Mae fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r strategaeth wedi'i datblygu i gefnogi plant a phobl ifanc i ymateb i'r ymgynghoriad.
- Yn ogystal, rydym wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth i nodi'r hyn mae plant a phobl ifanc eisoes wedi'i ddweud wrth ymchwilwyr am eu profiadau, beth oedd wedi gweithio'n dda iddynt a beth sydd angen newid. Fel rhan o'r adolygiad, bydd yr ymchwilwyr yn ystyried a oes bylchau yn y sylfaen wybodaeth ac, os felly, byddant yn ein cynghori ar sut y dylem ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol a sicrhau ein bod yn osgoi gwneud y rhai sy'n cymryd rhan yn agored i fwy o drawma.
- Mae fersiwn Hawdd ei Darllen o'r strategaeth wedi'i datblygu i annog ymatebion gan bob rhan o'r gymuned.

Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU ac adrannau eraill i weithredu ar y cyd ar gam-drin plant yn rhywiol. Byddwn yn ymgysylltu'n llawn â'r ymchwiliad cenedlaethol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan grwpiau a ysgogwyd gan y Prif Weinidog ac yn gweithio gyda Plismona yng Nghymru ac ar draws meysydd polisi megis troseddu a chyfiawnder a chaethwasiaeth fodern. Byddwn yn

sicrhau bod lleisiau plant, teuluoedd, ac oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr yn helpu i lywio deddfwriaeth a pholisïau yn awr ac yn y dyfodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am rôl partneriaid troseddu a chyfiawnder yn y gwaith o atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn Adran 4 o’r strategaeth hon.

**Ymgynghori â phlant a phobl ifanc**

Er ein bod wedi ymgysylltu ag oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr drwy weithdai, rydym wedi ystyried yn ofalus sut i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth hon. Er mwyn rheoli hyn yn foesegol ac yn sensitif, rydym wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth i archwilio’r pum mlynedd diwethaf o ymchwil ryngwladol sy’n casglu barn plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr yr effeithir arnynt gan bob math o gam-drin plant yn rhywiol.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar syniadau gan blant, pobl ifanc ac oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr ar yr hyn sy’n gweithio’n dda i atal cam-drin plant yn rhywiol, beth sy’n gweithio’n dda yn yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol, beth sydd angen ei newid a beth sy’n gweithio fwyaf effeithiol i’w cefnogi i wella o gamdriniaeth.

Bydd yr adolygiad llenyddiaeth yn crynhoi ymchwil bresennol, yn nodi enghreifftiau o arfer da fel y’u disgrifir gan blant a phobl ifanc, yn tynnu sylw at fylchau yn y sylfaen wybodaeth, yn argymell a oes angen ymgynghoriad pellach i lenwi’r bylchau hyn ac yn rhoi cyngor ar sut y gellid cyflawni hyn gan liniaru unrhyw risg o wneud y rhai sy’n cymryd rhan yn agored i fwy o drawma.

Unwaith y bydd yr adolygiad llenyddiaeth wedi’i gwblhau, byddwn yn diwygio’r strategaeth i adlewyrchu’r canfyddiadau, gan gynnwys unrhyw ymgynghoriad pellach rydym wedi’i gynnal gyda phlant a phobl ifanc. Mae’r dull hwn yn sicrhau y bydd lleisiau plant yn cael eu clywed a’u hintegreiddio’n llawn i’r strategaeth.

## 1.6 Camau blaenoriaeth rydym wedi’u nodi

Cytunwyd ar y camau canlynol gyda’n rhanddeiliaid fel blaenoriaeth, a chredwn y bydd gweithredu’r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ymarfer yn y maes hwn, gan wella canlyniadau i bobl yng Nghymru. Nid yw hon yn rhestr hierarchaidd, ac mae’r holl gamau blaenoriaeth yr un mor bwysig â’i gilydd:

1. Gwella’r gwaith o gasglu, adrodd a dadansoddi data ar gam-drin plant yn rhywiol a’i ddefnyddio i lywio polisi ac ymarfer.
2. Codi ymwybyddiaeth plant, teuluoedd a chymunedau o sut i adnabod ac adrodd pryderon am gam-drin plant yn rhywiol.

3. Annog sgyrsiau agored am berthnasoedd iach, rhywioldeb, iechyd rhywiol a cham-drin rhywiol ymhlith plant, rhieni, gofalwyr, cymunedau a gweithwyr proffesiynol.
4. Sicrhau bod yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn gyson ledled Cymru drwy weithredu llwybr cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol.
5. Codi ymwybyddiaeth o'r llwybr cenedlaethol ar gyfer ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol a ddatblygwyd o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol gwreiddiol.
6. Datblygu a gweithredu fframwaith hyfforddi cam-drin plant yn rhywiol yn unol â'r grwpiau a esbonnir yn y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).
7. Cefnogi ymarferwyr o bob sefydliad i adnabod cam-drin plant yn rhywiol, i deimlo'n hyderus i roi gwybod am bryderon a'r rhai sydd â rolau diogelu i asesu a rheoli risg yn effeithiol.
8. Mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau sy'n darparu cymorth arbenigol ac anarbenigol i blant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr er mwyn sicrhau bod pobl yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir ar yr adeg iawn iddyn nhw.

# Adran 2: Pam mae angen strategaeth ddeng mlynedd i fynd i'r afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru?

Yn yr adran hon o'r strategaeth, rydym yn esbonio effaith cam-drin plant yn rhywiol ar unigolion gydol eu hoes, yn archwilio graddfa a chyffredinrwydd hysbys cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru, ac yn nodi negeseuon allweddol o ymchwil ac ymarfer drwy lens teipolegau cam-drin plant yn rhywiol a'r pedwar amcan strategol rydym wedi cytuno arnynt gyda rhanddeiliaid.

Mae effaith cam-drin plant yn rhywiol yn para am oes a gall effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn. Er bod profiad pob unigolyn yn unigryw, mae ymchwil wedi nodi'r effeithiau canlynol ar fywydau dioddefwyr-oroeswyr[9]:

- Gorbryder, iselder, anhwylderau bwyta, tarfu ar gwsg, ymdeimlad o ddatgysylltiad, PTSD ac anhwylderau personoliaeth.
- Problemau iechyd corfforol amrywiol, gan gynnwys poen gastroberfeddol, gynaecolegol, cardiopwlmonaidd a chronig.
- Effeithiau ar ddatblygiad seicorywiol a seicogymdeithasol, sy'n effeithio ar weithrediad rhywiol a pherthnasoedd mewn llencyndod ac fel oedolion.
- Er bod rhai dioddefwyr-oroeswyr yn ymarfer rhianta amddiffynnol, mae eraill yn wynebu heriau gyda ffiniau.
- Mae'r effaith yn amrywio yn seiliedig ar oedran y plentyn, ei berthynas â'r camdriniwr, hyd y gamdriniaeth, profiadau eraill mewn plentyndod ac ymatebion i ddatgelu.
- Mae'r effaith yn cael ei dylanwadu hefyd gan ryw, diwylliant, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd[10].
- Mae'r cam-drin yn effeithio ar rieni nad ydynt yn cam-drin a chymdeithas, gyda chostau emosiynol ac ariannol uchel (dros £10 biliwn bob blwyddyn)[11].

## 2.1 Graddfa a chyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol

Fel y nodwyd yn Adran 1 y ddogfen hon, mae angen gwella dulliau casglu data, adrodd a dadansoddi ar y cyd a gwella'r broses o rannu data i lywio datblygiad polisi ac ymarfer ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Dylem fod yn gweithio tuag at gasglu'r un data â Lloegr o leiaf.

Ar hyn o bryd, mae data am gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei gasglu gan bob math o wahanol asiantaethau, gan ddefnyddio amrywiaeth o systemau TG, ac nid oes ateb syml a fyddai'n ein galluogi i ddeall cwmpas llawn a chyffredinrwydd cam-

[9] Publications & Resources | Key messages from research | CSA Centre
[10] Publications & Resources | Key messages from research | CSA Centre
[11] The economic and social cost of contact child sexual abuse - GOV.UK

drin plant yn rhywiol yng Nghymru ar hyn o bryd, a byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cyffredinrwydd 'hysbys' yn unig. Rydym yn gwybod efallai na fydd dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol byth yn datgelu eu profiadau o gam-drin, neu efallai y bydd yn cymryd amser maith iddynt siarad am eu profiadau.

Byddai data gwell yn ein galluogi i nodi themâu, patrymau a deallusrwydd yn gyflym ac yn gywir. Byddai system gydweithredol ar gyfer rhannu a dadansoddi'r data hwn yn sicrhau bod gan yr holl asiantaethau a sefydliadau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol y darlun llawnaf posibl a bod hyn yn cefnogi'r defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.

Cyhoeddodd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol adroddiad ym mis Mehefin 2021 o'r enw, 'The scale and nature of child sexual abuse: Review of evidence'[12]. *(Argraffiad diwygiedig yw hwn o'r adolygiad tystiolaeth a gwblhawyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Measuring the scale and changing nature of child sexual abuse and child sexual exploitation, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2017 ac a ddiweddarwyd yn 2018.)*

Nododd yr adroddiad hwn y penawdau canlynol am gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr:

- Mae 500,000 o blant a phobl ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr
- Mae 15% o fenywod a 5% o ddynion yng Nghymru a Lloegr yn profi cam-drin rhywiol cyn eu bod yn 16 oed
- Plant a phobl ifanc yw'r dioddefwyr mewn 40% o'r holl droseddau rhywiol, er mai dim ond 20% o'r boblogaeth ydyn nhw
- Mae llawer mwy o blant yn cael eu cam-drin nag sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu neu eu hadnabod gan wasanaethau amddiffyn plant.
- Mae lle mae plentyn yn byw yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd ei gamdriniaeth yn cael ei nodi ac y bydd rhywun yn ymateb i hynny.
- Mae plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cael eu tangynrychioli yn yr holl ddata asiantaeth.

Amcangyfrifir bod 25,000 o blant a phobl ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn yng Nghymru. Yng Nghymru, mae adroddiad y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, *Child sexual abuse in 2023/24: Trends in official data*[13], yn dangos bod bron i 6,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi'u cofnodi gan yr heddlu yn 2023/24 ond mai dim ond 14% o ymchwiliadau yng Nghymru a arweiniodd at benderfyniad i gyhuddo'r troseddwr.

[12] The scale and nature of child sexual abuse: Review of evidence
[13] Child sexual abuse in 2023/24: Trends in official data

Mae nifer y plant sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol wedi gostwng yn raddol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf (Karsna a Kelly, 2021). Yn 2023/24, roedd ychydig o dan 200 o blant yng Nghymru wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd cam-drin rhywiol, 15% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol a dim ond 5% o'r holl gofrestriadau yn y flwyddyn honno. Mae'r amrywiad ymhlith awdurdodau lleol yn y defnydd o gofrestriadau oherwydd cam-drin rhywiol yn sylweddol: roedd cyfran y plant yr oedd eu cofrestriad yn cynnwys cam-drin rhywiol fel rheswm yn amrywio o 0% i 19% o'r holl gofrestriadau amddiffyn plant yn 2023/24. Mae rhagor o wybodaeth am y data lleol yng Nghymru ar gael yn Data Insights Hub y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin plant yn Rhywiol.


Dim ond un mesur rydym yn ei ddefnyddio fel dangosydd cyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru yw'r Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cyfeirio at nifer y plant a phobl ifanc sydd â chynllun diogelu gofal a chymorth ar waith a bod eu henwau wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd niwed/cam-drin rhywiol.

Mae rhanddeiliaid yn ein cynghori eu bod yn gweithio gyda llawer mwy o blant a phobl ifanc o dan gynllun gofal a chymorth gwirfoddol a bod plant â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu risg uchel o gam-drin rhywiol hefyd. Mae angen inni ddatblygu systemau sy'n cipio'r profiad hwn ar lefel genedlaethol. Mae gwella dulliau casglu a rhannu data yn flaenoriaeth i'r strategaeth hon.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos natur gudd hollbresennol cam-drin plant yn rhywiol ac yn dangos bod gwasanaethau statudol yn cefnogi lleiafrif bach o blant ar hyn o bryd sydd wedi profi cam-drin rhywiol y mae eu henwau wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant, tra bod llawer o blant eraill yn cael eu cefnogi ar gynllun gofal a chymorth, ac efallai na fydd llawer o blant wedi dod i sylw gwasanaethau amddiffyn plant o gwbl. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ganfyddiadau ymchwil eraill.[14]

[14] CSA-in-Wales-childrens-services-Briefing.pdf, Roberts S. 2020

## Ffigur 1: Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru




## 2.4 Negeseuon allweddol o ymchwil ac ymarfer

Rydym wedi defnyddio'r teipolegau cam-drin plant yn rhywiol rydym wedi cyfeirio atynt yn Adran 1 o'r ddogfen[15] hon a'r pedwar amcan strategol rydym wedi'u nodi drwy gyd-gynhyrchu, fel canllaw i sicrhau ein bod wedi ystyried yr holl negeseuon allweddol perthnasol o ymchwil ac ymarfer.

### Cam-drin plant yn rhywiol o fewn yr amgylchedd teuluol

Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Panel Adolygu Diogelu yn Lloegr o'r enw: "I wanted them all to notice": Protecting children and responding to child sexual abuse within the family environment[16] yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

Er bod tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o gam-drin plant yn digwydd yn y cartref neu'n cael ei gyflawni gan rywun mae'r plentyn yn ei adnabod, yn aml nid yw cam-drin gan aelodau'r teulu neu o fewn rhwydwaith y teulu yn cael ei adnabod gan

---

[15] A new typology of child sexual abuse offending, Y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Astudiaethau Cam-drin a Thrawma, Prifysgol Middlesex, yn 2020

[16] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67446a8a81f809b32c8568d3/CSPRP_-_I_wanted_them_all_to_notice.pd

ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle nad yw dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu hamddiffyn na'u cefnogi'n effeithiol yn eu hadferiad.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd a dryswch ymhlith ymarferwyr ynglŷn â thrafod cam-drin gyda phlant, gan greu diwylliant o ofn a distawrwydd. Mae ymarferwyr yn dibynnu gormod ar y system cyfiawnder troseddol i gadarnhau camdriniaeth, ac mae'r angen canfyddedig am brawf 'y tu hwnt i amheuaeth resymol' yn parlysu'r system, gan adael plant heb eu diogelu hyd yn oed pan fyddant yn rhoi gwybod am gamdriniaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi hefyd bod rhieni'n wynebu disgwyliadau afrealistig yn aml i amddiffyn eu plant heb arweiniad a chymorth priodol, gan deimlo nad yw pobl yn eu credu neu eu bod yn cael eu beio gan ymarferwyr. Mae anghysondeb o ran adnabod cam-drin rhywiol ac ymateb iddo yn seiliedig ar nodweddion unigol a mathau o niwed yn broblem hefyd.

**Cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd**

Mae cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn cael ei ystyried yn un o'r mathau mwyaf cyffredin o gam-drin plant yn rhywiol yn y teulu yn y DU. Mae plant yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn rhywiol gan frodyr a chwiorydd (brodyr, chwiorydd, llysfrodyr a llyschwiorydd) na gan eu rhieni[17].

Mae ymchwil yn dangos y gall cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd gael effeithiau difrifol a hirdymor ar iechyd a llesiant goroeswyr. Gall y trawma a brofir arwain at broblemau emosiynol, seicolegol ac ymddygiadol amrywiol. Mae ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, darparu cymorth i oroeswyr a gwella ymatebion proffesiynol i ddatgeliadau o gam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, mae rhanddeiliaid wedi codi'r angen am agwedd teulu cyfan at y mater hwn yn gyson.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi dweud bod cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn fath cyffredin o gam-drin rhywiol sy'n arwain at ganlyniadau dinistriol i'r teulu cyfan. Mae gwahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol normadol ymhlith brodyr a chwiorydd ac ymddygiad camdriniol yn hanfodol ar gyfer ymyrraeth a chymorth effeithiol[18].

Mae cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn cael effeithiau difrifol a hirdymor. Dylai ymatebion i gam-drin o'r fath gydbwyso diogelwch, gwella a chyfiawnder. Rhaid i weithwyr proffesiynol allu adnabod yr ystod o ymddygiadau rhywiol gan frodyr a chwiorydd a deall profiadau'r plant dan sylw.

[17] Sibling sexual abuse project - SARSAS
[18] Sibling sexual abuse: A knowledge and practice overview - CSA Centre

Mae cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr yn hanfodol, a dylai gweithwyr proffesiynol allu cefnogi a siarad â rhieni pan fydd pryderon am gam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn codi.

Mae hwn yn faes ymarfer hynod gymhleth. Er mwyn mynd i'r afael ag ef yn effeithiol, mae angen dull teulu cyfan, empathig. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau cynhwysfawr, hyrwyddo dysgu myfyriol a blaenoriaethu diogelwch i atal cam-drin pellach. Mae angen inni gynyddu dealltwriaeth broffesiynol o'r cyd-destun lle mae cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn fwy tebygol o ddigwydd. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod plant sy'n byw gyda cham-drin domestig a/neu sy'n profi esgeulustod yn wynebu risg uchel.

**Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB)**

Gellir diffinio ymddygiadau rhywiol niweidiol (HSB) fel: ymddygiadau rhywiol sy'n cael eu harddangos gan blant a phobl ifanc o dan 18 mlwydd oed sy'n anaddas yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol iddyn nhw neu bobl eraill, neu sy'n gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall. Yng Nghymru, mae'r diffiniad hwn o ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys ymddygiadau cyswllt a digyswllt, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n digwydd ar-lein[19].

Ym mha bynnag gyd-destun mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn digwydd, derbynnir nad yw'r niwed a achosir i'r holl blant dan sylw yn cael llai o effaith, p'un a yw'r niwed yn niwed cyswllt o ran natur, yn niwed digyswllt neu'n digwydd mewn mannau digidol. Felly, rhaid i'r rhai sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a'r rhai sy'n cael eu niweidio gan ymddygiad rhywiol niweidiol mewn unrhyw gyd-destun gael gofal, cymorth ac amddiffyniad sy'n gymesur â'u hanghenion unigol.

**Cyffredinrwydd Ymddygiad Rhywiol Niweidiol**

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fater cymhleth a heriol i weithwyr proffesiynol, yn enwedig pan fydd y cam-drin yn cael ei arddangos gan blentyn tuag at blentyn arall. Yn ôl astudiaeth yn y DU gan Radford L et al yn 2011[20], roedd traean o'r achosion o gam-drin plant yn rhywiol drwy gyswllt wedi'i gyflawni gan blentyn arall. Arhosodd y ffigur hwn fwy neu lai'r un fath am bron i ddegawd. Canfu adroddiad 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' Estyn yn 2021[21] ar fwlio ac aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau addysg mai'r cyd-destun mwyaf cyffredin a adroddwyd gan blant sy'n profi'r math hwn o niwed oedd ar-lein. Er bod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

---

[19] Canllaw a Gweithdrefnau Ymarfer Cymru Gyfan 2019.

[20] Child Abuse and Neglect in the UK Today

[21] Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru

o ymddygiad rhywiol niweidiol a ddangosir gan blant dan 18 oed, mae'n parhau i fod yn fath cyffredin o gam-drin rhywiol, gyda data'r heddlu ledled Cymru ers 2020 yn dangos bod tua 50% o'r rhai dan amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol o dan 18 oed eu hunain[22].

Er bod cysondeb mewn deddfwriaeth a chanllawiau sydd ar gael yng Nghymru o ran ymatebion i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, mae realiti ymarfer yn dangos anghysondeb yn ôl daearyddiaeth, rhywedd, oedran, cyd-destun niwed, ymateb asiantaeth ac ymatebion diwylliannol, gan greu tipyn o loteri cod post i blant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan y math hwn o gam-drin plant yn rhywiol. Er mwyn deall cyffredinrwydd ymddygiad rhywiol niweidiol yn fwy cywir, mae angen casglu data mewn ffordd fwy cyson a chadarn i sicrhau bod cynllun a darpariaeth gwasanaethau yn ymatebol i bob math o gam-drin plant yn rhywiol ac adfer ar ôl cam-drin plant yn rhywiol. Mae gwreiddio llais y rhai sydd angen cymorth i atal pryderon o ran ymddygiad rhywiol niweidiol rhag cynyddu ac i ddeall yn well yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n bwysig wrth leihau ac atal ymddygiad rhywiol niweidiol pellach yn bwysig iawn wrth ddeall y maes cymhleth hwn o gam-drin rhywiol ac i wella ymatebion ymarfer.

**Amrywiaeth ymhlith plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol**

Mae plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn grŵp amrywiol. Mae yna heterogenedd o wahanol fathau o ymddygiadau sy'n cael eu harddangos gan wahanol fathau o blant mewn llawer o gyd-destunau amrywiol[23]. Mae yna ystod o ffactorau sy'n sail i'r cymhlethdod hwn.

Er bod y safbwynt datblygiad plant yn pwysleisio'r ffaith bod gan blant sydd wedi niweidio eraill fregusrwydd eu hunain yn aml, derbynnir y gall ymddygiad rhywiol niweidiol gan blentyn i blentyn arall fod yr un mor niweidiol â cham-drin plant yn rhywiol gan oedolion, waeth beth fo oedran neu rywedd y plentyn sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae defnyddio dull y plentyn yn gyntaf mewn perthynas ag ymatebion i ymddygiad rhywiol niweidiol yn fwyaf effeithiol wrth ddeall yr anghenion sylfaenol sy'n ysgogi'r ymddygiad rhywiol niweidiol, yn ogystal ag anghenion ehangach y plentyn yn ei deulu neu ei gymunedau ehangach.

Canfu adroddiad DMSS, *Key messages from research on children and young people who display harmful sexual behaviour,* gan Di McNeish a Sara Scott, DMSS Research, ail argraffiad, (2023),[24] mai bechgyn sydd â hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yw plant hŷn sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn

---

[22] Adroddiad Tarian ROCU a Hydrant 2024
[23] How could a gender-sensitive approach help us to identify and respond to children who have displayed harmful sexual behaviour? - University of Edinburgh Research Explorer
[24] Key messages from research on children and young people who display harmful sexual behaviour

bennaf. Fel gyda mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, mae gwahaniaethau rhyweddol rhwng y rhai sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a’r rhai sy’n cael eu niweidio gan ymddygiad o’r fath yn awgrymu ei fod yn fath o drais rhywiol rhyweddol. Fodd bynnag, gall ymddygiad rhywiol niweidiol gael ei arddangos gan fechgyn a dynion ifanc yn ogystal â merched a menywod ifanc, er ei fod yn syndod bod y mater o rywedd a hunaniaeth rhywedd yn absennol o lenyddiaeth berthnasol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yna duedd i ferched a menywod ifanc sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol gael ymatebion lles, tra bod ymddygiad bechgyn a dynion ifanc yn fwy tebygol o gael ei ystyried fel mater cyfiawnder troseddol[25]. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod llencyndod.

Mae tueddiad amlwg mewn ymchwil ac ymarfer i ystyried bod gan fechgyn fwy o allu i wneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch rhyw a bod merched yn fwy goddefol o ran rhyw. Yn 2015 a 2019, tynnodd Barnardo’s sylw at y ffaith bod yr effaith ar ymatebion i blant o’r naill rywedd neu’r llall sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn y cyd-destun hwn yn bellgyrhaeddol. Yng Nghymru, mae sylfaen tystiolaeth ymarfer gref a thystiolaeth ymchwil sy’n dod i’r amlwg i awgrymu y gall plant sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol fod â chyffredinrwydd uchel o brofiadau fel dioddefwyr eu hunain hefyd, gan gynnwys profiad o gam-drin plant yn rhywiol a/neu gamfanteisio’n rhywiol ar blant.

Mae data Barnardo’s Cymru’n awgrymu bod gan tua 50% o blant sy’n cael mynediad at gymorth gan ei wasanaeth arbenigol ar ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio’n rhywiol ar blant bryderon deuol ac anghenion sy’n ymwneud â chamfanteisio’n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae tystiolaeth ymchwil yn tynnu sylw hefyd at debygrwydd arall rhwng y grwpiau hyn o blant, gydag adroddiad ‘same but different’ Hallet et al yn tynnu sylw at y ffaith bod gan dros 65% o blant sy’n cael mynediad at ddarpariaeth camfanteisio’n rhywiol ar blant neu ymddygiad rhywiol niweidiol arbenigol yng Nghymru hanes o drawma a cham-drin, a bod effaith hynny heb ei ddatrys yn aml. Mae tystiolaeth o aflonyddwch datblygiadol i blant sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol mewn llawer o ymchwil ddiweddar yn y maes hwn.

Mewn adolygiad thematig o 117 o achosion a atgyfeiriwyd i wasanaethau arbenigol ledled y DU,[26] canfu Balfe a Hackett fod y rhan fwyaf wedi profi gofal mewn amgylcheddau a oedd yn anhrefnus, gan gynnwys sefyllfaoedd byw afreolaidd, perthnasoedd teuluol gwael, cefndiroedd ansefydlog rhieni, esgeulustod a cham-drin cyffredinol, anawsterau ysgol a chymdeithasol, cam-drin corfforol a chyffredinrwydd uchel o amlygiad i gam-drin neu drais domestig, gan gynnwys niwed rhywiol iddyn

[25] The Same but Different? Exploring the Links between Gender, Trauma, Sexual Exploitation and Harmful Sexual Behaviours - Hallett - 2019 - Child Abuse Review - Wiley Online Library
[26] The disrupted sociologies of young people with harmful sexual behaviours

nhw ac oedolion yn y cyd-destun hwn. Mae'n hanfodol felly nad yw cymorth asesu ac adfer i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys rhaglenni newid ymddygiad yn unig.

Rhaid i gymorth asesu ac adfer i blant yn dilyn ymddygiad rhywiol niweidiol nodi profiadau trawma a cham-drin y plentyn ei hun hefyd a cheisio cynnwys prosesu effaith y rhain mewn unrhyw gymorth dilynol a gynigir i'r plentyn. Mae ymyriadau sy'n seiliedig ar berthynas yn ystyried anghenion a nodweddion unigryw'r plentyn, yn ystyriol o drawma ac â ffocws yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol wrth atal ymddygiad rhywiol niweidiol pellach a chynyddu cyfleoedd bywyd gorau'r plentyn.

Rhaid ystyried plant iau sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, yn enwedig y rhai cyn glasoed, fel grŵp gwahanol o blant y mae angen deall bod eu hymddygiad rhywiol niweidiol yn wahanol i ymddygiad plant hŷn ac oedolion. Nid yw plant cyn glasoed yn deall nac yn profi teimladau a chyffro rhywiol yn yr un ffordd â phobl ifanc. Mae'n fwy tebygol y bydd plant iau sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn dangos ymddygiad adweithiol i'w profiadau eu hunain a dod i gysylltiad â niwed neu gynnwys a negeseuon sy'n amhriodol i'w hoedran. Gall eu hymddygiad fod yn ymdrechion i gyfathrebu trallod, ceisio cymorth neu gysylltiad, neu gallant fod yn dynwared eu profiadau eu hunain. Rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant iau sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ystyried beth sydd wedi achosi i ymddygiad y plentyn fodoli, beth sy'n achosi i ymddygiad y plentyn barhau a'r anghenion diogelu ac adfer ehangach a fydd eu hangen ar gyfer atal yr ymddygiad.

Mae plant ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a diagnosis niwrowahanol yn cael eu gorgynrychioli fel dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol, yn ogystal â'r rhai sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. I'r rhai y mae eu hymddygiad yn adweithiol i gam-drin, efallai bod ganddynt lai o ddealltwriaeth bod eu hymddygiad yn niweidiol neu efallai eu bod yn llai abl i gyfathrebu trallod a achosir gan eu niwed eu hunain ar lafar. Gall y rhwystrau ychwanegol i'r grŵp hwn o blant dderbyn ACRh deg a chysylltu ag eraill a sefydlu perthnasoedd rhywiol cydfuddiannol ystyrlon effeithio arnynt yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ar draws y continwwm. Rhaid rhoi mwy o ffocws i'r grŵp hwn o blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi i hyrwyddo datblygiad rhywiol iach drwy gydol eu bywydau. Yn ogystal, rhaid gwneud mwy i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r rhwystrau i'r grŵp hwn o blant ddatgelu neu dynnu sylw at eu profiadau niweidiol eu hunain.

**Ymatebion Cymesur i Ymddygiad Rhywiol Niweidiol**

Gall ymddygiad rhywiol niweidiol (HSB) a ddangosir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed amrywio o ymddygiad amhriodol neu broblematig i ymddygiad camdriniol a threisgar. Amlinellir hyn yn y llwybr ymddygiad rhywiol niweidiol a luniwyd gan

gontinwwm Hackett ac a ddatblygwyd fel rhan o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol blaenorol Llywodraeth Cymru i atal Cam-drin Plant yn Rhywiol (2019-2022), o dan bwynt gweithredu 11.

Er na ddylem leihau ymddygiad rhywiol niweidiol ar draws ei gontinwwm, mae'n hanfodol deall yn iawn yr ystod o ymddygiadau, yn ogystal â'r cyd-destunau y gall ymddygiad rhywiol niweidiol fodoli ynddynt. Yn ogystal, mae'r lefelau amrywiol o ymyrraeth a niwed a brofir yn ystyriaethau pwysig i ddarparu ymateb cymesur i bob plentyn yr effeithir arno.

Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn wahanol i archwilio ac arbrofi rhywiol, sy'n normal ac yn rhan ddisgwyliedig o ddatblygiad plant a phobl ifanc. Gall hyn helpu i lywio hunaniaeth rywiol a chefnogi dealltwriaeth o berthynas ag eraill. Gall gwahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol sy'n arbrofol, normadol a disgwyliedig, neu amhriodol, problematig, camdriniol neu dreisgar fod yn gymhleth, ac mae angen i weithwyr proffesiynol ddeall yn gyntaf beth yw datblygiad rhywiol iach i blant ar draws y cyfnod aeddfedu, yn ogystal â materion cydsyniad ar sail gwybodaeth, anghydbwysedd grym a cham-drin grym.

Gall ymddygiad rhywiol niweidiol a ddangosir gan blant sy'n achosi pryder proffesiynol amrywio o iaith ac ystumiau rhywiol, bwlio neu aflonyddu rhywiol, cyffwrdd rhywiol heb gydsyniad, a gweithredoedd treiddiol, gan gynnwys treisio. Wrth ymateb i bryderon o natur rywiol gan blant, bydd angen ystyriaeth ac asesiad cadarn gan oedolion dan sylw i bennu lefel y pryder, yn ogystal â'r hyn a allai fod yn ymateb cymesur i'r plentyn sy'n arddangos yr ymddygiad niweidiol a'r plentyn sy'n cael ei niweidio gan yr ymddygiad. Mae cwestiynau atodol, a ddefnyddir ochr yn ochr â'r llwybr ymddygiad rhywiol niweidiol i helpu i roi ffocws i feddwl proffesiynol, ac asesu ac ymateb yn fwy cywir i lefel pryder ac anghenion diogelu pob plentyn yr effeithir arnynt, wedi'u datblygu gan Barnardo's Cymru fel rhan o'r llwybr ymddygiad rhywiol niweidiol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol blaenorol (gweler atodiad 3 o'r ddogfen hon).

Canfu ymchwil DMSS nad yw'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn mynd ymlaen i gam-drin eraill, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n arddangos ymddygiad niweidiol yn cyflawni troseddau rhywiol fel oedolion. Er hynny, mae nodi'n glir blant â'r lefel uchaf o angen a darparu cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu'r anghenion hyn yn hanfodol i atal cynnydd mewn pryder a hyrwyddo'r cyfleoedd bywyd gorau, gan gynnwys y bydd y plentyn yn mynd ymlaen i ddatblygu ymddygiad a pherthnasoedd rhywiol mwy iach.

O dan Child Sexual Abuse Core Priority Programme Barnardo's Cymru, cynhaliwyd Discovery Project (2019) a ganolbwyntiodd ar 1600 o blant a atgyfeiriwyd am gymorth mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Tynnodd yr adroddiad

sylw at y ffaith bod 66% o blant a atgyfeiriwyd am ymddygiad rhywiol camdriniol a threisgar wedi bod yn hysbys i asiantaethau statudol gan eu bod wedi cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol amhriodol neu broblematig ar ddau achlysur blaenorol ar gyfartaledd. Dywedodd plant, rhieni a gofalwyr, er eu bod yn croesawu ymyrraeth Barnardo's, y byddai'n well pe bai'r ymyrraeth wedi bod yn gynharach cyn i'r ymddygiad fynd yn fwy difrifol.

Gofynnodd yr adroddiad hefyd am farn rhanddeiliaid statudol i fyfyrio ar gyfleoedd a gollwyd i ddarparu cymorth yn gynharach. Aeth yr adroddiad hwn ati'n uniongyrchol i lywio Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gan roi cyfrifoldeb i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol o ran:

- Datblygu llwybr atgyfeirio clir er mwyn i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol gael asesiad help cynnar.
- Adrodd ar hyrwyddo gwybodaeth i blant/rhieni/gofalwyr am berthnasoedd iach/afiach
- Adrodd bod llwybrau atgyfeirio ar gyfer Plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ar waith.

Mae hyn yn adlewyrchu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ledled Cymru a Lloegr. Er bod y llwybr yn bodoli, mae tystiolaeth i awgrymu nad yw wedi cael ei fabwysiadu'n gyson ledled Cymru ar hyn o bryd.

Mae ymchwil gyfyngedig yn awgrymu bod gan fechgyn sy'n gweld delweddau cam-drin plant yn rhywiol ar-lein heb gymryd rhan mewn ymddygiadau rhywiol sy'n peri pryder all-lein hanes llai cythryblus na'r rhai sy'n cyflawni troseddau eraill. Efallai bod cysylltiad rhwng pornograffi ar-lein ac ymddygiadau niweidiol. Rhaid cydnabod nad yw niwed ar-lein i blant a chan blant yn destun digon o ymchwil nac yn cael ei ddeall yn dda ar hyn o bryd. Mae angen mwy o dystiolaeth ymchwil ac ymarfer, gan gynnwys clywed gan blant sydd wedi niweidio neu wedi cael eu niweidio yn y cyd-destun hwn, i ddeall yn fwy cadarn y materion sydd ar waith a'r hyn sydd ei angen i wneud newidiadau effeithiol i'r ffordd orau o ddiogelu plant ar-lein.

Nid oes unrhyw fath penodol o ymyrraeth a argymhellir i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae sawl astudiaeth sy'n ceisio archwilio effeithiolrwydd dulliau fel CBT, dulliau atal ailadrodd. Fodd bynnag, mae anghenion unigryw y grŵp hwn o blant yn golygu bod amrywiaeth rhaglenni ymyrraeth wedi rhwystro hyn. Nododd adroddiad DMSS y dylai ymyriadau effeithiol fod yn gyfannol, yn canolbwyntio ar blant ac yn cynnwys rhieni/gofalwyr ac y dylai addysg atal fod yn hirdymor, ysgol gyfan a chynnwys plant yn ei ddatblygiad. Mae dulliau iechyd cyhoeddus sy'n herio anghydraddoldeb rhywiol a gwerthoedd patriarchaidd yn ddefnyddiol hefyd wrth fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan Barnardo's Cymru, sy'n cynnwys llais plant, teuluoedd a phartneriaid diogelu, yn ychwanegu at hyn ac yn awgrymu bod dulliau sy'n amlsystemig, drwy brofiad, sy'n cael eu cyflwyno gydag ymwybyddiaeth ddatblygiadol ac sy'n ystyried newid ymddygiad ochr yn ochr â phrosesu trawma yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol wrth atal ymddygiad rhywiol niweidiol pellach a hyrwyddo'r cyfleoedd gydol oes gorau i bob plentyn.

**Cam-drin rhywiol ar-lein**

Cam-drin rhywiol ar-lein yw'r math o gam-drin sy'n tyfu gyflymaf, yn ôl y data sydd ar gael. O ystyried bod technoleg yn elfen allweddol yn y rhan fwyaf o'n bywydau bob dydd, nid yw hyn yn syndod.

Cyhoeddodd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol 'Key messages from research on child sexual abuse by adults in online contexts' ym mis Hydref 2023[27]. Mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

Yn 2023/24, roedd dros draean (39%) o'r 101,199 o droseddau rhywiol yn erbyn plant a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn droseddau delweddau. Yn gymharol â'r boblogaeth plant, cofnododd heddluoedd Cymru fwy o droseddau cam-drin plant yn rhywiol nag yn Lloegr[28]. Fodd bynnag, mae'n debygol bod gwir raddfa cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn uwch na'r hyn a adroddir. Yn 2022, canfu'r Internet Watch Foundation (IWF) ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar dros chwarter miliwn o dudalennau gwe. Roedd y rhan fwyaf o ddelweddau rhywiol o blant wedi'u cynhyrchu gan y plant eu hunain, yn aml yn eu hystafelloedd gwely, ac roedd llawer o blant wedi cael eu gorfodi neu eu twyllo i gynhyrchu a rhannu'r delweddau hyn.

Mae arolygon wedi canfod bod plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn y cnawd, gyda'r cam-drin yn cael ei recordio i'w rannu ar-lein, yn cael eu cam-drin yn aml gan riant, rhywun maen nhw'n ei adnabod neu berson mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, a hwnnw'n ddyn fel arfer. Canfu arolwg arall fod oedolion sy'n rhoi pwysau ar blant ar-lein i gyflawni gweithgarwch rhywiol yn hysbys i'r plentyn all-lein eisoes yn aml. Mae'r rhan fwyaf o oedolion sy'n gweld, yn rhannu neu'n cynhyrchu delweddau rhywiol o blant yn ddynion o gefndiroedd ethnig Gwyn.

Mae llawer o blant sy'n cael eu cam-drin ar-lein yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gymorth priodol ac yn teimlo eu bod yn cael llai o gymorth na dioddefwyr mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn beio'r dioddefwyr hyn neu'n teimlo na allant helpu oherwydd diffyg arbenigedd mewn technoleg. Fodd bynnag, nid oes angen gwybodaeth fanwl am dechnoleg i ofyn i

[27] Key messages from research on child sexual abuse by adults in online contexts
[28] Child sexual abuse in 2023/24: Trends in official data

blant am eu profiadau. Mae ymarfer seiliedig ar berthynas yn werthfawr wrth fynd i'r afael â defnydd plant o dechnoleg.

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant**

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd yr NSPCC grynodeb o faterion a dysgu allweddol ar gyfer gwella ymarfer ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant. Fe wnaethant adolygu achosion sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a'r rheini'n achosion difrifol a thros gyfnod estynedig, yn ogystal â marwolaethau annisgwyl neu hunanladdiadau yn dilyn camfanteisio o'r fath. Fe wnaethant ganfod bod camfanteisio'n rhywiol yn digwydd ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin, esgeulustod a bregusrwydd yn aml, megis cam-drin domestig, mynd ar goll, bod mewn gofal a bod ag anableddau. Mae plant a phobl ifanc sy'n unig neu'n ynysig yn gymdeithasol yn fwy agored i gamfanteisio, gyda phobl ifanc LHDTC+ yn arbennig yn chwilio am gymunedau ar-lein y gall troseddwyr gamfanteisio arnynt.

Yn aml, nid oedd gan weithwyr proffesiynol yr wybodaeth i adnabod arwyddion yn gynnar, gan golli cyfleoedd i gymryd camau effeithiol. Er bod gan rai pobl ifanc a'u teuluoedd berthynas dda ag ymarferwyr unigol, roedd llawer yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed gan wasanaethau. Roedd plant yn ei chael hi'n anodd yn aml i siarad am eu profiadau, a phan oedd ymatebion cychwynnol yn aneffeithiol, roedden nhw'n colli hyder yng ngallu gweithwyr proffesiynol i helpu. Weithiau roedd ymarferwyr yn ei chael hi'n anodd adeiladu perthnasoedd seiliedig ar ymddiriedaeth a oedd yn caniatáu i bobl ifanc ddisgrifio eu pryderon yn eu hamser eu hunain. Nid oedd gweithwyr proffesiynol yn rhoi eu hanghysur eu hunain o'r neilltu bob amser i greu man diogel ac anfeirniadol i bobl ifanc rannu'r hyn oedd wedi digwydd iddynt.

Weithiau roedd pryderon yn cael eu diystyru pan nad oedd plentyn yn darparu manylion nac yn enwi'r cyflawnwr, heb ystyried y gallai'r plentyn fod yn rhy ofidus i dderbyn ei fod wedi dioddef camfanteisio neu efallai nad yw'n deall beth yw camfanteisio'n rhywiol. Gallai ofn neu fygythiadau o niwed tuag at berson ifanc neu ei anwyliaid atal y plentyn rhag siarad am y camfanteisio. Roedd gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn ei chael hi'n anodd yn aml i addasu i anghenion diwylliannol neu iaith plant, megis plant mudol o grwpiau ethnig leiafrifol, gan ei gwneud hi'n anodd adnabod pryderon a darparu cymorth priodol. Weithiau roedd arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) yn cael eu camgymryd am ymddygiad 'normal' pobl ifanc yn eu harddegau, gan ei gwneud yn anoddach i'r plentyn rannu ei bryderon.

Nid oedd ymarferwyr yn ystyried bob amser y gallai plentyn neu berson ifanc gredu bod ei gamdrinwyr yn 'ffrind' neu'n 'gariad'. I rai pobl ifanc, roedd y perthnasoedd hyn yn bodloni angen emosiynol i gael eu caru neu angen corfforol fel lloches. Weithiau nid oedd ymarferwyr yn deall pwysigrwydd grwpiau cyfoedion a theimladau o 'berthyn' i bobl ifanc.

Weithiau roedd pobl ifanc a oedd wedi dioddef camfanteisio yn cael eu hystyried yn ‘oedolion ifanc’ sy’n gwneud eu dewisiadau eu hunain, yn hytrach na phlant sy’n cael eu cam-drin yn rhywiol, a oedd yn lleihau cyfleoedd i ymyrryd. Arweiniodd rhagdybiaethau am lefel annibyniaeth neu reolaeth plentyn yn seiliedig ar ei ymddangosiad at sgyrsiau annigonol am gydsyniad a chamfanteisio’n rhywiol.

Mae iaith beio dioddefwyr, megis "cyfarfod/mynd gyda dynion" neu "puteinio eu hunain," yn rhoi cyfrifoldeb ar y plentyn ac yn methu â chydnabod yr orfodaeth a’r rheolaeth a ddefnyddir gan gyflawnwyr. Roedd gweithgarwch rhywiol rhwng pobl ifanc o’r un oed yn cael ei ystyried yn gydsyniol, ac nid oedd y posibilrwydd o gamfanteisio’n rhywiol ar blant yn cael ei archwilio’n llawn bob amser. Weithiau roedd gweithwyr proffesiynol yn canolbwyntio gormod ar newid ymddygiad y person ifanc yn hytrach na’i ddiogelu, hyrwyddo ei adferiad neu dargedu’r cyflawnwyr, gan ganiatáu i’r risg o gamfanteisio barhau.

Nid oedd gwybodaeth am gamfanteisio’n rhywiol ar blant yn cael ei chofnodi na’i rhannu’n effeithiol bob amser, gan arwain at golli cyfleoedd i atal cam-drin a chefnogi plant yr effeithir arnynt. Nid oedd ymarferwyr yn cael eu hysbysu am y risg o gamfanteisio bob amser, ac yn aml nid oedd gan asiantaethau wybodaeth gyfredol am weithgareddau ei gilydd, gan arwain at oedi mewn cyfathrebu pwysig. Weithiau roedd digwyddiadau a brofwyd gan bobl ifanc yn cael eu hystyried ar wahân, gan atal adnabod patrymau risg.

Weithiau roedd pryderon a godwyd gan aelodau’r teulu’n cael eu hanwybyddu, gan ganiatáu i’r risg o gamfanteisio barhau i’r person ifanc. Weithiau roedd cynlluniau diogelwch yn annigonol; nid oeddent yn cynnwys llais y plentyn neu nid oeddent yn cael eu rhannu gyda’r plentyn mewn ffordd yr oedd yn ei deall, gan fethu ag ystyried yr holl dystiolaeth oedd ar gael am y person ifanc a’r camfanteisio arno, a arweiniodd at danamcangyfrif y risg wirioneddol yr oedd yn ei hwynebu.

Mae camfanteisio’n rhywiol ar sail grŵp yn cael ei ddiffinio gan yr Adran Addysg fel rhywbeth sy’n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd grym i orfodi, manipiwleiddio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gyflawni gweithgarwch rhywiol yn gyfnewid am rywbeth y mae ar y dioddefwr ei angen neu ei eisiau, neu am fantais ariannol neu statws uwch yr hwyluswr. Gall y dioddefwr fod wedi dioddef camfanteisio’n rhywiol hyd yn oed os yw’r gweithgarwch rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio’n rhywiol ar blant yn cynnwys cysylltiad corfforol bob amser; gall ddigwydd hefyd gan ddefnyddio technoleg.

Mae grwpiau’n cael eu diffinio fel dau neu fwy o bobl o unrhyw oedran, wedi’u cysylltu drwy gymdeithasau neu rwydweithiau ffurfiol neu anffurfiol, gan gynnwys grwpiau o ffrindiau. Mae rhai aelodau o grwpiau yn cyd-droseddu, tra bod eraill yn galluogi ymddygiad troseddol ei gilydd.

Argymhellodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) y dylai heddluoedd fabwysiadu eu diffiniad nhw o droseddu rhywiol ar sail grŵp/rhwydweithiau:

“An organised network is characterised by two or more individuals (whether identified or not) who are known to (or associated with) one another and are known to be involved in or to facilitate the sexual exploitation of children. Being involved in the sexual exploitation of children includes introducing them to other individuals for the purpose of exploitation, trafficking a child for the purpose of sexual exploitation, taking payment for sexual activities with a child or allowing their property to be used for sexual activities with a child.”

Mae'r archwiliad a gynhaliwyd gan y Farwnes Casey ac a gyhoeddwyd ar 16 Mehefin 2025 yn cefnogi'r diffiniad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail grŵp a argymhellir gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a hefyd y teipolegau cam-drin plant yn rhywiol y cyfeirir atynt yn Adran 1 o'r strategaeth hon, a gafodd eu datblygu gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Nod y strategaeth hon yw ymdrin â phob math o gam-drin plant yn rhywiol, felly bydd camau sy'n deillio o'r argymhellion yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth derfynol ac yn cael eu cyflawni drwy'r strwythur arfaethedig fel y nodir yn Adran 4 o'r ddogfen hon.

## 2.5 Negeseuon allweddol mewn perthynas ag atal ac amddiffyn plant rhag cam-drin plant yn rhywiol

### Llais dioddefwyr-oroeswyr o’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Rhoddodd y Truth Project, a ddaeth i ben ym mis Hydref 2021, gyfle i fwy na 6,000 o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol rannu eu profiadau gyda’r Ymchwiliad ac awgrymu newidiadau. Ymhlith yr oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr a rannodd eu straeon:

Roedd y rhan fwyaf o’r goroeswyr yn fenywod, gyda 70% yn ystyried eu hunain yn fenywod, a 90% yn dod o gefndir ethnig gwyn. Roedd mwy na hanner y goroeswyr rhwng 40 a 59 oed. Roedd bron i hanner y goroeswyr yn byw gyda chyflwr a oedd yn effeithio ar eu bywydau bob dydd.

Roedd dwy ran o dair o’r goroeswyr rhwng 4 ac 11 oed pan ddechreuodd y cam-drin

Roedd dros hanner y goroeswyr wedi profi cyffwrdd rhywiol, a hanner wedi profi treiddiad. Roedd llawer wedi wynebu cam-drin corfforol, seicolegol ac emosiynol hefyd.

Cafodd y cam-drin effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd meddwl, gyda 88% o oroeswyr yn adrodd am broblemau megis iselder. Yn ogystal, adroddodd 53% effeithiau ar eu perthnasoedd, ac roedd 41% wedi profi effeithiau ar eu hysgol neu eu cyflogaeth. Ni wnaeth y rhan fwyaf o oroeswyr ddatgelu'r cam-drin ar yr adeg y digwyddodd, ond yn ddiweddarach. Rhannodd bron i 1 o bob 10 eu profiad am y tro cyntaf drwy'r Truth Project.

Tynnodd yr ymchwiliad sylw at effeithiau dwfn a pharhaol cam-drin plant yn rhywiol a phwysigrwydd darparu mannau diogel i oroeswyr rannu eu straeon a chael cymorth.

Cafodd bron i dri chwarter y goroeswyr eu cam-drin gan aelod o'r teulu neu rywun yr oeddent yn ei adnabod, gyda bron i hanner yn adrodd bod y cam-drin wedi digwydd yng nghartref eu teulu

Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd y Global Our Voice Survivor Survey (Protect Children, 2024) ym mis Tachwedd 2024, gan ddyfnhau ein dealltwriaeth o effaith cam-drin plant yn rhywiol ymhellach. Casglodd yr arolwg hwn ymatebion gan 22,285 o oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant o 109 o wledydd ac mewn 29 o ieithoedd, a dyma'r arolwg mwyaf o'i fath i gael ei gynnal erioed. Gofynnwyd cwestiynau penodol iawn am wybodaeth ddemograffig dioddefwyr a chyflawnwyr, y rhwystrau a'r galluogwyr i ddatgelu a chanlyniadau datgelu, canlyniadau ac effaith hirdymor cam-drin plant yn rhywiol a'r ffactorau sy'n hwyluso adferiad hirdymor ac nad ydynt yn ei hwyluso. Mae'r Crynodeb Gweithredol yn nodi: -

*"The survey results highlight the profound and lasting impacts of sexual violence against children, with 84% of survivors reporting long term consequences, including mental health issues and difficulty forming relationships. Many survivors face significant barriers to disclosure with 67% speaking out, but often years or decades after the abuse. Even after disclosing the abuse, 69% of the survivors did not receive support and 89% did not see a police investigation. The findings stress the urgent need for improved support systems, prevention efforts and stronger legal frameworks to better respond to the needs of survivors and prevent abuse."* (Protect Children, 2024, tudalen 1).

Mae'r arolwg hwn yn cynrychioli cyfraniad hanfodol at ddeall effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy syntheseiddio ac atgyfnerthu'r holl astudiaethau blaenorol. Mae'n rhoi llwyfan i leisiau goroeswyr ledled y byd, gan wneud achos cymhellol dros yr angen i wella ymatebion i lesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol ar raddfa fyd-eang, gan ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr yn unig. Mae'r arolwg yn dangos

yn glir, er gwaethaf gwahaniaethau diwylliannol, fod effeithiau cam-drin plant yn gyson yn gyffredinol. Mae'r ddealltwriaeth hon yn hanfodol wrth inni ymdrechu i ddarparu gwasanaethau teg a chynhwysol i gymunedau amrywiol, yn enwedig lle mae ymchwil yn brin a lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod wedi'i guddio a heb ei gydnabod.

### Rhwystrau i Ddatgelu

Mae rhesymau niferus pam nad yw plant yn datgelu cam-drin, gan gynnwys:

- Methu gweld bod yr hyn maen nhw'n ei brofi yn gam-drin.
- Ofni'r ymateb gan asiantaethau.
- Ofni cyhuddiadau gan y cyflawnwr.
- Ofni'r canlyniadau i'w hanwyliaid, gan gynnwys y cyflawnwr.

Mae adroddiad Allnock a Miller yn 2013 ar gyfer yr NSPCC, "No one noticed, no one heard,"[29] yn nodi hynny. Roedd gan y profiadau cadarnhaol hyn dair nodwedd allweddol: roedd y person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei gredu, cymerwyd rhai camau i'w amddiffyn (megis rhoi gwybod i weithiwr proffesiynol arall), ac fe gafodd gymorth emosiynol i'w helpu drwy'r broses. Mae pobl ifanc eisiau i rywun sylwi pan nad yw pethau'n iawn, gofyn pan fydd ganddo bryderon a'i glywed pan fydd yn datgelu.

Dim ond 10% o'r datgeliadau arweiniodd at brofiad cadarnhaol i bobl ifanc

Mae adroddiad y Panel Adolygu Diogelu Plant a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, "I wanted them all to notice: Protecting children and responding to child sexual abuse within the family environment", yn tynnu sylw at y ffaith bod ymarferwyr yn dibynnu bron yn llwyr ar blant i riportio eu camdriniaeth ar lafar cyn y gallant gymryd camau. Mae gan y ddibyniaeth hon oblygiadau sylweddol i blant di-eiriau a'r rhai nad ydynt yn gallu siarad eto. Ar ben hynny, nid yw plant yn cael cyfle i gyfathrebu'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw bob amser ac, yn aml, nid ydynt yn cael eu credu pan fyddant yn datgelu.

### Ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys adnabod cam-drin

Roedd y dystiolaeth a adolygwyd gan y Panel Adolygu Diogelu Plant yn ystyried yr ymateb yn Lloegr yn unig. Fodd bynnag, mae'r gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad hwn yn hynod drosglwyddadwy i ymarfer yng Nghymru ac yn adleisio tystiolaeth arall bod diffyg adnabod cam-drin rhywiol, diffyg cysondeb mewn ymateb a bod y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei dylanwadu'n gryf gan safon droseddol prawf.

[29] No one noticed, no one heard | NSPCC Learning

“This review reveals that the criminal standard of proof pervades decision making throughout the child protection system and beyond, which prevents many children who have suffered sexual abuse receiving the help and protection they need”.

Roedd dros draean yr adolygiadau’n cynnwys aelod o’r teulu sydd â hanes hysbys o droseddu rhywiol neu y gwyddys ei fod yn cyflwyno rhywfaint o risg o niwed rhywiol

Roedd yr adolygiadau’n cynnwys troseddwyr rhyw ac aelodau o’r teulu a oedd wedi cael eu herlyn o’r blaen am gam-drin rhywiol, gan gynnwys treisio aelodau o’r teulu, yn symud i mewn i gartref gyda phlant ifanc heb asesiad risg neu ymateb diogelu effeithiol yn cael ei roi ar waith. Yn aml roedd hyn yn cael ei waethygu gan ddealltwriaeth Llysoedd Teulu a’r Farnwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol.

Ymddengys nad oedd gan ymarferwyr wybodaeth ac adnoddau i’w cefnogi i ddeall sut y gallai hanes o drais rhywiol neu gam-drin plant yn rhywiol droi’n risg i blant yn yr amgylchedd teuluol.

Mae’r rhain yn adleisio canfyddiadau a nodir yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn Rhywiol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Mae’r adroddiad yn nodi straeon niferus gan ddioddefwyr-oroeswyr lle methodd gweithwyr proffesiynol â sylwi bod newidiadau mewn ymddygiad, anafiadau corfforol a materion eraill yn arwyddion bod y plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol.

**Pobl sy’n niweidio plant yn rhywiol**

Mae Strategy for Tackling Child Abuse (2021-2026) Llywodraeth y DU yn tynnu sylw at y ffaith bod ein dealltwriaeth o droseddwyr wedi’i gyfyngu i’r rhai sydd wedi’u hadnabod, ac mae’n debygol mai dim ond cyfran fach o’r holl droseddwyr yw’r rhain.

Mae pobl sydd ag euogfarnau am gam-drin plant yn rhywiol yn dod o bob cefndir, grŵp oedran, ethnigrwydd a ffydd, gan ei gwneud yn anodd adnabod troseddwyr rhyw yn y boblogaeth gyffredinol

Mae pobl sydd ag euogfarnau am gam-drin plant yn rhywiol yn dod o bob cefndir, grŵp oedran, ethnigrwydd a ffydd, gan ei gwneud yn anodd adnabod troseddwyr rhyw yn y boblogaeth gyffredinol.[30] Yn aml mae cymhellion i droseddu yn canolbwyntio ar ddiddordeb rhywiol mewn plant, sy’n gysylltiedig â chyfraddau ail-droseddu uwch. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill yn cyfrannu hefyd, gan gynnwys cymhellion rhywiol megis boddhad, diddordeb mewn gweithgarwch anghyfreithlon, agweddau problematig a defnyddio rhyw fel mecanwaith ymdopi, yn ogystal â chymhellion anrhywiol megis elw ariannol, misogynedd, hawl, grym a rheolaeth[31].

[30] Tackling Child Sexual Abuse Strategy 2021 - GOV.UK
[31] Tackling Child Sexual Abuse Strategy 2021 - GOV.UK

Mae cymhellion dros gyflawni cam-drin rhywiol yn amrywio'n fawr, gan gynnwys drwgweithredu cyffredinol, agweddau troseddol, materion rheoli dicter, diffygion agosatrwydd, unigrwydd, dewisiadau rhywiol, cyffro rhywiol i drais, hyper-rywioldeb ac awydd am rym a rheolaeth[32].

Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr yn adnabod eu dioddefwyr, gan gam-drin o sefyllfa o ymddiriedaeth neu rym o fewn teuluoedd yn aml, ymhlith ffrindiau neu mewn rolau proffesiynol

Yn 2024, cysylltodd mwy na 275,000 o bobl yn y DU â llinell gymorth Stop It Now Sefydliad Lucy Faithfull ac adnoddau hunangymorth ar-lein ynglŷn â'u hymddygiad ar-lein eu hunain neu ymddygiad ar-lein rhywun arall. Mae hyn yn tanlinellu natur eang y mater a phwysigrwydd gwasanaethau cymorth hygyrch.

Gellir atal cam-drin plant yn rhywiol cyn i blant gael niwed. Fodd bynnag, rhaid i strategaethau cam-drin plant yn rhywiol effeithiol ystyried '*trosedd a chyfiawnder*' fel un rhan o ymateb system gyfan. Mae dulliau atal ac ymateb sy'n gynhwysfawr ac yn ystyried pob lefel ecolegol-gymdeithasol (*unigol, rhyngbersonol, cymunedol a chymdeithasol)* ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol neu sydd wedi cyflawni cam-drin plant yn rhywiol yn hanfodol. Rydym yn gwybod beth yw'r ffactorau risg ac rydym yn gwybod beth sy'n gweithio i atal cam-drin plant yn rhywiol: Mae angen sbectrwm o ddarpariaeth, yn amrywio o wasanaethau atal cyffredinol/sylfaenol i ymyriadau eilaidd a thrydyddol.

Rydym yn gwybod bod pobl sy'n wynebu risg o gyflawni cam-drin plant yn rhywiol yn cael meddyliau neu deimladau rhywiol am blant fel arfer, ymhell cyn iddynt weithredu arnynt; a bod llawer o bobl yn cael meddyliau neu deimladau rhywiol am blant a byth yn gweithredu arnynt. Mae rhai pobl sy'n wynebu risg o gyflawni cam-drin plant yn rhywiol yn blant eu hunain ac mae gan lawer broblemau eraill sy'n cyd-ddigwydd y mae angen cymorth ar eu cyfer. Mae helpu oedolion a phlant sy'n cael y meddyliau hyn yn bwysig i helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol.

Un o'r heriau rydym yn eu hwynebu ar draws cymdeithas yw bod cam-drin plant yn rhywiol yn gallu bod yn anodd siarad amdano. Mae'n bwnc sydd â stigma'n perthyn iddo, felly mae pobl sydd â chwestiynau neu bryderon am eu meddyliau a'u teimladau tuag at blant, yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael help. Mae'r rhwystrau hyn nid yn unig yn eu hatal rhag cael help ond hefyd yn atal eraill rhag ymyrryd a'u cyfeirio at help a chymorth. Mae strategaethau a buddsoddiad i leihau'r rhwystrau hyn i ymddygiadau o ran cael help yn rhan hanfodol o'r ymdrech i atal cam-drin plant yn rhywiol.

[32] Chapter 3: Sex Offender Typologies | Office of Sex Offender Sentencing ...

### *Dulliau atal sylfaenol*

Gall siarad am gam-drin plant yn rhywiol fod yn anodd i bobl. Fodd bynnag, mae cam-drin rhywiol yn ffynnu mewn cyfrinachedd a distawrwydd. Mae angen inni wynebu'r realiti bod cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd. Dylai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth am gam-drin plant yn rhywiol a pha ffactorau a allai wneud cam-drin rhywiol yn fwy tebygol fod ar gael yn rhwydd.

Gallai adnoddau megis What you need to know about child sexual abuse | CSA Centre fod ar gael yn rhwyddach i gynulleidfaoedd cyffredinol. Dylai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd neu ymyriadau addysgol/iechyd generig geisio helpu i godi ymwybyddiaeth o ymddygiadau rhywiol iach, cydsyniad, perthnasoedd iach, y gyfraith a'r hyn y dylai pobl ei wneud os ydynt yn poeni am eu meddyliau neu eu teimladau eu hunain, neu ymddygiad rhywun arall. Bydd siarad am ba help y gellir ei ddarparu i bobl sy'n wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol mewn trafodaethau a mannau cyhoeddus yn helpu i leihau rhwystrau i gael help.

O ystyried bod cam-drin plant yn rhywiol yn fwy cyffredin nag y mae pobl yn ei feddwl, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn cael meddyliau a theimladau rhywiol am niweidio plentyn yn rhywiol hefyd. Mae codi ymwybyddiaeth o'r arwyddion hyn a pha help sydd ar gael i bobl cyn iddynt weithredu yn hanfodol ar lefel gyffredinol. Mae hyn oherwydd pan fydd person (oedolyn neu blentyn) yn cael meddyliau neu deimladau rhywiol tuag at blant, mae'n debygol y bydd yn ddryslyd am hyn ac ofn siarad amdano. Dylai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n hyrwyddo gwasanaethau diogel sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n wynebu risg o niweidio plant gyrraedd cynulleidfaoedd cyffredinol i sicrhau bod pobl yn gallu cael help cyn iddynt niweidio plentyn yn rhywiol.

### *Dulliau atal eilaidd*

Mae dulliau eilaidd yn targedu grwpiau neu bobl sy'n cyflwyno risgiau neu nodweddion penodol sy'n golygu eu bod yn wynebu risg uwch o fictimeiddio eraill neu sy'n agored i erledigaeth eu hunain. Mae rhaglenni fel Early Intervention yn Sefydliad Lucy Faithfull Cymru yn darparu help i blant a theuluoedd lle mae pryderon am gam-drin plant yn rhywiol. Darperir cymorth wedi'i deilwra i'r person sy'n wynebu risg o achosi niwed. Gallai hyn fod, er enghraifft, plentyn sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn yr ysgol, plant sydd wedi rhannu deunydd rhywiol y gwnaethant ei gynhyrchu eu hunain, neu aelodau o'r teulu lle mae pryderon am gam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd.

Dylai gweithwyr proffesiynol hyfforddedig ar draws gwasanaethau fod â'r adnoddau a'r offer i ddelio â pherson sy'n wynebu risg o gam-drin plentyn yn rhywiol, a'i atgyfeirio i gael help a chymorth pellach. Mae llinellau cymorth cyfrinachol a dienw, adnoddau hunangymorth ar-lein a rhaglenni ar gael i'r rhai sy'n agored i niwed neu

sy'n wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru, drwy Sefydliad Lucy Faithfull Cymru (Stop it Now ac, ar gyfer plant a phobl ifanc, Shore). Mae Sefydliad Lucy Faithfull Cymru yn darparu help a chymorth i aelodau o'r teulu hefyd drwy Parents Protect a gweithwyr proffesiynol sy'n pryderu am ymddygiad rhywun. Mae rhai therapyddion preifat yn gweithio ledled Cymru gyda phobl sydd eto i weithredu ar feddyliau am gam-drin plentyn yn rhywiol (StopSO UK » Tackling Sexual Abuse). Fodd bynnag, mae'r rhwystrau i gael help yn cynnwys ofnau ynghylch cyfrinachedd, canlyniadau cyfreithiol a chymdeithasol, costau ariannol, diffyg gwybodaeth neu ddryswch am y mater, diffyg ymwybyddiaeth o'r help sydd ar gael.

Mae angen gwneud llawer mwy o waith i ddeall sut beth ddylai ymyriadau fod a pha ymyriadau sy'n effeithiol wrth fynd i'r afael ag unrhyw gam-drin plant yn rhywiol ar draws pob cyd-destun (Kewley et al, 2023). O ystyried bod cam-drin plant yn rhywiol yn fwyaf cyffredin o fewn yr amgylchedd teuluol, mae angen brys i adnabod pobl yn y teulu sy'n wynebu risg o niweidio plant yn rhywiol ac i ddatblygu ymyriadau i atal cam-drin rhywiol. Gall Signs and indicators of child sexual abuse | CSA Centre gynorthwyo ymarferwyr lle mae ganddynt bryderon am y rhai o gwmpas plant neu ffactorau amgylcheddol a allai gynyddu'r bregusrwydd i gam-drin rhywiol.

***Dulliau atal trydyddol***

Mae dulliau trydyddol yn targedu pobl sydd eisoes yn hysbys i gyfiawnder troseddol neu systemau gofal cymdeithasol ac iechyd; mae'r rhan fwyaf o asiantaethau diogelu yn gweithredu yn y gofod hwn gan eu bod yn dechrau gweithio gyda phobl ar ôl i gam-drin gael ei nodi. Mae strategaethau yma yn canolbwyntio ar atal cam-drin plant yn rhywiol rhag digwydd eto, yn hytrach na'i atal yn y lle cyntaf.

Mae Cyngor Ewrop (2021) yn datgan mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ymateb i berson a gafwyd yn euog o droseddu rhywiol yw drwy ddull amlddisgyblaethol lle mae partneriaid yn rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau gyda'r weledigaeth gyffredin o reoli risg ac ailintegreiddio cymdeithasol effeithiol.

Yng Nghymru, wedi'i ddeddfu gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)[33] yn gorchymyn awdurdodau cyfrifol (yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf) i oruchwylio 42 o ardaloedd ledled Cymru a Lloegr a rheoli pobl a gafwyd yn euog o droseddau treisgar a rhywiol.

Mae MAPPA yn darparu model arfer da ar gyfer rheoli pobl ag euogfarnau rhywiol (McGuire et al, 2021) ac, mewn adolygiad diweddar (Lundrigan a Mann, 2023), canfuwyd bod cyfraddau aildroseddu profedig ar gyfer pobl sy'n ddarostyngedig i ofynion hysbysiadau rhywiol yn is nag amcangyfrifon blaenorol. Mae angen gofal,

[33] Multi-agency public protection arrangements (MAPPA): Guidance - GOV.UK

fodd bynnag, gan fod y rhain yn ymwneud â chyfraddau a ganfuwyd yn unig, ac rydym yn gwybod bod llawer mwy o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn nag sy'n cael eu canfod (Kewley a Karsna, 2025).

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS)[34] yng Nghymru yn darparu cyngor i lysoedd, yn gorfodi dedfrydau (dedfryd o garchar, gorchmynion trwydded a chymunedol) ac yn amddiffyn y cyhoedd drwy reoli pobl ledled Cymru sydd ag euogfarnau rhywiol. Wrth flaenoriaethu diogelwch y cyhoedd, mae Dull HMPPS o reoli pobl a gafwyd yn euog o droseddu rhywiol yn integreiddio rheoli risg ag adsefydlu. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn cael eu hailintegreiddio yn ôl i'r gymuned yn ddiogel ac yn hyrwyddo optimistiaeth ac atal yr ymddygiad.

Mae mwy o weithgarwch aflonyddu yn allweddol i strategaeth Llywodraeth y DU ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer ymateb i gam-drin o'r fath, lle mae: "Law enforcement and intelligence services have the capability to disrupt offending at scale, leaving no safe spaces for offenders" (Home Office, 2021:9). Fodd bynnag, mae angen hyfforddiant ar gyfer personél heddlu rheng flaen mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol ar draws holl weithwyr proffesiynol yr heddlu ond, i'r rhai mewn rolau arbenigol, mae deall yr arwyddion a'r dangosyddion a thactegau aflonyddu priodol i ymyrryd mewn cam-drin plant yn rhywiol yn hanfodol.

Mae'r Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol yn caniatáu i'r heddlu amddiffyn dioddefwr posibl o dan yr 'hawl i ddweud' o ystyried pryderon risg ac yn rhoi i'r cyhoedd yr 'hawl i ofyn' am wybodaeth am berson y mae ganddynt bryderon amdano. Dim ond y rhai sydd ag euogfarnau rhywiol fydd yn destun datgeliad a dim ond pan nodir risg i blentyn penodol dan sylw.

Mae Circles of Support and Accountability[35] yn ymyrraeth gymunedol adferol sy'n seiliedig ar gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, sy'n cefnogi unigolion risg uchel sydd ag euogfarnau rhywiol. Ei nod yw lleihau aildroseddu drwy gefnogi, monitro a hyrwyddo byw heb droseddu. Mae gwerthusiadau'n awgrymu canlyniadau cadarnhaol a'i fod yn gost-effeithiol.

### Atal cam-drin plant yn rhywiol

> Mae ymchwil yn dangos bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn cynyddu pa mor agored yw plentyn i gam-drin rhywiol yn sylweddol

[34] The HMPPS Approach to the Management and Rehabilitation of People Convicted of Sexual Offences - GOV.UK

[35] Circles of Support and Accountability Policy Framework - GOV.UK

Mae ACEs yn cynnwys profi trais, camdriniaeth neu esgeulustod; gweld trais yn y cartref neu yn y gymuned; a thyfu i fyny mewn aelwyd lle mae yna gamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu ansefydlogrwydd gan fod y rhieni wedi gwahanu neu garchariad. Gall y profiadau hyn gael effeithiau negyddol hirdymor ar iechyd, cyfleoedd a llesiant[36].

Mae atal cam-drin plant yn rhywiol yn y tymor hwy yn golygu sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i leihau'r tebygolrwydd y bydd ACEs yn digwydd neu i liniaru eu heffeithiau os ydynt eisoes wedi digwydd. Mae rhaglenni ymyrraeth gynnar yn gwneud cyfraniad hanfodol at yr ymdrech hon drwy fynd i'r afael â ffactorau risg cyn iddynt ddatblygu'n sefyllfaoedd niweidiol. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu addysg, adnoddau a chymorth emosiynol i deuluoedd, gan rymuso rhieni a gofalwyr i ddiwallu anghenion eu plant a thorri cylchoedd o gam-drin ac esgeulustod[37].

Mae plant sydd â pherthynas gadarnhaol â'u teuluoedd, lefel dda o hunan-barch, gwydnwch ac ymlyniadau cryf at eu gofalwyr yn llawer llai tebygol o brofi cam-drin plant yn rhywiol[38]. Gall adeiladu hunan-barch, gwydnwch, perthnasoedd cefnogol ac ymlyniadau cryf leihau'n sylweddol y tebygolrwydd o gam-drin plant yn rhywiol. Mae ymyrraeth gynnar ac amgylcheddau cefnogol yn hanfodol wrth feithrin y ffactorau amddiffynnol hyn ac atal cam-drin.

Ein nod yw codi ymwybyddiaeth ym mhob cymuned yng Nghymru am y niwed a achosir gan gam-drin plant yn rhywiol, sut i'w adnabod a sut i roi gwybod am bryderon. Mae hyn yn cynnwys adeiladu dealltwriaeth sy'n ystyriol o drawma o gam-drin plant yn rhywiol.

Yn Adran 3 y strategaeth hon ac Atodiad 1 y ddogfen hon, rydym yn disgrifio'r gydberthynas â meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sydd â chyfrifoldeb am bolisi mewn perthynas â meysydd megis dulliau sy'n ystyriol o drawma, gofal plant, chwarae, addysg, magu plant ac eraill a sut mae'r meysydd polisi hyn yn cyfrannu at atal cam-drin rhywiol a/neu leihau'r risg o gam-drin rhywiol yn digwydd.

**Diogelu plant a phobl ifanc pryd bynnag mae pryderon am gam-drin plant yn rhywiol**

Mae angen i'r gweithlu, gan gynnwys pawb sy'n darparu gweithgareddau i blant, gael cysylltiad rheolaidd â nhw, boed hynny mewn rôl anarbenigol neu arbenigol, i

[36] About Adverse Childhood Experiences | Adverse Childhood Experiences ...
[37] Child Abuse and Its Lasting Effects on Trust, Relationships, and ...
[38] Why Early Intervention Is Key to Preventing Child Abuse and Neglect

deimlo'n hyderus ynglŷn ag adnabod arwyddion cam-drin rhywiol ac i hysbysu'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol am y pryderon hynny.

Mae pob ymarferydd taledig neu ddi-dâl sy'n dod i gysylltiad rheolaidd ag oedolion, plant ac aelodau o'r cyhoedd angen hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol cynhwysfawr sy'n berthnasol i lefel y cyfrifoldeb am ddiogelu sydd ganddo o fewn ei rôl. Mae'r grwpiau o ymarferwyr mewn rolau taledig neu ddi-dâl sydd angen hyfforddiant diogelu yn cael eu hesbonio orau yn y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)[39].

Mae angen hyfforddiant ar bob ymarferydd a gwirfoddolwr ar y canlynol:

- Dangosyddion/arwyddion o bob math o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ymddygiadau y mae angen eu harchwilio ymhellach gan y gallent fod yn arwydd o gam-drin rhywiol
- Sut i roi gwybod am bryderon
- Sut i ymateb i ddatgeliadau
- Sut i gefnogi'r plentyn a'r teulu drwy'r broses
- Trothwyon ar gyfer atgyfeirio i ofal cymdeithasol plant

Mae angen i ymarferwyr sydd â rolau mwy arbenigol, er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol plant, gael yr hyfforddiant hwn ac, yn ogystal, maent angen hyfforddiant ar:

- Sut i asesu a rheoli'r risg o gam-drin rhywiol
- Sut i wrando ar blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gam-drin rhywiol neu sydd wedi profi cam-drin rhywiol, ac ymgysylltu â nhw
- Sut i gefnogi rhieni a gofalwyr drwy'r broses ymchwilio (troseddol a/neu amddiffyn plant)

Mae angen i ymarferwyr gael mynediad at gyngor ac adnoddau arbenigol i gefnogi eu gwaith gyda phlant, teuluoedd ac, o bosibl, y cyflawnwr cam-drin rhywiol, yn dibynnu ar eu rôl. Mae angen goruchwyliaeth a chymorth myfyriol rheolaidd gan eu sefydliadau a'u harweinwyr arnynt, gan gynnwys mesurau i sicrhau eu llesiant.

Mae angen canllawiau clir ynghylch y trothwy ar gyfer ymyriadau amddiffyn plant, a ddylai fod yn seiliedig ar 'gydbwysedd tebygolrwydd' yn hytrach na dibynnu ar y trothwy troseddol. Dylid cynghori gweithwyr proffesiynol bod rhaid i asiantaethau eraill gael eu cynnwys mewn trafodaethau strategaeth a chymryd rhan ar y pwynt cynharaf er mwyn galluogi asiantaethau i gasglu darlun cynhwysfawr o'r plentyn a'r teulu. Yn ogystal, mae angen cymorth ar ymarferwyr i ymateb yn gyson drwy weithredu'r llwybr cenedlaethol ar gyfer ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a'r llwybr cenedlaethol ar gyfer ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol.

[39] Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol | Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae angen inni sicrhau nad yw'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol yn cyfleu cyfrifoldeb am y cam-drin yn amhriodol i'r plentyn neu'r person ifanc. **Ni all** plant gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain.

Mae hyrwyddo ac annog trafodaethau agored ymhlith plant a phobl ifanc am berthnasoedd iach a darparu mynediad at wybodaeth gywir am gam-drin plant yn rhywiol a ble i gael help yn hanfodol. Mae addysgu rhieni, gofalwyr ac oedolion eraill o gwmpas plant am y niwed a achosir gan gam-drin plant yn rhywiol, darparu gwybodaeth gywir am sut beth yw cam-drin plant a'u cyfeirio at ble y gallant gael help yn bwysig hefyd.

Mae cysylltiad arwyddocaol rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol. Mae ymchwil yn dangos bod cam-drin corfforol neu gam-drin plant yn rhywiol yn bresennol mewn aelwydydd lle mae trais domestig yn digwydd hefyd, mewn tua 30% i 60% o achosion[40]. Mae'r gorgyffwrdd hwn yn awgrymu bod plant sy'n byw mewn amgylcheddau lle mae trais domestig yn gyffredin yn wynebu risg uwch o brofi cam-drin eu hunain.

Gall plant sy'n dyst i gam-drin domestig gael eu heffeithio mewn ffordd debyg i'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn uniongyrchol. Gall y trawma o fod yn dyst i drais, gan gynnwys trais rhywiol, arwain at broblemau emosiynol, seicolegol ac ymddygiadol. Ar ben hynny, yn aml mae'r patrwm o drais yn y cartref yn gwaethygu dros amser, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn dod yn ddioddefwyr uniongyrchol yn y pen draw neu'n wynebu risg uwch o arddangos/dynwared ymddygiadau niweidiol yn eu perthnasoedd eu hunain.[41]

Mae ffactorau megis tlodi, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl ac ynysigrwydd cymdeithasol yn gyffredin mewn aelwydydd sy'n profi cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin plant, gan gynnwys cam-drin rhywiol. Mae'r ffactorau hyn yn gwaethygu risg ac effaith cam-drin, gan greu cylch o drais a thrawma.

Mae deall y cyswllt hwn yn hanfodol ar gyfer datblygu strategaethau atal ac ymyrryd effeithiol. Drwy fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol, economaidd a seicolegol ehangach sy'n cyfrannu at drais domestig a cham-drin plant, gallwn weithio tuag at dorri'r cylch hwn a diogelu plant sy'n agored i niwed.

Mae angen inni ddeall mwy am y rhwystrau sy'n atal datgelu a rhoi gwybod am bryderon a datblygu ffyrdd o oresgyn y rhwystrau hyn.

[40] Child Abuse and Domestic Violence: Connections and Common Factors
[41] Relationship Between Domestic Violence and Child Abuse - VAWnet

Bydd ymgysylltu ag unigolion sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol neu a gafwyd yn euog o droseddau o'r fath i ddeall eu cymhellion a'u hymddygiadau yn helpu i wella sut rydym yn asesu ac yn rheoli risg.

Mae angen i'n hymateb i blant sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol neu sy'n cael meddyliau am gam-drin plant eraill yn rhywiol fod yn gymesur. Bydd sicrhau bod y llwybr cenedlaethol o ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael ei roi ar waith yn llawn yn sicrhau bod lefel o gysondeb ledled Cymru.

## 2.6 Negeseuon allweddol mewn perthynas â chymorth i bawb sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru

Comisiynodd Llywodraeth Cymru y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol i fapio'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael ledled Cymru ar gyfer pawb sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol.

Comisiynwyd y gwaith i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i nodi gwasanaethau anarbenigol ac arbenigol sydd ar gael ledled Cymru, ac mae'n darparu dealltwriaeth o heriau yn y sector hwn.

Nododd yr astudiaeth ystod eang o wasanaethau ymroddedig sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd yng Nghymru drwy arlwy amrywiol sy'n arloesol yn aml.

Nododd 78 o wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a'u teuluoedd yng Nghymru, gyda thraean (27) wedi'u lleoli yng Nghymru a gweddill y gwasanaethau wedi'u lleoli yn Lloegr ond ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru. Roedd pump o'r gwasanaethau yng Nghymru yn canolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol yn unig, tra bod deuddeg gwasanaeth – bron i hanner yr holl wasanaethau yng Nghymru – yn canolbwyntio ar drais rhywiol, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Roedd gan ddeg gwasanaeth gylch gwaith ehangach a oedd yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol.

Ymhlith y gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, roedd y mwyafrif llethol yn gweithredu ar lefel leol, gyda bron i hanner yn darparu cymorth o fewn un ardal awdurdod lleol. Roedd dros bedwar o bob pump yn y sector nid-er-elw. Roedd mwy o wasanaethau i blant nag i oedolion sy'n ddioddefwyr a goroeswyr, a hyd yn oed llai i rieni plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol.

> Er bod 10% o'r boblogaeth yng Nghymru wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod (sy'n cyfateb i 25,000 o blant bob blwyddyn), ychydig iawn o'r rhain sy'n cael mynediad at gymorth. I ddiwallu'r angen hwn, byddai angen i bob gwasanaeth yng Nghymru gefnogi tua 11,500 o ddioddefwyr a goroeswyr

Roedd gan rai ardaloedd fwy o ddarpariaeth leol nag eraill; er enghraifft, roedd gan Gaerdydd saith gwasanaeth, ond un gwasanaeth yn unig oedd yn Sir Fynwy, Torfaen a Chaerffili. Fodd bynnag, gyda 27 o wasanaethau i gyd, mae gan Gymru fwy o ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr o gymharu â'r rhan fwyaf o Loegr wrth ystyried darpariaeth gwasanaethau sy'n gymharol â'r nifer amcangyfrifedig o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Dim ond dau wasanaeth oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol. O ystyried bod dros 10% o boblogaeth Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn Asiaidd, Du, ethnigrwydd cymysg, neu Wyn 'arall', mae'n bwysig gwella'r cymorth sydd ar gael i ddiwallu anghenion penodol pobl ethnig leiafrifol yn yr ardaloedd hyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau nad oeddent yn gallu cadw i fyny â'r galw, gan olygu bod bron pob un yn gweithredu gyda rhestrau aros ar gyfer pobl sy'n ceisio cymorth. Tynnodd gwasanaethau sylw at effeithiau negyddol rhestrau aros ar ddioddefwyr a goroeswyr, yn enwedig ar eu hiechyd meddwl a'r gallu i fanteisio ar gymorth yn dilyn hynny. Roedd llawer o wasanaethau'n wynebu heriau yn ymwneud â chyllid oherwydd natur tymor byr grantiau a chontractau. O ganlyniad, nid oedd rhai gwasanaethau'n teimlo'n gwbl hyderus y gallent gynnal eu darpariaeth gwasanaethau ar y lefelau presennol, a oedd yn cael ei briodoli hefyd i'r galw cynyddol am gymorth a natur gystadleuol cyllid.

Disgrifiodd llawer o wasanaethau heriau o ran cynnal adnoddau digonol – yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff – i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd. Yn ogystal, roedd gwasanaethau'n gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol eraill ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, yn aml yn rhad ac am ddim ac ar ben eu gwaith o ddydd i ddydd.

Nododd yr ymchwilwyr 5 blaenoriaeth ar gyfer llunwyr polisi, cyllidwyr a chomisiynwyr:

1. Darparu cyllid i gefnogi hyfforddiant ac uwchsgilio priodol i weithwyr proffesiynol, p'un a ydynt yn gweithio mewn gwasanaethau cymorth arbenigol neu yn y rhwydwaith proffesiynol ehangach.

Mae angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol arbenigol i gadw'r wybodaeth yn gyfredol a datblygu eu sgiliau mewn meysydd megis gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol a ffyrdd o gefnogi plant. Hefyd, o ystyried rôl ganolog gweithwyr proffesiynol anarbenigol mewn asiantaethau statudol pan fydd pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn codi, mae angen hyfforddiant arnynt ar frys fel y gellir gwneud ymateb effeithiol, cydgysylltiedig i blant ac oedolion yr effeithir arnynt gan y cam-drin hwnnw.

2. Sicrhau cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau i gynnal eu darpariaeth bresennol a darparu cymorth amserol.

Dylai hyn gynnwys cyllid amlflwyddyn anghyfyngedig, gan alluogi gwasanaethau i ddarparu cymorth sy’n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau ar yr adeg y mae ei angen arnynt; ni ddylai gwasanaethau fod yn gweithredu gyda rhestrau aros hir neu yng nghyd-destun ffrydiau cyllido anghyson tymor byr.

3. Gan weithio’n agos gyda gwasanaethau, darparu cyllid sy’n eu galluogi i ehangu a datblygu, fel y gallant ddiwallu anghenion amrywiol eu defnyddwyr gwasanaethau presennol a grwpiau defnyddwyr newydd.

Gallai gwasanaethau ddefnyddio’r cyllid hwn i ymestyn eu cyrhaeddiad; i gynllunio, datblygu a gwerthuso cymorth newydd, gyda chyfranogiad eu defnyddwyr gwasanaethau; ac i archwilio gwahanol fodelau o gymorth, fel y gallant addasu i anghenion unigol defnyddwyr gwasanaethau.

4. Darparu cyllid a chymorth mewn perthynas â seilwaith gwasanaethau.

Byddai hyn yn galluogi gwasanaethau i wella eu systemau casglu data a dadansoddi; i gefnogi a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, heb leihau’r cymorth y maent yn ei ddarparu i’w defnyddwyr gwasanaethau eu hunain; i ddatblygu a rhannu fframweithiau ac offer asesu ansawdd ac effaith; ac i ddatblygu a rhannu dysgu ac ymarfer ynghylch ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau.

5. Gwella arbenigedd cyllidwyr a chomisiynwyr o ran cyllido gwasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yn effeithiol.

Gallai hyn gynnwys mynediad at wybodaeth ac arweiniad, hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi cyllidwyr a chomisiynwyr i gynnal asesiadau anghenion gwybodus.

Mae’r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y galw am ddarpariaeth gwasanaethau yn llawer mwy na’r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif bod 10% o bobl wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod, byddai tua 12,500 o oedolion sy’n ddioddefwyr/goroeswyr ar gyfer pob gwasanaeth lleol sy’n eu cefnogi yng Nghymru.

Mae’r rhan fwyaf o wasanaethau cymorth yn y sector nid-er-elw, sy’n wynebu ansefydlogrwydd oherwydd dulliau cyllido. Nid yw plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac oedolion sy’n ddioddefwyr/goroeswyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn bob amser, gan rwystro adferiad effeithiol o gam-drin plant yn rhywiol. Heb fynediad amserol at gymorth priodol, bydd effaith y cam-drin yn debygol o waethygu.

Er mwyn mynd i’r afael â hyn, mae angen ystyried trefniadau cyllido mwy cynaliadwy ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn golygu cydweithio ag asiantaethau a chomisiynwyr sy’n darparu ac yn cyllido gwasanaethau yng Nghymru ar hyn o bryd,

gan gynnwys y Swyddfa Gartref, GIG Cymru, awdurdodau lleol, yr heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs). Yn ogystal, dylai hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr mewn rolau anarbenigol sy'n cefnogi plant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr/goroeswyr gynnwys canllawiau ar y ffordd orau o gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyhoeddi canllawiau i gomisiynwyr gynorthwyo gyda Funding and commissioning child sexual abuse services | CSA Centre.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn tynnu sylw at nifer o faterion sy'n gysylltiedig â phobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys diffyg data ynghylch a oes gan blant sy'n profi cam-drin rhywiol nodweddion gwarchodedig megis anabledd. Mae'r bwlch data hwn yn ei gwneud yn anodd deall profiadau'r plant hyn yn llawn.

Mae rhai grwpiau, megis plant LHDTC+, y rhai ag anableddau synhwyraidd, corfforol a/neu ddysgu, plant ifanc iawn a phlant o gefndiroedd ethnig leiafrifol, yn llawer mwy agored i gam-drin rhywiol.

Dylai ymyriadau fod yn sensitif yn ddiwylliannol ac yn ddatblygiadol a chynnwys anghenion unigryw plant o leiafrifoedd ethnig, gan ymgorffori dulliau cymunedol a chynnwys arweinwyr cymunedol dibynadwy. Mae cymorth effeithiol yn gofyn am sensitifrwydd diwylliannol a dealltwriaeth o'r heriau penodol sy'n wynebu'r plant hyn a'u teuluoedd, a allai wynebu bregusrwydd ychwanegol oherwydd ffactorau megis hiliaeth, tabŵs diwylliannol ac anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Mae dull croestoriadol yn hanfodol, gan ystyried sut mae hunaniaethau sy'n gorgyffwrdd (e.e. ethnigrwydd, rhywedd, anabledd) yn effeithio ar brofiadau o gam-drin a mynediad at gymorth.

Mae plant LHDTC+ yn wynebu risg uwch o gam-drin rhywiol oherwydd gwahaniaethu, ynysigrwydd cymdeithasol a diffyg cymorth. Yn aml maent yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddatgelu camdriniaeth, gan gynnwys ofn peidio â chael eu credu, stigma a phryderon y bydd eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd yn cael eu datgelu.

Gall effaith cam-drin rhywiol ar blant LHDTC+ fod yn ddifrifol, gan arwain at gyfraddau uwch o broblemau iechyd meddwl megis iselder, gorbryder a synio am hunanladdiad. Mae cymorth effeithiol i blant LHDTC+ yn gofyn am ddull cynhwysol sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â'u profiadau a'u heriau unigryw, gan greu amgylcheddau diogel a chadarnhaol. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad gorfodol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae gan ACRh o ansawdd uchel gyfraniad pwysig i'w wneud o ran cefnogi dysgwyr i adnabod

perthnasoedd a dealltwriaeth iach a diogel, a datblygu parch at wahaniaethau rhwng pobl. Mae'n galluogi dysgwyr i reoli risgiau, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal perthnasoedd iach a chwarae gwahanol rolau ac ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau. Gall y dysgu a'r profiad yn y Maes hwn gefnogi dysgwyr i ddod yn unigolion iach a hyderus. Mae angen i Addysg Cydberthynas a Rhyw siarad am berthnasoedd iach mewn ffordd sy'n atseinio gyda phob person ifanc, waeth beth fo'u hunaniaeth rhywedd a'u cyfeiriadedd rhywiol.

Mae plant anabl yn wynebu risg sylweddol uwch o gam-drin rhywiol o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, yn enwedig y rhai ag anableddau deallusol neu iechyd meddwl. Mae'r plant hyn yn wynebu rhwystrau ychwanegol i roi gwybod am gamdriniaeth, megis anawsterau cyfathrebu, dibyniaeth ar ofalwyr (efallai mai nhw yw'r camdrinwyr) a diffyg mecanweithiau adrodd hygyrch.

Mae diffyg amlwg o ran gwasanaethau a chymorth i ddioddefwyr sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigryw plant anabl, gan arwain at effeithiau negyddol hirdymor megis anhwylder straen ôl-drawmatig, gorbryder ac iselder. Rhaid i ymyriadau effeithiol fod yn gynhwysol, gan sicrhau hygyrchedd a darparu hyfforddiant arbenigol i'r rhai sy'n gweithio gyda'r plant hyn. Mae codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i ofalwyr, addysgwyr a gweithwyr proffesiynol am arwyddion cam-drin a bregusrwydd penodol plant ag anableddau yn hanfodol ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan.

Mae plant di-eiriau'n wynebu risg uwch o gam-drin rhywiol oherwydd eu heriau cyfathrebu, gan ei gwneud yn haws i gamdrinwyr gamfanteisio arnynt. Maent yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth ddatgelu cam-drin, gan nad oes ganddynt y gallu i gyfathrebu'r hyn sydd wedi digwydd, a gall eu hymdrechion i fynegi trallod gael eu camddeall neu eu hanwybyddu. Yn aml mae'r plant hyn yn dibynnu'n fawr ar ofalwyr ar gyfer eu hanghenion bob dydd, gan gynyddu eu bregusrwydd os mai'r gofalwr yw'r camdriniwr.

Mae cymorth effeithiol i blant di-eiriau yn gofyn am ddulliau arbenigol, gan gynnwys dulliau cyfathrebu amgen (e.e. iaith arwyddion, dyfeisiau cyfathrebu) a gweithwyr proffesiynol hyfforddedig sy'n gallu adnabod ac ymateb i arwyddion o gam-drin. Rhaid i ofalwyr, addysgwyr a gweithwyr proffesiynol fod yn wyliadwrus am arwyddion di-eiriau o drallod neu newidiadau mewn ymddygiad a allai fod yn arwydd o gam-drin.

Mae babanod a phlant bach yn hynod agored i gam-drin rhywiol oherwydd eu dibyniaeth lwyr ar ofalwyr a'u hanallu i gyfathrebu. Mae canfod cam-drin rhywiol yn y grŵp oedran hwn yn arbennig o heriol, gan y gall arwyddion fod yn gynnil ac yn hawdd eu camgymryd am broblemau eraill. Mae angen i weithwyr meddygol proffesiynol a gofalwyr fod yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion neu symptomau anarferol.

Gall effaith cam-drin rhywiol ar fabanod a phlant bach fod yn ddifrifol ac yn hirdymor, gan effeithio ar eu datblygiad corfforol, emosiynol a seicolegol. Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol i liniaru effeithiau hirdymor cam-drin, gan gynnwys triniaeth feddygol, cymorth seicolegol a sicrhau diogelwch y plentyn. Mae angen hyfforddiant arbenigol ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r grŵp oedran hwn i adnabod ac ymateb yn effeithiol i arwyddion o gam-drin. Dylai cymorth fod ar gael hefyd i rieni a gofalwyr amddiffynnol/nad ydynt yn gamdriniol i gefnogi eu plentyn drwy adferiad ac adeiladu gwydnwch.

# Adran 3: Amcanion Strategol a Chamau Blaenoriaeth

Yn ystod y gwaith ymgysylltu rydym wedi'i wneud yn 2023 a 2024 gyda rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi cyd-gynhyrchu pedwar amcan strategol:

- Atal cam-drin plant yn rhywiol
- Amddiffyn plant pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol
- Cefnogi plant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol
- Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol

Ar gyfer pob amcan, gwnaethom gyd-gynhyrchu camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir y mae angen inni eu cymryd. Mae ein syniadau wedi'u nodi isod o dan bob un o'r pedwar amcan strategol. Mae partneriaid cyflawni allweddol wedi'u nodi hefyd o dan bob un o'r amcanion.

Ers cwblhau'r gwaith ymgysylltu hwn, rydym wedi nodi maes arall y mae angen inni fynd i'r afael ag ef fel blaenoriaeth: datblygu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Dyma un o argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) ac mae angen iddo gwmpasu rhanddeiliaid lluosog sydd ag arbenigeddau amrywiol, er enghraifft, casglu a dadansoddi data. Mae hon yn dasg anhygoel o gymhleth o ystyried nifer yr asiantaethau sy'n rhan o'r gwaith, y systemau data a ddefnyddir gan bob un a'r llwybrau adrodd lluosog. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys mapio'r wybodaeth sydd ar gael am bobl sydd ag euogfarnau rhywiol yn erbyn plant.

Am y rhesymau hyn, credwn fod angen grŵp ffrwd waith pwrpasol arnom sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, uwch arweinwyr sefydliadau a'r rhai sydd â gwybodaeth arbenigol am fethodolegau casglu, dadansoddi ac adrodd data i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

## 3.1 Atal cam-drin plant yn rhywiol

| **Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni** | **Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hirdymor hyn** |
|---|---|
| 1. Creu a chynnal diwylliant o onestrwydd a dealltwriaeth lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i siarad am bob math o gam-drin plant yn rhywiol.<br>2. Mae plant a phobl ifanc a'r oedolion o'u cwmpas yn cael eu grymuso i gadw plant yn ddiogel rhag cam- | • Datblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sy'n targedu plant, rhieni, gofalwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol.<br>• Canoli a mapio adnoddau presennol ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a chymunedau i sicrhau mynediad rhwydd.<br>• Nodi bylchau mewn adnoddau a chreu deunyddiau cynhwysol, am ddim mewn gwahanol gyfryngau ac ieithoedd, gan gwmpasu pob math o gam-drin plant yn rhywiol. |

| | |
|---|---|
| drin rhywiol ac yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon.<br>3. Mae cymunedau'n adnabod, yn ymateb ac yn rhoi gwybod am bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.<br>4. Mae ymateb effeithiol i'r rhai sy'n cam-drin plant yn rhywiol, neu sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol, sy'n atal niwed pellach. | • Darparu gwybodaeth gywir i oedolion yng Nghymru am gam-drin plant yn rhywiol, perthnasoedd iach ac addysg rhyw.<br>• Grymuso cymunedau i drafod, adnabod a rhoi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol yn hyderus.<br>• Codi ymwybyddiaeth o fregusrwydd plant i gam-drin rhywiol oherwydd trawma ac adfyd heb eu datrys.<br>• Cynnal digwyddiadau cymunedol ar atal cam-drin plant yn rhywiol a chadw plant yn ddiogel.<br>• Ymgynghori â phlant a phobl ifanc i greu mannau mwy diogel mewn cartrefi, parciau, ysgolion a chlybiau.<br>• Cefnogi unigolion sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol i atal niwed rhag digwydd.<br>• Cefnogi unigolion a gafwyd yn euog o achosi niwed rhywiol i blant i atal niwed rhag digwydd eto.<br>• Cynnig gwasanaethau a gwybodaeth i atal pobl ifanc rhag achosi niwed rhywiol i eraill.<br>• Ymgysylltu â'r Unedau Atal Trais a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ledled Cymru a mapio'r camau gweithredu perthnasol o'u cynlluniau a fydd yn cyfrannu at weledigaeth y strategaeth hon.<br>• Hyrwyddo defnyddio iaith briodol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol, gan osgoi beio dioddefwyr.<br>• Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gallu adnabod pob math o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin o fewn y teulu, cam-drin gan frodyr a chwiorydd, ymddygiad rhywiol niweidiol, camfanteisio a cham-drin ar-lein.<br>• Codi ymwybyddiaeth ac adeiladu diwylliant sy'n ystyriol o drawma o fewn cymunedau Cymru.<br>• Hysbysu rhieni a gofalwyr am adnoddau cymorth i blant sydd wedi profi cam-drin rhywiol neu sy'n wynebu risg o gam-drin rhywiol.<br>• Addysgu pob plentyn yng Nghymru am berthnasoedd iach, diogelwch a rhoi gwybod am bryderon. |
| **Camau blaenoriaeth ar gyfer 2025-2028**<br><br>• Ymgysylltu ag arweinwyr polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru sydd â blaenoriaethau trawsbynciol a chyfrannu at gyflawni'r amcan hwn, er enghraifft, diogelwch ar-lein. | |

- Ymgysylltu â'r Unedau Atal Trais a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ledled Cymru a mapio'r camau gweithredu perthnasol o'u cynlluniau a fydd yn cyfrannu at weledigaeth y strategaeth hon
- Datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n esbonio sut y byddwn yn diwallu anghenion codi ymwybyddiaeth pob cynulleidfa.
- Mapio a chanoli adnoddau presennol ar gyfer pob cynulleidfa a nodi unrhyw fylchau.
- Datblygu a lansio ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o gyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol, y niwed mae'n ei achosi, sut i adnabod cam-drin rhywiol a rhoi gwybod am bryderon.
- Gweithredu'r llwybr ar gyfer ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygwyd ar ei chyfer yn ystod y cynllun gweithredu cenedlaethol blaenorol.

**Camau blaenoriaeth ar gyfer 2029-2032**

- Datblygu adnoddau pellach sydd eu hangen i godi ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd targed.
- Archwilio dulliau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a mapio cyfleoedd ymgysylltu presennol i sicrhau bod pob cymuned yn cael cynnig teg.
- Gweithio gyda gwasanaethau sy'n helpu i atal troseddau rhywiol megis y gwasanaeth prawf, yr heddlu a chyfiawnder ieuenctid, a'u cefnogi.
- Darparu gwasanaethau a gwybodaeth i weithio gyda phobl ifanc i atal niwed rhywiol i blant eraill.
- Gwerthuso effaith gweithredu'r llwybr cenedlaethol ar gyfer ymatebion cymesur i ymddygiad rhywiol niweidiol.

**Camau blaenoriaeth ar gyfer 2033-2035**

- Ymgynghori â phlant a phobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr/goroeswyr ynglŷn â sut i greu mannau mwy diogel lle maent yn treulio amser gyda'i gilydd, er enghraifft, cartref, parciau, ysgolion, clybiau ac ar-lein.
- Datblygu a lansio ymgyrch genedlaethol sy'n annog pobl i gael cymorth os ydynt yn poeni am eu meddyliau a'u hymddygiad sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol.

**Y partneriaid cyflawni allweddol ar gyfer yr amcan hwn yw:**

- Meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru megis diogelwch ar-lein a chaethwasiaeth fodern
- Arweinwyr cymunedol
- Gwasanaethau cymunedol
- Sefydliadau'r trydydd sector
- Sefydliadau statudol megis iechyd, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr amcanion Atal ac Ymateb o ran y ‘cynulleidfaoedd’ y mae angen inni godi eu hymwybyddiaeth/sicrhau bod ganddynt y lefel ofynnol o hyfforddiant. Er mwyn sicrhau eglurder, rydym wedi gwahanu’r rhain.

O dan yr amcan Atal, byddwn yn targedu gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sy’n darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc, neu’n dod i gysylltiad â nhw yn ystod eu gwaith, ond nad oes ganddynt unrhyw rôl arbenigol o ran diogelu plant. Gallai hyn gynnwys gwirfoddolwyr mewn grŵp Ysgol Sul, hyfforddwyr pêl-droed, lleoliadau chwarae a gofal plant sydd y tu allan i’r broses gofrestru ac eraill.

O dan yr amcan Ymateb, byddwn yn canolbwyntio ar y gweithwyr proffesiynol hynny sydd â dyletswydd sefydliadol i roi gwybod am bryderon am gam-drin ac esgeulustod (awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill megis yr heddlu, iechyd, addysg) a gweithwyr proffesiynol megis gweithwyr cymdeithasol mewn gwasanaethau plant, arweinwyr diogelu dynodedig ym maes iechyd ac addysg, ac eraill sydd â rôl arbenigol o ran ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

## 3.2 Diogelu plant a phobl ifanc pryd bynnag mae pryderon am gam-drin plant yn rhywiol

| Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni | Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni’r canlyniadau hirdymor hyn |
|---|---|
| 1. Mae pob gweithiwr proffesiynol yn cael hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol ar lefel sy’n briodol i’w rolau a gallant nodi ac ymateb i gam-drin rhywiol, cefnogi plant a’u teuluoedd ac asesu a rheoli risgiau sy’n gysylltiedig â cham-drin rhywiol.<br>2. Mae rhieni a gofalwyr yn cael cymorth amserol os yw eu plentyn yn wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol, yn cael ei gam-drin yn rhywiol neu wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, neu’n cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol niweidiol.<br>3. Mae ymateb amlasiantaethol cyson i bryderon ynghylch cam-drin | • Cyfrannu at yr adolygiad sy’n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru o effeithiolrwydd presennol y ddyletswydd sefydliadol orfodol i adrodd ac ystyried gorfodi unigolion i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Cryfhau canllawiau presennol i ymarferwyr am bob math o gam-drin plant yn rhywiol a’r dangosyddion risg sy’n gysylltiedig â phobl sy’n wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Gweithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol i wreiddio llwybr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru.<br>• Mapio adnoddau presennol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, canoli mynediad at y rhain a nodi a mynd i’r afael â bylchau.<br>• Archwilio’r potensial ar gyfer sefydlu ymarferwyr arbenigol (hybiau rhithwir) ledled Cymru a pha gyllid fyddai ei angen i’w sefydlu.<br>• Cwmpasu gwerth ychwanegol cipluniau’r NSPCC i gynorthwyo hyn a pha gyllid fyddai ei angen.<br>• Annog plant a phobl ifanc yng Nghymru i roi gwybod yn hyderus am unrhyw risg neu brofiad o gam-drin rhywiol i berson y gellir ymddiried ynddo drwy ddarparu |

<table>
<tr><td>plant yn rhywiol ledled Cymru.<br>4. Gall gweithwyr proffesiynol gael mynediad at gyngor arbenigol i gefnogi eu gwaith gyda phlant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.<br>5. Mae plant a phobl ifanc yn gwybod y byddant yn cael eu gweld, eu clywed a'u deall os ydynt yn cael eu cam-drin yn rhywiol neu'n teimlo eu bod yn wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol</td><td>gwybodaeth glir am ba gamau a gymerir os byddant yn datgelu i oedolyn y gellir ymddiried ynddo drwy godi ymwybyddiaeth, addysg, a deunyddiau addysgiadol hygyrch.<br>• Diwygio ac ail-lansio canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Camau blaenoriaeth ar gyfer 2025-2028<br><br>• Cyfrannu at yr adolygiad o effeithiolrwydd presennol y ddyletswydd sefydliadol orfodol i adrodd ac ystyried gorfodi unigolion i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Mapio a chanoli adnoddau presennol i gefnogi gweithwyr proffesiynol yn yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Lansio a gwreiddio llwybr cenedlaethol ar gyfer yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Llywodraeth Cymru i gynnal Sioeau Teithiol y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn y Gogledd a'r De a fydd yn canolbwyntio ar flwyddyn gyntaf y strategaeth.<br>• Datblygu a chostio cynnig ar gyfer sefydlu canolfannau arbenigwyr rhithwir yng Nghymru, gan gynnwys darparu Rhaglen Ymarferwyr Arweiniol Cymru Gyfan.<br>• Diwygio ac ail-lansio canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol.<br>•</td></tr>
<tr><td colspan="2">Camau blaenoriaeth ar gyfer 2029-2032<br><br>• Datblygu/cyrchu deunyddiau hyfforddi, goruchwylio ac ymarfer myfyriol i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rhai sydd eu hangen.<br>• Datblygu cynllun hyrwyddo ar gyfer adnoddau canolog a dechrau olrhain/monitro defnydd.<br>• Comisiynu ymchwil i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu plant o gymunedau wedi'u hymyleiddio ac argymhellion ar gyfer camau sydd angen eu cymryd i'w goresgyn.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| • Datblygu a chyflwyno cynhadledd flynyddol i weithwyr proffesiynol yn 2029 sy'n canolbwyntio ar dair blynedd gyntaf y strategaeth.<br>• Monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu'r llwybr cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol |
| **Camau blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer 2033-2035**<br><br>• Adolygu cynlluniau peilot canolfannau amddiffyn plant amlasiantaeth yn Lloegr i lywio datblygiad pellach yng Nghymru.<br>• Hyrwyddo a lledaenu adnoddau ar gyfer ieuenctid ar rwystrau i gam-drin plant yn rhywiol, rhoi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol ac ati a'r ymchwil/argymhellion ar gyfer camau i oresgyn rhwystrau sy'n wynebu plant o gymunedau wedi'u hymyleiddio.<br>• Gwerthuso canlyniadau gweithredu'r llwybr cenedlaethol ar gyfer yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Gwerthuso gweithrediad y llwybr cenedlaethol ar gyfer ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Gwerthuso canlyniadau gweithredu'r fframwaith hyfforddi. |
| **Y partneriaid cyflawni allweddol ar gyfer yr amcan hwn yw:**<br>• Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>• Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru<br>• Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br>• Sefydliadau statudol megis gofal cymdeithasol plant, yr heddlu, iechyd ac addysg |

## 3.3 Cefnogi plant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol

| Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni | Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hirdymor hyn |
|---|---|
| 1. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd wedi cael ei effeithio gan gam-drin plant yn rhywiol fynediad at gymorth priodol ac amserol sy'n diwallu eu hanghenion.<br>2. Gall pob gwasanaeth ac ymarferydd ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i blant, pobl ifanc a'r rhai o'u cwmpas sydd wedi | • Gofalwch fod dealltwriaeth glir a manwl o ddarpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan bob math o gam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru.<br>• Sicrhau mynediad at wasanaethau cwnsela a chymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol, gan hwyluso gwella ac adferiad pan fo angen.<br>• Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth a hyrwyddo pwysigrwydd y sector gwirfoddol wrth ddarparu adferiad, cwnsela a chymorth i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol. |

| | |
|---|---|
| cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol.<br>3. Mae gan deuluoedd a'r rhai o gwmpas plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol fynediad at gymorth sy'n diwallu eu hanghenion. | • Sicrhau bod gan unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, boed hynny mewn gwasanaethau cyffredinol neu arbenigol, yr wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau sy'n berthnasol i'w rolau i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol (gweler uchod, ystyrir hyn fel rhan o ddatblygu'r fframwaith hyfforddi).<br>• Annog y rhai sy'n gweithio gyda phlant yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol i ddefnyddio arferion sy'n ystyriol o drawma yn unol â'r Fframwaith sy'n Ystyriol o Drawma.<br>• Ymgorffori teuluoedd a gofalwyr yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yn y broses o gynllunio cymorth.<br>• Cefnogi teuluoedd a gofalwyr i adnabod a rheoli effeithiau cam-drin plant yn rhywiol gyda dull sy'n ystyriol o drawma a datblygu eu dealltwriaeth o anghenion trawma eu plant a'u hanghenion trawma eu hunain.<br>• Cefnogi teuluoedd a gofalwyr i reoli effeithiau cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd gyda dull sy'n ystyriol o drawma.<br>• Sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol pan fydd aelod o'r teulu yn cael ei arestio am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys troseddau ar-lein.<br>• Datblygu canllawiau i alluogi teuluoedd a gofalwyr i gael mynediad at gymorth a chyngor cyfreithiol i'w galluogi i lywio'r systemau llysoedd teulu a throseddol ar ôl achos o gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Deall ymhellach brofiadau teuluoedd a gofalwyr yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a datblygu adnoddau ac offer seicoaddysg i'w defnyddio'n gyson gyda theuluoedd fel y cam cyntaf yn y broses o gefnogi. |
| **Blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2025-2028**<br><br>• Gan ddefnyddio'r gwaith 'Support Matters' a gomisiynwyd yng Nghymru a gwybodaeth fapio arall a gynhyrchwyd gan y rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol a Straen Trawmatig Cymru, nodi darlun manwl o'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant) i blant a theuluoedd a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru. | |

| |
|---|
| • Ymgysylltu â chomisiynwyr i ystyried sut rydym yn sefydlu model mwy cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth.<br>• Ymgysylltu ag arweinwyr polisi perthnasol sydd â blaenoriaethau trawsbynciol ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn, er enghraifft, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a Straen Trawmatig Cymru. |
| **Blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2029-2032**<br><br>• Comisiynu ymchwil i ddeall ymhellach brofiadau teuluoedd a gofalwyr yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a sut y gallwn hyrwyddo'n well ddull cymorth teulu cyfan sy'n ystyriol o drawma.<br>• Datblygu neu gyrchu adnoddau ac offer seicoaddysg a'u defnyddio'n gyson gyda theuluoedd fel y cam cyntaf yn y broses gymorth.<br>• Datblygu canllawiau i alluogi teuluoedd a gofalwyr i gael mynediad at gymorth a chyngor cyfreithiol i'w galluogi i lywio'r systemau llysoedd teulu a throseddol ar ôl achos o gam-drin plant yn rhywiol. |
| **Blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2032-2035**<br><br>• Canoli adnoddau ac offer seicoaddysg a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael.<br>• Gwerthuso effeithiolrwydd gweithredu'r llwybr cenedlaethol ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol.<br>• Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r canllawiau i deuluoedd a gofalwyr ar y systemau llysoedd teulu a throseddol. |
| **Y partneriaid cyflawni allweddol ar gyfer yr amcan hwn yw:**<br><br>• Meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru megis Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) a'u ffrwd waith Ymosodiadau Rhywiol<br>• Sefydliadau'r trydydd sector<br>• Sefydliadau statudol megis gofal cymdeithasol plant, iechyd a'r heddlu<br>• Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>• Darparwyr a chomisiynwyr eraill gwasanaethau cymorth. |

## 3.4 Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

| Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni | Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hirdymor hyn |
|---|---|
| 1. Creu a chynnal diwylliant o onestrwydd a dealltwriaeth, ac amgylchedd lle mae oedolion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i siarad am gam-drin rhywiol a | • Annog oedolion sydd wedi profi cam-drin rhywiol i rannu eu straeon.<br>• Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, teuluoedd ac oedolion yng Nghymru yn deall effaith hirdymor cam-drin plant yn rhywiol. |

| | |
|---|---|
| ddigwyddodd iddynt pan oeddent yn blant.<br>2. Mae pob person ifanc a'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol yn cael mynediad at gymorth wrth iddynt bontio i fod yn oedolyn a thu hwnt.<br>3. Mae pob gwasanaeth ac ymarferydd yn darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i oedolion sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin rhywiol pan oeddent yn blant neu'n bobl ifanc. | • Cydnabod anghenion datblygiad pobl ifanc a risgiau sy'n gysylltiedig â cham-drin rhywiol mewn polisïau ac arferion.<br>• Darparu ymateb cyson i bobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol ledled Cymru gael cymorth a diogelu.<br>• Sicrhau bod pobl ifanc 18-25 oed yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yn gallu cael mynediad at ofal priodol drwy wasanaethau digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol ac iechyd meddwl.<br>• Sicrhau bod oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau cwnsela a gwasanaethau cymorth cysylltiedig a fydd yn helpu gyda gwella ac adferiad pan fo angen<br>• Cynyddu gwelededd ac adnabyddiaeth gwasanaethau cymorth i oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, gan bwysleisio rôl y sector gwirfoddol mewn adferiad a chwnsela.<br>• Egluro cyfrifoldebau gofal cymdeithasol i oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas ag oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.<br>• Sicrhau mynediad at wasanaethau cymorth i unigolion a ddangosodd ymddygiad rhywiol niweidiol pan oeddent yn blant, gan ganolbwyntio ar adeiladu ffactorau amddiffynnol yn ystod eu pontio i fod yn oedolyn a thu hwnt.<br>• Sefydlu grŵp prosiect Ymholiadau Arferol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant i helpu pob ymarferydd i ofyn i oedolion yn rheolaidd am gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Datblygu canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch meini prawf cymhwysedd, gofal a chymorth i oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys capasiti sefyllfaol.<br>• Gwella'r ymateb i bobl ifanc a'u teuluoedd yr effeithir arnynt gan bob math o gam-drin rhywiol a chefnogi'r pontio i fod yn oedolyn gyda gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion cymorth penodol. Mae'r rhain yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:<br><br>a. Datblygu fforymau ledled Cymru ar gyfer oedolion sydd â phrofiad bywyd o gam-drin plant yn |

| | |
|---|---|
| | rhywiol fel bod llais goroeswyr yn cael ei glywed a'i fod yn fecanwaith ar gyfer ymgysylltu ystyrlon<br>b. Sefydlu grwpiau profiad bywyd rhanbarthol yn benodol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys y rhai mewn rhannau gwledig o Gymru.<br>c. Datblygu a gweithredu llwybr Cymru Gyfan yn benodol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol.<br>d. Archwilio Pecyn Cymorth Prifysgol Manceinion ar gyfer defnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol gyda phobl ifanc. |

**Camau blaenoriaeth ar gyfer 2025-2028**

- Sefydlu grŵp prosiect Ymholiadau Arferol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant i helpu pob ymarferydd i ofyn i oedolion yn rheolaidd am gam-drin plant yn rhywiol.
- Datblygu canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch meini prawf cymhwysedd, gofal a chymorth i oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys capasiti sefyllfaol.
- Defnyddio'r gwaith 'Support Matters' a gomisiynwyd yng Nghymru a gwybodaeth fapio arall a gynhyrchwyd gan y rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol a Straen Trawmatig Cymru i nodi darlun manwl o'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant).
- Nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a chynnal dadansoddiad anghenion a fydd yn ffurfio argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Camau blaenoriaeth ar gyfer 2029-2031**

- Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Dioddefwyr-oroeswyr (sydd i'w sefydlu i gefnogi cyflawni'r strategaeth hon) i ddatblygu fforymau ledled Cymru ar gyfer oedolion sydd â phrofiad bywyd o gam-drin plant yn rhywiol fel bod llais goroeswyr yn cael ei glywed a bod mecanwaith ar gyfer ymgysylltu ystyrlon
- Ymgysylltu ag arweinwyr polisi perthnasol sydd â blaenoriaethau trawsbynciol a chyfrannu at gyflawni'r amcan hwn, er enghraifft, SARCs a Straen Trawmatig Cymru.

**Camau blaenoriaeth ar gyfer 2032-2035**

- Gwella'r ymateb i bobl ifanc a'u teuluoedd yr effeithir arnynt gan bob math o gam-drin rhywiol a chefnogi'r pontio i fod yn oedolyn gyda gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion cymorth penodol.

| **Y partneriaid cyflawni allweddol ar gyfer yr amcan hwn yw:** |
|---|
| • Meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru megis Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) a'u ffrwd waith Ymosodiadau Rhywiol<br>• Sefydliadau'r trydydd sector<br>• Sefydliadau statudol megis gofal cymdeithasol plant, gofal cymdeithasol i oedolion, iechyd a'r heddlu<br>• Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>• Darparwyr a chomisiynwyr eraill gwasanaethau cymorth |

## 3.5 Blaenoriaeth – Datblygu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol

| **Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni** | **Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hirdymor hyn** |
|---|---|
| 1. Mae set ddata graidd y cytunwyd arni sy'n galluogi dadansoddi cwmpas a chyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru ar lefel genedlaethol.<br>2. Defnyddir y set ddata graidd i fonitro a gwerthuso'r effaith mae'r strategaeth hon yn ei chael mewn meysydd allweddol.<br>3. Mae'r set ddata graidd yn llywio'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y strategaeth hon ac yn ein galluogi i flaenoriaethu a ffocysu adnoddau'n fwyaf effeithiol. | • Mapio'r data cyfredol a gasglwyd, gan bwy, pa mor aml ac i ble mae hyn yn cael ei adrodd.<br>• Dadansoddi'r hyn mae setiau data presennol yn ei ddweud wrthym a mapio bylchau yn ein gwybodaeth.<br>• Mireinio mesurau data presennol a datblygu mesurau data newydd sy'n llenwi'r bylchau a nodwyd.<br>• Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lywio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth ac i lywio polisi a chyflawniad yn y dyfodol. |
| **Camau blaenoriaeth ar gyfer 2025-2028**<br><br>• Sefydlu grŵp ffrwd waith sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r sector statudol a'r trydydd sector, academyddion, arbenigwyr casglu, datblygu a dadansoddi data arbenigol.<br>• Mapio data presennol a nodi unrhyw fylchau yn ein sylfaen wybodaeth.<br>• Cwblhau dadansoddiad o'r bylchau a nodwyd a darparu adroddiad i Lywodraeth Cymru. | |
| **Camau blaenoriaeth ar gyfer 2029-2032**<br><br>• Mireinio mesurau presennol lle bo angen. | |

| |
|---|
| • Archwilio mesurau eraill a fyddai'n llywio polisi ac ymarfer ymhellach ac ystyried sut y gellid datblygu a gwreiddio'r rhain.<br>• Treialu casglu unrhyw fesurau newydd. |
| **Camau blaenoriaeth ar gyfer 2033 i 2035**<br><br>• Adolygu a mireinio mesurau<br>• Cyfrannu at werthuso effaith y strategaeth ar ganlyniadau i bobl yng Nghymru. |
| **Y partneriaid cyflawni allweddol ar gyfer yr amcan hwn yw:**<br><br>• Arbenigwyr casglu a dadansoddi data o fewn asiantaethau a Llywodraeth Cymru<br>• Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (gan fod hyn yn gysylltiedig â'r gwaith mae'r Bwrdd wedi comisiynu Prifysgol Fetropolitan Manceinion i'w wneud gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol)<br>• Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>• Sefydliadau statudol megis gofal cymdeithasol plant, yr heddlu ac iechyd |

## 3.6 Blaenoriaeth – Datblygu a gwreiddio dull ac ymateb system gyfan i gam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru

Ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth, byddwn yn sefydlu dau grŵp camau blaenoriaeth a fydd yn mynd ati yn y lle cyntaf i ddatblygu a gweithredu dull cenedlaethol o weithredu llwybr cam-drin plant yn rhywiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hefyd fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Llwybr Ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a'r fframwaith hyfforddi yn gamau blaenoriaeth trawsbynciol o bedwar nod strategol y strategaeth, a byddant yn cynnig y mecanwaith i ddarparu ymateb cyson i gam-drin plant yn rhywiol a hyfforddiant ynghylch dangosyddion, adnabod, adrodd, ymateb i ddatgeliadau, mathau o gam-drin plant yn rhywiol a sut i gefnogi plant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr i wella o gam-drin ac felly mae'n cwmpasu'r pedwar amcan strategol.

Bydd y grŵp camau blaenoriaeth yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys cynrychiolaeth o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, sefydliadau statudol a'r trydydd sector, Gofal Cymdeithasol Cymru, cadeiryddion y pedwar grŵp ffrydiau gwaith ac arweinwyr polisi perthnasol o Lywodraeth Cymru.

### Dull system gyfan o ymdrin â hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol




## Blaenoriaeth – Gweithredu llwybr cenedlaethol ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol

Ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth, byddwn yn sefydlu grŵp camau blaenoriaeth a fydd yn datblygu a gweithredu llwybr cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Bydd y grŵp camau blaenoriaeth hwn yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys cynrychiolaeth o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, sefydliadau statudol a'r trydydd sector a chadeiryddion y pedwar grŵp ffrydiau gwaith.

Mae datblygu ymateb cyson i gam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru yn gofyn am arweinyddiaeth a chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth fframwaith hyfforddi cenedlaethol a set ddata graidd.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y rhaglenni gwaith hyn i sicrhau cynllunio a gweithredu cyson.

# Adran 4: Cyflwyno'r strategaeth: dull system gyfan

## 4.1 Dull system gyfan

Mae angen dull cydweithredol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yn effeithiol. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen inni weithio ar draws llywodraethau, o fewn Llywodraeth Cymru, gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'u partneriaid cyfansoddol, sefydliadau'r trydydd sector, oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr, plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a chymunedau.

Er mwyn atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb yn effeithiol iddo, mae'n hanfodol ein bod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau hawliau plant i fywyd, addysg a rhyddid rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed arall ac yn cael ein cefnogi i adeiladu gwydnwch gan y bydd y gwaith hwn yn ein cefnogi i gyflawni ein gweledigaeth hirdymor.

Mae sawl ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith bod mwy o blant yn agored i gam-drin rhywiol. Mae'r rhain yn cynnwys cael mwy nag un profiad niweidiol yn ystod plentyndod; byw mewn tlodi; peidio â mynychu addysg neu gyrhaeddiad isel mewn addysg; diffyg cefnogaeth gan y teulu; byw y tu allan i'r teulu, er enghraifft, bod mewn gofal; ac eraill.

Mae'r meysydd polisi hyn yn hanfodol bwysig wrth greu cymdeithas lle mae plant yn cael eu cefnogi'n dda, a lle mae unrhyw brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael eu hatal neu eu lliniaru, gan wneud cyfraniad anuniongyrchol ond pwysig at gyflawni ein gweledigaeth.

Mae rhai meysydd polisi megis Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn cyfrannu'n uniongyrchol at atal cam-drin plant yn rhywiol drwy fynd i'r afael â misogynedd ac annog ffocws ar berthnasoedd iach a thrwy gefnogi dioddefwyr-oroeswyr trais rhywiol. Bydd pobl sydd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol yn wynebu risg uwch o brofi trais rhywiol mewn perthynas.

Mae Atodiad 1 o'r ddogfen hon yn esbonio'r gydberthynas rhwng y strategaeth hon a strategaethau, cynlluniau a meysydd polisi/ffrydiau gwaith eraill y Llywodraeth.

Mae cynlluniau trawsbynciol yn cynnwys:

- Y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol
- Y Cynllun Gweithredu LHDTC+
- Y Cynllun Hawliau Pobl Anabl
- Y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol

Bydd gan y meysydd polisi allweddol a restrir isod i gyd gynrychiolaeth ar grŵp cynghori mewnol i'w sefydlu o dan y strategaeth hon.

## Troseddu a Chyfiawnder

Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru (gan gynnwys llysoedd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai) heb ei datganoli, felly Senedd a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdani. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys y canlynol:

**Deddf Troseddau Rhywiol 2003** yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu troseddau rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n diffinio ac yn troseddoli gwahanol droseddau rhywiol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau hefyd ar gyfer gofynion hysbysu mewn perthynas â phobl ag euogfarnau rhywiol a gorchmynion sifil i reoli'r risg a achosir gan bobl ag euogfarnau rhywiol.

Mae Rhan 2 y Ddeddf yn ymwneud â rheoli pobl ag euogfarnau rhywiol. Mae'n sefydlu:

- Gofynion Hysbysu: Rhaid i droseddwyr rhywiol a gafwyd yn euog roi gwybod i'r heddlu yn rheolaidd am fanylion personol, gan gynnwys eu cyfeiriad, cynlluniau teithio ac unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau.
- Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol: Gall y gorchmynion sifil hyn osod cyfyngiadau ar unigolion i atal niwed rhywiol, megis cyfyngu ar y defnydd o'r rhyngrwyd neu gyswllt â phlant heb oruchwyliaeth.
- Gorchmynion Risg Rhywiol: Yn berthnasol i unigolion na gafwyd yn euog ond yr ystyrir eu bod yn peri risg o niwed rhywiol, gan ganiatáu ymyrraeth ragweithiol.

Mae'r mesurau hyn yn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i fonitro a rheoli troseddwyr yn effeithiol o fewn y gymuned.

Mae **Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 a Deddf Cyfathrebu 2003** yn ei gwneud yn drosedd i anfon (drwy rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus) llythyrau anweddus, sarhaus neu fygythiol, negeseuon neu gyfathrebiadau eraill, cyfathrebiadau electronig, neu erthyglau eraill sy'n sarhaus iawn neu o natur anweddus neu fygythiol gyda'r bwriad o achosi trallod neu orbryder.

Mae **Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022** yn cryfhau gofynion hysbysu. Mae'n cyflwyno rhwymedigaethau mwy trwyadl i droseddwyr roi gwybod am weithgareddau penodol a newidiadau yn eu hamgylchiadau ac mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cael awdurdod ehangach i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth ymhlith pobl sy'n destun gofynion hysbysu.

Sefydlodd **Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003** Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae MAPPA yn darparu fframwaith i wahanol asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau prawf a gwasanaethau

cymdeithasol, gydweithio wrth asesu a rheoli'r risgiau a berir gan droseddwyr rhywiol a threisgar. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i amddiffyn y cyhoedd.

Mae'r **Bil Troseddu a Phlismona** yn cyflwyno ystod o fesurau sydd â'r nod gryfhau'r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a throseddau rhywiol eraill. Mae darpariaethau allweddol yn cynnwys ymgorffori dau argymhelliad o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn y gyfraith: dosbarthu meithrin perthynas amhriodol fel ffactor gwaethygol statudol mewn dedfrydu troseddau rhyw yn erbyn plant a chreu rhwymedigaeth gyfreithiol i unigolion dynodedig roi gwybod am gam-drin a amheuir (mae'r olaf yn berthnasol yn Lloegr yn unig). Mae'r bil yn mynd i'r afael hefyd â throseddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu deunydd cam-drin plant yn rhywiol, a meddu ar ddeunydd o'r fath, ac yn ceisio ffurfioli 'Cyfraith Sarah' drwy roi sail statudol i'r cynllun datgelu troseddwyr rhyw yn erbyn plant. Cynigir troseddau ychwanegol hefyd sy'n ymwneud â voyeuriaeth a chymryd delweddau personol heb gydsyniad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llawn â'r Ymchwiliad Cenedlaethol a argymhellir yn archwiliad y Farwnes Casey ac a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU, i archwilio camfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc ar sail grŵp. Er mai argymhellion ar gyfer meysydd o'r system cyfiawnder troseddol a gedwir yn ôl yw llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad, mae'r ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn un amlasiantaethol sy'n cynnwys meysydd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru megis addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag adrannau Llywodraeth y DU i wreiddio argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA).

Yn ogystal, yn Llywodraeth Cymru, rydym yn gweithio gyda'r tîm troseddu a chyfiawnder a phlismona yng Nghymru ynghylch camau atal ac amddiffyn sy'n cael eu cymryd gan yr heddlu a'r llysoedd, a deddfwriaeth sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr.

**Caethwasiaeth fodern**

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw camfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae ffrydiau gwaith o fewn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Swyddfa Gartref. Yn Llywodraeth Cymru, mae'r tîm Diogelu ac Eiriolaeth a'r tîm Caethwasiaeth Fodern yn gweithio gyda'i gilydd ar ein hymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio troseddol. Gall pobl fod yn ddioddefwyr un neu'r ddau fath o gamfanteisio. Mae caethwasiaeth fodern yn cwmpasu camfanteisio'n rhywiol ar oedolion, camfanteisio troseddol, caethwasanaeth domestig, llafur gorfodol a masnachu at unrhyw un o'r dibenion hyn hefyd.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn pwyntio'n gryf at y cysylltiad rhwng trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol.

Mae amcanion a dyheadau'r glasbrint a'r strategaeth VAWDASV yn cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion a dyheadau'r strategaeth hon. Er enghraifft, herio agweddau at drais rhywiol; codi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol; sicrhau bod gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr; a sicrhau bod pob dioddefwr yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol, o ansawdd uchel, a arweinir gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau, croestoriadol ac ymatebol ledled Cymru.

Mae'r tîm Diogelu ac Eiriolaeth sy'n ysgrifennu'r strategaeth ddrafft hon yn cael ei gynrychioli ar grŵp ffrydiau gwaith Plant a Phobl Ifanc a grŵp ffrydiau gwaith Pobl Hŷn y Glasbrint VAWDASV.

**Diogelwch ar-lein**

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos bod hon yn dirwedd sy'n ehangu a newid yn gyflym lle mae plant a phobl ifanc yn profi cam-drin plant yn rhywiol.

Nod Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein – Hwb (llyw.cymru) yw rhoi gwybodaeth, sgiliau a strategaethau rhagorol i'n plant a'n pobl ifanc yn y meysydd hyn a gwybod pryd i gael help a chymorth a ble i ddod o hyd iddynt. Mae'n esbonio y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ganolbwyntio ar dri maes allweddol: diogelwch ar-lein, seiberwydnwch a diogelu data.

Mae'r tîm yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg, sy'n cynnwys y cynnydd cyflym mewn Deunyddiau Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM) a gynhyrchir gan AI drwy AI Cynhyrchiol newydd: Cadw dysgwyr yn ddiogel: canllawiau diogelu ar-lein ar gyfer ysgolion (i'w gyhoeddi hydref 2024). Mae canllaw Llywodraeth Cymru ac UKCIS, 'Ymateb i achosion o rannu delweddau noeth: diogelu a chefnogi plant a phobl ifanc, wedi'i ddiweddaru yn 2024 i adlewyrchu cynnydd mewn achosion blacmel rhywiol a delweddau a gynhyrchir gan AI sy'n targedu plant dan 18 oed. Mae datblygu dysgu proffesiynol a rhannu adnoddau i gefnogi ymarferwyr addysg gyda materion diogelu digidol yn flaenoriaeth barhaus.

Mae'r tîm wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein hefyd ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol y gellir eu cyrchu'n rhad ac am ddim ar wefan Hwb Cadw'n ddiogel ar-lein – Hwb. Un o'r prif heriau sy'n wynebu'r oedolion hynny sy'n cefnogi plant ac yn eu cadw'n ddiogel yw eu

dealltwriaeth o dechnoleg, sut y gellir ei defnyddio i gam-drin plant yn rhywiol a pha mor gyfredol yw eu dealltwriaeth.

Mae’r tîm wedi datblygu cyfres o ddeunyddiau addysgu i’w cyflwyno mewn ysgolion ac yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ganddynt fecanweithiau diogelwch ar-lein cadarn ar waith.

Mae’r tîm yn cysylltu â Llywodraeth y DU mewn perthynas â’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Byddwn yn gweithio’n agos gyda’r tîm hwn i gyflwyno elfennau o’r strategaeth hon.

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn mynd i’r afael â’r heriau a achosir gan dechnolegau digidol yng nghyd-destun troseddau rhywiol. Mae’n ei gwneud yn drosedd i ‘seiberfflachio’, anfon delweddau rhywiol digymell yn electronig, a thrwy hynny ehangu cwmpas y troseddau a all arwain at gofrestru a monitro. Mae sawl darn arall o ddeddfwriaeth ynghylch cymryd, gwneud, dosbarthu a meddu ar ddelweddau anweddus o blant/ffug-ffotograffau, delweddau pornograffig eithafol, "pornograffi dial", gan gynnwys Deddf Diogelu Plant 1978; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Cyfiawnder Troseddol a’r Llysoedd 2015; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

**Addysg**

Mae ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn gwneud cyfraniad hanfodol at adeiladu gwydnwch mewn plant a phobl ifanc sy’n lleihau bregusrwydd, gan leihau’r risg o gam-drin rhywiol. Mae sawl cynllun a strategaeth sy’n nodi’r disgwyliadau sydd gan Lywodraeth Cymru y bydd ysgolion a lleoliadau eraill yn cefnogi teuluoedd ac yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Canllawiau Ysgolion Bro yn cynghori ysgolion sut y gallant ymgysylltu â theuluoedd, cymunedau a phartneriaethau amlasiantaeth i gefnogi anghenion eu dysgwyr a’u teuluoedd a bod o fudd i’r gymuned ehangach. Mae hyn yn galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad at gymorth i atal problemau rhag gwaethygu. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd neu debyg ac mae’r rôl hon yn darparu cymorth sylweddol ac yn cynorthwyo teuluoedd i gael mynediad at adnoddau i fynd i’r afael â thlodi, darparu cymorth rhianta a chyfeirio at wasanaethau cymunedol eraill megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos y gall dulliau iechyd cyhoeddus ehangach o ymdrin â misogynedd gael effaith sylweddol ar ymddygiadau sy’n niweidiol yn rhywiol neu a allai ddod yn niweidiol yn rhywiol. Mae Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW.CYMRU, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn amlinellu’r camau y bydd Llywodraeth Cymru,

gan weithio gyda phartneriaid, yn eu cymryd i atal ac ymateb i broblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol (HSB) (www.diogelu.cymru) mewn lleoliadau addysg.

Mae tystiolaeth yn dangos mai merched a menywod ifanc yw prif darged aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gyda dysgwyr LHDTC+ a dysgwyr ag ADY yn wynebu risg uchel hefyd. Nod y cynllun gweithredu yw adlewyrchu natur aflonyddu rhywiol fel mater croestoriadol ac, wrth wneud hynny, ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr megis dysgwyr Du ac ethnig leiafrifol, LHDTC+, niwroamrywiol ac anabl. Mae llais pobl ifanc wrth wraidd cynllunio'r ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad gorfodol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'n gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi dysgwyr i adnabod perthnasoedd iach a diogel a deall a datblygu parch at wahaniaethau rhwng pobl. Mae'n galluogi dysgwyr i reoli risgiau, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal perthnasoedd iach a chwarae gwahanol rolau ac ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau. Gall y dysgu a'r profiad yn y maes hwn gefnogi dysgwyr i ddod yn unigolion iach a hyderus.

Mae un rhan o'r Cod ACRh yn canolbwyntio ar 'Grymuso, diogelwch a pharch' gan gynnwys:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyniad a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
- sut a ble i gael gwybodaeth, help a chymorth
- sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch at bawb.

Mae Gwella cadernid digidol mewn addysg: cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein – Hwb (llyw.cymru) yn egluro'r gwaith mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i wella diogelwch ar-lein i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos mai cam-drin rhywiol ar-lein yw'r math o gam-drin plant yn rhywiol sy'n tyfu fwyaf.

Mae tîm Hwb wedi datblygu cyfres sylweddol o ddeunyddiau ategol i blant, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol (nid gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau addysg yn unig).

Maent yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y cynnydd cyflym mewn cam-drin plant rhywiol a gynhyrchir gan AI drwy AI Cynhyrchiol newydd. Yn ddiweddar, maent wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer ysgolion, 'Ymateb i achosion o rannu delweddau noeth: diogelu a chefnogi plant a phobl ifanc' sy'n adlewyrchu cynnydd mewn achosion blacmel rhywiol a delweddau a gynhyrchir gan AI sy'n targedu plant dan 18 oed. Mae datblygu dysgu proffesiynol a

rhannu adnoddau i gefnogi ymarferwyr gyda materion diogelu digidol yn flaenoriaeth barhaus.

Mae plant oedran ysgol yn treulio cyfran sylweddol o'u bywydau mewn lleoliadau addysgol, felly mae gan feysydd polisi Addysg o fewn Llywodraeth Cymru, ysgolion a lleoliadau addysgol eraill gyfraniad sylweddol i'w wneud at ddiogelu plant rhag pob math o gam-drin.

Mae gan awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ddyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt y gallai plentyn fod yn profi camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, neu ei fod yn wynebu risg o hynny.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru, [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (llyw.cymru)], wedi'i fwriadu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad addysg neu asiantaeth gysylltiedig ac a fyddai'n elwa ar ddeall y broses ddiogelu mewn ysgolion, a'r system ehangach.

Mae'r canllaw'n nodi'r mesurau diogelu cadarn y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc eu rhoi ar waith. Er enghraifft, bod ag Arweinydd Diogelu Dynodedig, arferion recriwtio diogel a hyfforddiant diogelu. Mae'n cynnwys arweiniad ar sut i ymateb i bryderon am weithiwr proffesiynol hefyd.

Mae ysgolion a lleoliadau addysg yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc ynghylch eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol hefyd, gan liniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chefnogi eu hadferiad o drawma.

Mae'r Fframwaith ar wreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol [WG42005 (llyw.cymru)] a gyhoeddwyd yn 2021 yn nodi sut mae'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol roi sylw i'r Fframwaith wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu, strategaethau a pholisïau eraill sy'n effeithio ar lesiant dysgwyr, staff ac eraill sy'n gweithio yn amgylchedd yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £13.6m yn y flwyddyn bresennol i gefnogi gweithredu'r Fframwaith, sy'n cynnwys cyllid i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen ymyriadau mwy arbenigol i sicrhau eu bod yn cael ymateb priodol mewn modd amserol (mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc); a chyllid i gefnogi gwelliannau ac ehangu gwasanaeth cwnsela'r ysgol a'r gwasanaeth cwnsela cymunedol, sy'n gweld tua 12,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn.

### Gofal Plant a Chwarae

Mae plant yn elwa'n fawr ar gymryd rhan mewn gweithgareddau gofal plant a chwarae o ansawdd uchel. Gall hyn hyrwyddo cyfle cyfartal, datblygiad gwybyddol

plentyn, ei sgiliau cymdeithasol a'i lesiant, adeiladu gwydnwch a lleihau/lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae'r gweithlu gofal plant a chwarae yn bartneriaid hollbwysig wrth gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth. Maent yn treulio cryn dipyn o amser gyda phlant a phobl ifanc, felly maent mewn sefyllfa dda i adeiladu perthnasoedd ymddiriedol a mannau diogel i blant ddatgelu niwed.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'u hadolygu a'r wybodaeth ddiogelu wedi'i chryfhau. Rydym wedi bod yn cyfrannu at yr adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau sy'n diffinio pa leoliadau fydd ac na fydd yn destun rheoleiddio ac arolygu.

Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith mewn lleoliadau gwaith chwarae. Rydym wedi gweithio gyda'r sector chwarae i adolygu'r Cod Ymarfer Diogelu, canllawiau anstatudol ar gyfer unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau ledled Cymru nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac sy'n disgyn y tu allan i'r ddyletswydd sefydliadol i adrodd a roddir ar awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol.

**Cymorth i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal**

Gall plant a phobl ifanc sy'n byw mewn trefniadau gofal amgen fod yn rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gall eu hamgylchiadau eu gwneud yn dargedau i droseddwyr rhywiol, sy'n aml yn manteisio ar anghenion emosiynol y plant hyn – anghenion megis perthyn, cysur a gofal. Gall y bregusrwydd hwn gynyddu'r risg o gamfanteisio rhywiol.

At hynny, yr union reswm pam y mae rhai plant yn cael eu rhoi yn y system ofal yw eu bod eisoes wedi profi niwed rhywiol. Mae'r trawma blaenorol hwn yn gwaethygu eu bregusrwydd a gall gael effeithiau parhaol ar eu llesiant a'u datblygiad.

Mae ymchwiliadau cenedlaethol uchel eu proffil megis yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) wedi tynnu sylw at y risgiau unigryw sy'n wynebu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r plant hyn yn llawer mwy tebygol o brofi cam-drin rhywiol na'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal. Mae eu profiadau yn aml yn cynnwys camdriniaeth, esgeulustod, a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod, sy'n eu gwneud hyd yn oed yn fwy agored i niwed.

Yn 2019, cyhoeddodd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol adroddiad o'r enw *Key Messages from Research on Looked-After Children and Child Sexual Abuse*. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau llawer o'r pryderon hyn ac yn pwysleisio pwysigrwydd addysg wedi'i theilwra:

Sex and relationship education should be carefully delivered to looked-after children, emphasising mutuality and consent, and openly discussing grooming (including online, exploitation, and control and coercion) in relationships as well as covering gender dynamics and LGBTI issues.”

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen hanfodol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn ymatebol i anghenion penodol plant â phrofiad o fod mewn gofal.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg *Plant sydd ar yr Ymylon*, adroddiad sy'n canolbwyntio ar blant sy'n mynd ar goll a/neu sy'n destun camfanteisio troseddol. Mae hefyd yn taflu goleuni ar brofiadau pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal:

"Er y gall plant mewn gofal gael eu gorgynrychioli mewn ystadegau am blant coll, mae’n amlwg eu bod yn anghymesur o debygol o fynd ar goll o gymharu â phlant nad ydynt mewn gofal. Mae mynd ar goll yn golygu eu bod yn wynebu risg o niwed pellach, gan gynnwys camfanteisio a cham-drin. Ac oherwydd y trawma y mae llawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi’i brofi, ac oherwydd efallai nad oes ganddynt strwythurau cymorth cyson a chariadus o’u cwmpas, maent yn arbennig o agored i ymddygiad camfanteisiol."

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil y Ganolfan Arbenigedd, sy'n tanlinellu'r risgiau parhaus sy'n wynebu plant mewn gofal.

Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd unigolion â phrofiad o fod mewn gofal sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol yn wynebu heriau ychwanegol wrth fagu eu plant eu hunain. Mae cymorth wedi'i dargedu yn hanfodol i'w helpu i lywio'u ffordd drwy'r anawsterau hyn a thorri cylchoedd trawma.

Camsyniad cyffredin, ond peryglus, yw bod plant mewn gofal yn ddiogel yn awtomatig rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed. Er bod llawer o weithwyr proffesiynol a gofalwyr yn darparu gofal rhagorol, mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod yn wyliadwrus. Nid yw bod mewn gofal yn gwarantu diogelwch, ac mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn effro i arwyddion cam-drin a chamfanteisio rhywiol.

### Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos po fwyaf o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod mae plentyn yn eu cael, po fwyaf tebygol ydyw o brofi cam-drin rhywiol. Mae Hyb ACE Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig at godi ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a sut i liniaru eu heffaith.

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn effeithio'n sylweddol ar iechyd meddwl. Gallant arwain at:

- Risg uwch o broblemau iechyd meddwl: Mae ACEs yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o orbryder, iselder ac anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD).
- Canlyniadau iechyd hirdymor: Mae tua 1 o bob 3 chyflwr iechyd meddwl sydd wedi'u diagnosio mewn oedolion yn uniongyrchol gysylltiedig ag ACEs.
- Straen gwenwynig: Gall ACEs achosi straen gwenwynig, gan effeithio'n negyddol ar ddatblygiad yr ymennydd ac iechyd meddwl gydol oes.
- Cyflyrau iechyd cronig: Gall ACEs arwain at broblemau iechyd cronig hefyd, gan gymhlethu canlyniadau iechyd meddwl ymhellach.

Nod y Fframwaith sy'n Ystyriol o Drawma yw gwreiddio dull sy'n ystyriol o drawma ar draws gwasanaethau ar bob lefel. Er nad yw hyn yn ymwneud ag ymateb i gam-drin rhywiol yn benodol, bydd gwreiddio ymateb sy'n ystyriol o drawma ar draws gwasanaethau yn sicr o fudd i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Yn aml, gall ymddygiad fod yn fynegiant o drallod mewn plentyn ac mae ymateb mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma yn hyrwyddo adferiad.

Mae gan Straen Trawmatig Cymru ffrwd waith Ymosodiadau Rhywiol lle mae VAWDASV, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) ac eraill yn cydweithio i fynd i'r afael â niwed rhywiol. Bydd yn bartner allweddol wrth gyflawni elfennau cymorth y strategaeth hon.

**Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed**

Gall cam-drin plant yn rhywiol gael canlyniadau negyddol hirdymor i ddioddefwyr-oroeswyr, gan gynnwys effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Gall ymgais i gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio fod yn rhai o'r ffyrdd mae trawma a thrallod yr unigolyn yn cael eu harddangos. Weithiau, mae dioddefwyr-oroeswyr angen cymorth therapiwtig parhaus sy'n ystyriol o drawma gydol eu hoes i wella.

Ymgynghorwyd yn ddiweddar ar Strategaeth Iechyd Meddwl 2024-2034 Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn cynnwys sawl datganiad gweledigaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r strategaeth hon, gan gynnwys:

- Datganiad gweledigaeth 3: Mae system gysylltiedig lle bydd pawb yn cael y lefel briodol o gymorth lle bynnag y maent yn ei geisio.
- Datganiad gweledigaeth 4: Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn ddi-dor – yn canolbwyntio ar y person, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf yn ddi-oed

Mae'r ddau yn ymwneud â sefydlu dull 'dim drws anghywir' o ymdrin â chymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol yng Nghymru.

**Tlodi Plant**

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos bod cysylltiadau cryf rhwng byw mewn tlodi a risg uwch o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed megis camfanteisio'n rhywiol a chamfanteisio troseddol.

Yn ôl UNICEF[42], "One reason that poverty in childhood can have life-long impacts is because of the stress that it causes for vulnerable, developing brains and bodies". Mae'n ychwanegu, "children also can absorb their parents' stress: studies have shown that, as early as infancy, babies experience physiological stress in response to their mothers' own stress response".

Mae byw gyda straen cronig yn gallu cynyddu'r risgiau o oedi datblygiadol, problemau iechyd meddwl a datblygiad gwybyddol gwaelach. Gall plant sy'n byw mewn tlodi wynebu mwy o risg o gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod megis trais rhyng-deuluol – profiadau sydd ynddynt eu hunain yn cynyddu'r siawns o ddatblygu iselder, gorbryder, neu ddibyniaeth ar gyffuriau. Gwyddom, po fwyaf o brofiadau plentyndod niweidiol a gaiff plant, yr uchaf yw'r risg iddynt gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio mewn rhyw ffordd arall.

Ym mis Awst 2024, rhagwelodd y Resolution Foundation, melin drafod safonau byw, pe na bai rhagolygon neu bolisïau economaidd yn newid o etholiad 2024 ymlaen, y byddai 1.5 miliwn yn rhagor o bobl, gan gynnwys 400,000 o blant, mewn tlodi cymharol ar ôl costau tai yn 2029/30, o gyfradd o 22% i bob unigolyn yn 2024/25 i 23% yn 2029/30[43].

Mae adroddiad[44] diweddaraf Sefydliad Joseph Rowntree yn tynnu sylw at y materion allweddol canlynol:

- Mae tlodi yng Nghymru yn gwaethygu
- Mae effaith tlodi yn anwastad ymhlith gwahanol grwpiau o bobl
- Mae canlyniadau parhaol i iechyd ac addysg – gan gyfyngu ar y rhagolygon hirdymor i Gymru
- Plant sydd wedi bod â'r cyfraddau tlodi uchaf yn gyson ac, erbyn hyn, pensiynwyr ynghyd ag oedolion o oedran gweithio heb blant sydd â'r cyfraddau isaf.

---

[42] How does poverty affect children differently? | UNICEF Ewrop a Chanolbarth Asia
[43] Poverty in the UK: statistics - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
[44] UK Poverty 2025: The essential guide to understanding poverty in the UK | Joseph Rowntree Foundation

Nod Strategaeth Tlodi Plant 2024 Llywodraeth Cymru yw sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisïau, ein rhaglenni a'n cynlluniau gweithredu cenedlaethol a chefnogi cydweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal o dan y strategaeth hon yn codi plant a theuluoedd allan o dlodi, gan leihau'r bregusrwydd sy'n gysylltiedig â thlodi.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn ddull cynhwysfawr o fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n fater cymhleth. Drwy ganolbwyntio ar integreiddio, cydweithredu, a llesiant teuluoedd, nod Llywodraeth Cymru yw creu dyfodol tecach i bob plentyn yng Nghymru. Bydd yn hanfodol bod ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a monitro cynnydd yn digwydd i sicrhau effeithiolrwydd ac atebolrwydd y strategaeth.

### Cyfiawnder Ieuenctid

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am Gyfiawnder Ieuenctid. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio dull 'y plentyn yn gyntaf, y troseddwr yn ail'. Mae atal plant rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, lleihau eu cyswllt â hi a chynyddu cyfleoedd i ddargyfeirio yn hanfodol i'w cefnogi i fyw bywydau di-drosedd.

Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) gael effaith sylweddol ar lesiant meddyliol gydol oes, gan arwain at ganlyniadau negyddol megis cymryd rhan mewn troseddu. Mae'r rhai sydd â phedwar ACE neu fwy 15 gwaith yn fwy tebygol o gyflawni trais ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu. Felly, mae polisi'n canolbwyntio ar atal a lleihau effaith ACEs, atal problemau pontio'r cenedlaethau a datblygu gwydnwch i wella cyfleoedd bywyd.

Bydd y maes polisi hwn yn arbennig o bwysig o ran y camau y bydd y strategaeth hon yn eu cymryd i ddatblygu dull teulu cyfan o ymdrin â niwed rhywiol gan frodyr a chwiorydd a dull teulu cyfan, plentyn yn gyntaf o ymdrin ag ymddygiad rhywiol niweidiol.

### Diogelwch Cymunedol

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a sefydlwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, awdurdodau lleol, a'r gwasanaethau tân, iechyd a phrawf (a elwir yn awdurdodau cyfrifol). Mae hanner y partneriaid gofynnol wedi'u datganoli yng Nghymru, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu mewn diwygiadau i'r Ddeddf, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru bennu gofynion penodol naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae'r heddlu a llywodraeth leol yn gyd-arweinwyr ar gyfer diogelwch cymunedol, ac mae gan staff dynodedig mewn awdurdodau lleol drosolwg weinyddol ar y Partneriaethau.

Mae pob awdurdod cyfrifol yn cyfrannu ei wybodaeth leol, ei arbenigedd proffesiynol a'i adnoddau ei hun i sicrhau bod y materion sy'n peri'r pryder mwyaf i bobl leol yn cael eu blaenoriaethu a'u datrys.

Ymgorfforodd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 y cysyniad o bartneriaeth statudol sy'n gweithio i leihau troseddu ac anhrefn yn y gymuned leol. Mae rheoliadau a deddfau dilynol y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, wedi ehangu'r gofynion i gyflawni canlyniadau sy'n ymwneud ag atal a lleihau troseddu ac aildroseddu, ofn troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, a niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau.

Mae cyfrifoldebau statudol y Partneriaethau yn cynnwys:

- Darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth i helpu i ddatrys problemau lleol
  Asesiadau strategol o'r anghenion, sy'n llywio cylch cynllunio'r Partneriaethau
- Lleihau aildroseddu
- Comisiynu adolygiadau lladdiadau domestig (a sefydlwyd o dan adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004)

Mae diogelwch cymunedol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi'u llywio ar sail polisïau a deddfwriaeth ychwanegol, gan gynnwys cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o fewn Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sydd â chyfrifoldeb am uno gwaith diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Yn nodedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gyflwynodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y mae eu gwaith yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn ôl y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Mae'r Byrddau'n cynnal asesiadau llesiant lleol ac yn creu cynlluniau llesiant lleol, y mae'n rhaid iddynt, yn ôl y Ddeddf, ystyried asesiadau strategol a baratowyd gan y Partneriaethau.

Mae diogelwch cymunedol yn gorgyffwrdd â sawl maes polisi ac yn dibynnu ar weithio amlasiantaethol effeithiol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae gan y Partneriaethau oruchwyliaeth a chyfrifoldeb am sawl maes o dan fantell diogelwch cymunedol. Mae rhai'n ategu dyletswyddau penodol, gan gynnwys mynd i'r afael ag:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Terfysgaeth ac eithafiaeth

- Camddefnyddio sylweddau
- Gweithgarwch ehangach yn ymwneud â throseddu ac atal troseddu

Tra bydd cyfranogiad mewn meysydd eraill yn dibynnu ar y blaenoriaethau a osodir:

- Trais difrifol a throseddu cyfundrefnol
- Diogelwch y cyhoedd
- Caethwasiaeth fodern a chamfanteisio ar blant ac oedolion

Mae meysydd eraill sy'n cydblethu â gwaith diogelwch cymunedol, megis diogelu ac ymyrraeth gynnar, cyfiawnder ieuenctid, rheoli troseddwyr yn integredig, a chydraddoldeb, cynhwysiant a chydlyniant cymunedol.

Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel: Mae adolygiad gan Lywodraeth Cymru o weithio mewn partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru[45], a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2017, yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gadw cymunedau'n ddiogel.

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol a byddant yn chwarae rhan bwysig wrth i'r strategaeth hon gael ei rhoi ar waith.

## 4.2 Trefniadau llywodraethiant

### Strwythur

Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth derfynol, caiff **grŵp Gweithredu Strategol** ei sefydlu i oruchwylio gweithredu'r strategaeth, monitro a gwerthuso'r effaith mae'r strategaeth yn ei chael a nodi meysydd sydd angen ymchwil bellach. Bydd y grŵp yn sefydlu grwpiau eraill wrth i'r angen godi i gwblhau darnau synhwyrol o waith.

Bydd gan y grŵp gylch gorchwyl diffiniedig a bydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr ac academyddion. Bydd arbenigwyr yn cael eu cyfethol fel aelodau yn ôl yr angen.

Bydd y grŵp **Gweithredu Strategol** yn goruchwylio tri grŵp camau blaenoriaeth a phedwar grŵp ffrydiau gwaith:

Grwpiau camau blaenoriaeth:

- Datblygu a gwreiddio fframwaith hyfforddi
- Datblygu set ddata graidd

[45] gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel.pdf

- Gwreiddio llwybr cenedlaethol ar gyfer ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, byddwn yn sefydlu grŵp monitro a gwerthuso.

Grwpiau ffrydiau gwaith:

- Atal
- Amddiffyn
- Cymorth i blant a theuluoedd
- Cymorth i oedolion sy’n ddioddefwyr/goroeswyr

Bydd achlysuron pan fyddwn yn gweithio ar gamau sy’n gofyn am fewnbwn gan un neu fwy o’r grwpiau gyda’i gilydd, a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy grwpiau gorchwyl a gorffen.

Bydd y **grwpiau camau blaenoriaeth** yn cael eu cadeirio gan Lywodraeth Cymru.

Bydd pob grŵp yn cyfarfod bob chwarter i hwyluso adroddiadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn i’r grŵp Gweithredu Strategol ac yn cwblhau gwaith sy’n canolbwyntio ar dasgau rhwng cyfarfodydd.

Bydd pob un o’r grwpiau’n datblygu cynllun gweithredu manwl sy’n deillio o’r tasgau blaenoriaeth rydym wedi’u hamlinellu yn y strategaeth hon. Bydd y cynlluniau gweithredu’n iterus, yn cael eu hadolygu a’u diwygio ac ychwanegir atynt yn barhaus wrth inni symud drwy’r degawd i sicrhau ein bod yn gwreiddio dysgu’n brydlon ac yn defnyddio hyn i lywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac eraill, bydd pob un o’r grwpiau’n cytuno ar set o fesurau perfformiad lefel uchel (unwaith y bydd y grŵp set ddata craidd wedi cwblhau’r gweithgarwch cwmpasu yn y flwyddyn gyntaf) a fydd yn darparu gwybodaeth allweddol am y gweithgareddau sy’n cael eu cynnal, yr allbynnau a’r canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd a dioddefwyr-oroeswyr.

Bydd y **grŵp Gweithredu Strategol** yn sefydlu fforwm ar gyfer oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr a fydd yn gweithredu fel grŵp cynghori a grŵp cynghori plant a phobl ifanc.

Bydd sefydlu’r strwythur, y systemau a’r prosesau cyflawni sy’n ofynnol i weithredu’r strategaeth yn flaenoriaeth allweddol i’r tîm Diogelu ac Eiriolaeth ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y strategaeth.

### Llywodraethiant a goruchwyliaeth

Bydd y **grŵp Gweithredu Strategol** yn monitro ac yn adrodd ein cynnydd tuag at yr amcanion strategol a’r weledigaeth gyffredinol i Weinidogion ac eraill. Dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru, bydd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o

sefydliadau statudol a gwirfoddol, Swyddfa’r Comisiynydd Plant, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn a phartneriaid allweddol eraill. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob chwarter.

Bydd y **grŵp Gweithredu Strategol** yn goruchwylio’r grwpiau camau blaenoriaeth a ffrydiau gwaith, a bydd hyn yn cael ei adrodd i’r grŵp ddwywaith y flwyddyn. Bydd y **grŵp Gweithredu Strategol** yn defnyddio’r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiadau ddwywaith y flwyddyn hyn i lunio adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at yr amcanion strategol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda Gweinidogion a phartneriaid allweddol.

Byddwn yn sefydlu **grŵp cynghori polisi mewnol** i gynnwys cynrychiolwyr o wahanol feysydd polisi trawsbynciol. Bydd hyn yn hwyluso camau trawslywodraethol y mae angen eu cymryd i gyflawni’r weledigaeth ar gyfer y strategaeth hon ac yn darparu cyfleoedd i gydweithio a rhannu arfer gorau. Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Bydd monitro a gwerthuso ymyriadau penodol, megis rhaglenni codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr, yn cael eu cynnal drwy gydol y cylch cynllunio camau gweithredu tair blynedd ac yn cael eu hadrodd i’r **grŵp Gweithredu Strategol.**

Ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd, bydd y **grŵp Gweithredu Strategol** yn datblygu ac yn cyhoeddi adroddiad cynhwysfawr sy’n manylu ar y cynnydd a wnaed tuag at bob canlyniad strategol, camau a gymerwyd, allbynnau a gwerthusiad o’r effaith a’r canlyniadau ar gyfer plant, eu teuluoedd ac oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr.

Bydd yr adroddiad cynnydd deirgwaith y flwyddyn yn cynnwys cyfuniad o naratif am y gweithgareddau a gynhaliwyd, data meintiol (unwaith y bydd set ddata gytunedig) a gwybodaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod y cylch tair blynedd gan blant a’u teuluoedd, gweithwyr proffesiynol, dioddefwyr-oroeswyr a’r rhai sy’n cael meddyliau rhywiol am blant a/neu sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol yn erbyn plant.

Bydd y Gangen Diogelu ac Eiriolaeth yn darparu cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y strwythur cyflawni. Bydd yr Uwch Reolwr Polisi ar gyfer Diogelu Plant a’r Uwch Reolwr Polisi ar gyfer Diogelu Oedolion yn aelodau o’r **grŵp Gweithredu Strategol** ac yn cyfrannu at grwpiau camau blaenoriaeth a ffrydiau gwaith.

Bydd Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru yn cadeirio’r **grŵp Gweithredu Strategol** a’r grŵp camau blaenoriaeth setiau data craidd. Bydd cadeiryddion grwpiau ffrydiau gwaith yn eistedd ar y grŵp set ddata craidd hefyd i sicrhau ein bod yn datblygu mesurau effeithiol o lwyddiant ar gyfer pob amcan strategol.

Ar ddiwedd y flwyddyn bydd grŵp gweithredu blaenoriaeth pellach yn cael ei sefydlu a bydd yn cymryd cyfrifoldeb am gomisiynu a dadansoddi ymchwil a fydd yn llywio datblygiad y strategaeth ac yn cynnal gwerthusiad o weithgareddau a chanlyniadau.

Yn **Atodiad 2** o'r ddogfen hon, dangosir y strwythur arfaethedig ar ffurf diagram.

### Ariannu gweithredu'r strategaeth


Mae'r strategaeth hon yn cael ei datblygu mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol ac felly rydym wedi ei datblygu gyda'r ddealltwriaeth y bydd angen ffordd o osod blaenoriaethau, sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau sy'n bodoli'n barod ac eglurder ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig. Bydd y strategaeth a gyhoeddir yn cynnwys cynllun cyflawni tair blynedd a fydd, dros oes y strategaeth, yn cael ei adnewyddu bob tair blynedd tan flwyddyn naw pan fydd y strategaeth yn cael ei gwerthuso'n llawn.

## Atodiad 1: Y gydberthynas rhwng y strategaeth hon a strategaethau, cynlluniau a ffrydiau gwaith eraill y Llywodraeth

| Enw'r strategaeth/cynllun | Maes polisi | Cyfrannu'n uniongyrchol | Cyfrannu'n anuniongyrchol | Amcan Strategol |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Trawsbynciol | | X | Pawb |
| Cynllun Gweithredu LHDTC | Trawsbynciol | | X | Pawb |
| Cynllun Hawliau Pobl Anabl | Trawsbynciol | | X | Pawb |
| Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol | Trawsbynciol | | X | Pawb |
| Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel | Trawsbynciol | | X | Atal ac amddiffyn |
| Cadw Dysgwyr yn Ddiogel | Addysg | X | | Atal ac amddiffyn |
| Cynllun gweithredu aflonyddu rhywiol cymheiriaid | Addysg | X | | Atal |
| Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol | Addysg | | X | Atal |
| Pecyn cymorth ymddygiad | Addysg | | X | Atal |
| Canllawiau i Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned | Addysg | | X | Atal |
| Cod Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb | Addysg | | X | Atal |
| Gwella Cadernid Digidol mewn Addysg: Cynllun Gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein | Addysg (Hwb) | X | | Atal ac amddiffyn |
| Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig (VAWDASV) a Ffrwd Waith Trais Rhywiol | VAWDASV | X | | Pawb |
| Y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (mesur gweithgarwch a pherfformiad) a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth | Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth | X | | Datblygu set ddata graidd |
| Llwybr Diogelu Caethwasiaeth Fodern Cymru | Caethwasiaeth Fodern | X | | Amddiffyn |
| Hyfforddiant caethwasiaeth fodern ar-lein i weithwyr proffesiynol | Caethwasiaeth Fodern | | X | Atal ac amddiffyn |
| Hunanladdiad a Hunan-niweidio a strategaethau iechyd meddwl | Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed | X | | Cymorth (3) a (4) |
| NYTH/NEST | NYTH/NEST | | X | Atal |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Modelau newydd o ofal – cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal | NYTH | | X | Cymorth (3) a (4) |
| Hyb ACE Cymru | Hyb ACE Cymru | | X | Atal |
| FCymru sy'n Ystyriol o Drawma - Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol | Straen Trawmatig Cymru | X | | Diogelu, Cymorth (3) a (4) |
| Fframwaith Ansawdd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar | Blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae | | X | Atal |
| Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant | Blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae | | X | Atal |
| Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol | Blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae | | X | Atal |
| Strategaeth Tlodi Plant | Plant a theuluoedd | | X | Atal |
| Cymorth i blant sy'n derbyn gofal | Galluogi Pobl | | X | Atal, Diogelu a Chymorth (3) a (4) |
| Diogelwch Cymunedol | Diogelwch Cymunedol | X | | Amddiffyn |

## Atodiad 2: Y strwythur cyflawni arfaethedig ar gyfer y strategaeth




**Grwpiau gweithredu blaenoriaeth: Bydd y grwpiau hyn yn cael eu cadeirio gan Lywodraeth Cymru a chynhelir cyfarfodydd bob chwarter. Bydd pob un yn arwain ar un o'r camau blaenoriaeth a nodwyd y cytunwyd arnynt â rhanddeiliaid. Ar ôl iddynt gwblhau'r weithred flaenoriaeth yn llawn, byddant yn cael eu diddymu a gellir eu disodli â grwpiau gweithredu blaenoriaeth eraill trwy iteriadau'r strategaeth. Bydd gan y grwpiau hyn gynllun gweithredu a mesurau llwyddiant.**

**Grwpiau ffrydiau gwaith: Byddant yn cael eu cadeirio gan aelod o'r grŵp Gweithredu Strategol a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter. Bydd gan y grwpiau hyn gynllun gweithredu a mesurau llwyddiant.**

**Adrodd: Bydd y ddwy set o grwpiau'n adrodd cynnydd i'r grŵp Gweithredu Strategol ddwywaith y flwyddyn.**

**Atodiad 3: Cwestiynau i'w gofyn wrth ystyried ymddygiad rhywiol:**

Bydd y rhan fwyaf o ymddygiadau rhywiol yn disgyn ar hyd continwwm o ymddygiadau (gweler continwwm ymddygiadau Hackett). Bydd penderfynu ble mae'r ymddygiad yn disgyn yn ein helpu i wybod beth yw ymateb cymesur. Yn ogystal, po fwyaf o fanylion sydd gennym, y mwyaf yw ein dealltwriaeth o'r hyn a allai fod yn digwydd i'r plentyn, a pha anghenion ac anawsterau a allai fod yn sail i'r ymddygiad. Mae hwn yn fan cychwyn yn unig ond gall ein helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

| Cwestiwn i'w Ofyn | Rheswm |
|---|---|
| Beth sydd wedi digwydd? | Efallai y bydd yn ymddangos yn amlwg mai dyma'r cwestiwn cyntaf a ofynnir – ond nid dyma'r lefel o fanylion sydd ei hangen arnom bob amser. Os dywedir wrthych fod y plentyn wedi cymryd rhan mewn 'ymddygiad rhywiol sy'n peri pryder', yna dim ond man cychwyn yw hwn.<br><br>Beth yr honnir mae'r plentyn wedi'i wneud? |
| A oedd yn ymddygiad datblygiadol briodol? | Y peth nesaf i'w ddarganfod yw oedran y plentyn. – Gall hyn roi syniad inni ar unwaith a yw'r ymddygiad hwn yn briodol i'w oedran ai peidio. (Gweler Goleuadau Traffig Brook)<br><br>Efallai y byddwn felly yn gofyn a yw'r ymddygiad hwn yn rhywbeth a fyddai'n ddisgwyliedig yn yr oedran hwn neu a yw hyn yn dangos dealltwriaeth rywiol hŷn neu fwy soffistigedig. Os yw'r ymddygiad yn briodol yn ddatblygiadol, yna beth sydd wedi achosi i'r atgyfeiriwr fod yn bryderus?<br><br>NB os oes gan y plentyn ddiagnosis a fyddai'n effeithio ar ei gyflwyniad a'i ddealltwriaeth gyffredinol, mae'n bwysig canfod oedran cronolegol y plentyn o hyd. |

| | |
|---|---|
| Beth oedd cyd-destun yr ymddygiad? | Ble ddigwyddodd y digwyddiad? Pa adeg o'r dydd? Beth arall oedd yn digwydd ar yr un pryd?<br><br>Efallai y bydd yn berthnasol gwybod beth oedd yn digwydd ar y pryd – er enghraifft a oedd hi'n amser bath, neu a oedd parti tŷ yn digwydd – neu gall fod yn berthnasol gwybod y cyd-destun ehangach – er enghraifft bod y plentyn wedi'i wahardd o'r ysgol yn ddiweddar.<br><br>Yn ogystal, gallai cyd-destun gyfeirio at yr hyn yr oedd y plentyn / plant yn ei wneud ar y pryd. Oedden nhw'n chwarae, ymladd, cysgu, yfed alcohol? A oedd digwyddiad ymhlith oedolion yn digwydd, fel dadl neu drais? |
| Pwy arall oedd yn rhan o'r digwyddiad a sut oedden nhw'n gweld y digwyddiad? | Ystyriwch yma berthynas y plentyn â'r person arall (brodyr a chwiorydd, aelodau eraill o'r teulu, cyfoedion, dieithriaid). Ystyriwch ddynameg pŵer, fel oedran a maint. A oedd y person arall yn gallu cydsynio i'r ymddygiad (ystyriwch ei oedran, a oedd yn cysgu, o dan ddylanwad alcohol neu sylweddau).<br><br>Ystyriwch sut mae'r person arall wedi gweld yr ymddygiad – ydyn nhw'n ei ystyried yn annifyr neu'n anghyfforddus? Ydyn nhw'n ofnus, yn ofidus neu'n bryderus? Ydyn nhw'n ddryslyd neu'n ceisio ei leihau?<br><br>Mae'r cwestiwn hwn yn bwydo i gyd-destun. Gall dau frawd neu chwaer sydd wedi cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol fel rhan o chwarae cydfuddiannol adrodd teimladau gwahanol i blentyn iau neu gyfoedion sydd wedi cael eu bygwth. |

| | |
|---|---|
| Sut wnaethoch chi gael gwybod am y digwyddiad? | Efallai y bydd yn ein helpu i ddeall ychydig mwy am yr ymddygiad os ydym yn gwybod sut y cafodd ei ddarganfod. A wnaeth y person arall dan sylw ddweud wrth rywun beth oedd yn digwydd neu a oedd hyn wedi'i arsylwi neu ei ddarganfod mewn ffordd arall – er enghraifft gan ymchwiliad heddlu ar-lein neu gan rywun yn cerdded i mewn i ystafell wely.<br><br>Gall gwybod sut y darganfuwyd ymddygiad ein helpu i ddysgu rhywbeth am ddealltwriaeth y plentyn. Gall p'un a oedd plentyn wedi ceisio sicrhau cyfrinachedd ai peidio ein helpu i fesur a oedd gan blentyn unrhyw ddealltwriaeth nad oedd yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn iawn.<br><br>Hefyd, os darganfuwyd ymddygiad ar hap, er enghraifft rhwng brodyr a chwiorydd, yna efallai y bydd angen ystyried y gallai'r ymddygiad fod wedi digwydd ar fwy nag un achlysur. Byddai hyn wedyn yn bwydo i mewn i gynllun diogelwch, a threfniadau goruchwylio parhaus. |
| A oedd hwn yn ddigwyddiad untro? | Os yw ymddygiad yn ymddygiad rhywiol amhriodol neu broblematig sy'n digwydd unwaith, yna gall ennyn ymateb gwahanol i ymddygiad sy'n rhan o ymddygiadau rhywiol amhriodol neu broblematig parhaus. Gall fod yn awgrymu set wahanol o anghenion ac anawsterau i'r plentyn.<br><br>Gall yr ateb i'r cwestiwn hwn ein helpu i ddeall a oes patrymau o ymddygiadau rhywiol yn dod i'r amlwg, a oes cynnydd mewn ymddygiadau rhywiol, neu a yw'r ymatebion presennol i'r ymddygiadau |

| | |
|---|---|
| | rhywiol blaenorol wedi bod yn amhriodol. |
| A oedd unrhyw ffactorau eraill yn gysylltiedig (ymddygiad ymosodol/trais, cyfranogiad oedolion, ffilmio'r digwyddiad) | Yn ogystal â'n dealltwriaeth o'r cyd-destun, mae angen deall a oedd ffactorau eraill yn gysylltiedig a allai ein helpu i ystyried difrifoldeb yr ymddygiad ymhellach. Gall hyn ein helpu i wybod a oes angen inni gymryd camau diogelu pellach.<br><br>Yn ogystal â meddwl am y niwed y gallai'r plentyn fod wedi cymryd rhan ynddo, gall y ffactorau hyn fod yn arwyddion bod angen diogelu'r plentyn ei hun, ac efallai y bydd angen gwasanaethau ychwanegol i ddiogelu'r plentyn sydd wedi cael ei niweidio.<br><br>Os nodir ffactorau ychwanegol, sy'n cynyddu ein pryder am y rhai sy'n gysylltiedig, yna byddai angen cynnal trafodaeth strategaeth. |